

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol  
Social research



Rhif 22/2011



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Effaith Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru



# **Effaith Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru**

## **Gareth Williams, Old Bell 3 a Dr. Steve Johnson, Consulting Inplace**

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd farn Llywodraeth Cymru.

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch ag:

Rebecca Lewis

Isadran Ymchwil Gymdeithasol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn:

Ffacs:

E-bost: [rebecca.lewis@wales.gsi.gov.uk](mailto:rebecca.lewis@wales.gsi.gov.uk)

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2011

ISBN

© Hawlfraint y Goron, 2011

## Tabl cynnwys

	Tudalen
<b>Rhestr Acronymau</b>	<b>2</b>
<b>Crynodeb</b>	<b>3</b>
<b>1. Cyflwyniad</b>	<b>11</b>
1.1 Diben yr Adroddiad	11
1.2 Dulliau Ymchwil	12
1.3 Strwythur yr Adroddiad	13
<b>2. Y Prosiectau Ymchwil</b>	<b>14</b>
2.1 Cyflwyniad	14
2.2 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru	14
2.3 Gwerthusiad Dysgu i Wella	16
<b>3. Canfyddiadau o'r Astudiaethau Achos</b>	<b>21</b>
3.1 Cyflwyniad	21
3.2 Ymwybyddiaeth a Chymunedau Defnyddwyr	21
3.3 Defnyddioldeb a'r Defnydd a wnaed o'r Cynnyrch Ymchwil	23
3.4 Effaith ar Bolisi ac Ymarfer: Ffactorau a Rhwystrau Hwyluso	25
3.5 Pwyntiau Dysgu Allweddol ar gyfer y Dyfodol	28
<b>4. Effaith Ymchwil ar Bolisi ac Ymarfer</b>	<b>31</b>
4.1 Cyflwyniad	31
4.2 Model Rhesymegol, Llinelllog neu 'Gyrru gan Wybodaeth'	32
4.3 Plwraliaeth ac Oportiwristiaeth	38
4.4 Modelau Perthynas	42
4.5 Modelau Eraill	45
4.6 Trosolwg	46
<b>Atodiad 1:</b>	
<b>Astudiaeth Achos Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru</b>	<b>48</b>
<b>Atodiad 2:</b>	
<b>Astudiaeth Achos Gwerthusiad Dysgu i Wella</b>	<b>85</b>

## **Rhestr acronymau**

CCAUC – Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

ESRC – Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol

LSOA – Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is

SOLACE – Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol

WISERD – Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru

## Crynodeb

### Cefndir

1. Derbyniodd Old Bell 3 a Consulting Inplace gomisiwn gan Lywodraeth Cymru yn Ionawr 2011 i gynnal astudiaeth fechan yn gwerthuso effaith ymchwil o fewn Llywodraeth Cymru. Prif amcanion yr astudiaeth oedd:
  - gwerthuso effaith dau brosiect ymchwil fel astudiaethau achos
    - Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, mynegai cyfansawdd sy'n fesur swyddogol amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru;
    - Gwerthusiad Dysgu i Wella, gwerthusiad annibynnol hirdymor o bolisi llywodraeth leol Llywodraeth Cymru;
  - llunio gwersi i gefnogi a datblygu defnydd ymchwil a gaiff ei reoli gan Lywodraeth Cymru i sicrhau y caiff cyllid ymchwil ei wario'n effeithiol a'i fod yn cael yr effaith mwyaf.
2. Roedd yr astudiaeth yn cynnwys cyfweiliadau lled-strwythuredig gyda 21 o randdeiliaid allweddol yn ymwneud â'r ddau brosiect astudiaeth achos (yn cynnwys staff dadansoddi a pholisi o fewn Llywodraeth Cymru a 'defnyddwyr' y tu allan iddi), arolwg graddfa fach ar y we gyda defnyddwyr Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ac ystyriaeth o'r canfyddiadau yng ngoleuni ymchwil arall i'r ffordd y mae ymchwil yn sylfaen i'r broses gwneud polisi.
3. Mae angen cymhwyso canfyddiadau ymchwil yr astudiaeth achos oherwydd graddfa fechan y gwaith, y gyfradd ymateb gymharol isel i'r arolwg ar y we (41 ymateb neu ychydig dan 20%) a'r ffaith, yn achos Dysgu i Wella, y cynhaliwyd yr ymchwil ar gyfer ein hastudiaeth achos yn agos at ddiwedd cyfnod hir o waith maes a chasglu tystiolaeth yn arwain at gyhoeddi ail adroddiad interim gan y tîm gwerthuso.

## Canfyddiadau astudiaeth achos

4. Mae ymchwil yr astudiaeth achos yn awgrymu fod yr ymwybyddiaeth o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn eithaf eang, gyda Llywodraeth Cymru a'i hasiantaethau yn gwneud defnydd helaeth ohoni, ac awdurdodau lleol hefyd yn ei defnyddio ynghyd â ffynonellau mwy lleol o ddata a gwybodaeth. Gwelir bod ymwybyddiaeth wedi codi gyda phob 'rhifyn' dilynol o'r Mynegai, ac mae defnyddwyr yn gyffredinol hyderus eu bod yn gwybod sut i'w ddefnyddio. Fodd bynnag, mae ymwybyddiaeth o'r Mynegai Plant mwy diweddar yn llawer is.
  
5. Daeth tair neges glir i'r amlwg o'n gwaith maes am ba mor ddefnyddiol yw'r Mynegai:
  - Yn gyntaf, mae cydnabyddiaeth eang o'r angen am Fynegai o'r math yma;
  - Yn ail, y caiff y Mynegai (yn ogystal â'r parthau a'r dangosyddion sy'n sail iddo) eu defnyddio'n eang i roi gwybodaeth a dylanwadu ar y ffordd y caiff polisiâu eu gweithredu'n ofodol yng Nghymru a'i fod wedi dod yn gynyddol ddefnyddiol dros amser, yn bennaf, yn dilyn cyhoeddi data ychwanegol y medrir ei ddadansoddi ar wahân.
  - Yn drydydd, bod diffyg eglurdeb a chonsensws o fewn y gymuned bolisi (ac o fewn Llywodraeth Cymru yn fwy cyffredinol) am i ba raddau y mae dulliau gofodol at fynd i'r afael ag amddifadedd yn briodol neu'n ddymunol ac fel canlyniad nerfusrwydd am sut i ddefnyddio'r Fynegai i drin materion penodol.
  
6. Ymddengys mai'r prif ffactorau sy'n hwyluso'r defnydd o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn y broses bolisi yw:
  - ymrwymiad clir gweinyddiaethau dilynol Llywodraeth Cymru i'r agenda cyfiawnder cymdeithasol, gyda chynllun wedi'i dargedu'n ofodol, Cymunedau yn Gyntaf, yn ganolog i hyn;
  - ansawdd y deunyddiau gwybodaeth sydd ar gael gan y Gyfarwyddiaeth Ystadegol a pharodrwydd staff allweddol i neilltuo

amser i ymateb i gwestiynau ac ymholiadau (er bod cyswllt gyda'r dulliau a thechnegau gwybodaeth ffurfiol yn ymddangos yn eithaf isel yn gyffredinol);

- y cynnydd dros amser mewn data manwl yn gysylltiedig â'r dangosyddion a'r parthau sy'n sylfaen i'r Mynegai.

7. Ystyrir mai'r prif rwystrau sy'n cyfyngu effaith y Mynegai ar bolisi ac ymarfer yw:

- Pryderon sylweddol ymysg rhai am ba mor briodol yw defnyddio'r Mynegai fel ffordd o dargedu cyllid ar ardaloedd gofodol penodol yn hytrach na thargedu unigolion mewn angen;
- Graddfa ofodol fach y Mynegai;
- Diffyg unrhyw elfen hydredol i'r Mynegai;
- Gwendidau yn y data sylfaenol (er y teimlid bod tîm y Mynegai yn ymwybodol iawn o'r problemau);
- Materion cyfathrebu'n glir i rai nad ydynt yn arbenigwyr am y ffordd y dylid ac na ddylid defnyddio'r Mynegai.

8. O gymharu, ymddengys fod llawer llai o ymwybyddiaeth o Dysgu i Wella a'i fod wedi'i gyfyngu i'r rhai sydd wedi cysylltu'n agosaf gyda'r astudiaeth. Mae hyn er y gwnaed ymdrechion sylweddol i ysgogi diddordeb ar draws Llywodraeth Cymru yn y canfyddiadau a'u goblygiadau posibl.

9. Er y cydnabyddir yn gyffredinol fod ansawdd yr ymchwil yn uchel, ni ymddengys bod allbynnau ffurfiol y gwerthusiad wedi eu defnyddio'n eang hyd yma i fod yn sail uniongyrchol i bolisi ac ymarfer. Canlyniadau siomedig a gafwyd i ymdrechion helaeth adeg cyhoeddi'r adroddiad interim cyntaf i ymgysylltu gyda gwneuthurwyr polisi yn Llywodraeth Cymru ac mewn llywodraeth leol tu hwnt i'r Isadran Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, mae arwyddion cynnar yn awgrymu y gall cyhoeddi'r ail adroddiad interim, yn seiliedig ar gyfres o

astudiaethau achos, arwain at gyfnod newydd lle ystyrir bod Dysgu i Wella yn fwy defnyddiol i wneuthurwyr polisi ac ymarferwyr.

10. Dynodwyd mai'r ffactorau hwyluso o ran Dysgu i Wella oedd:
  - Brwdfrydedd ac ymrwymiad y Grŵp Llywio ac yn arbennig y rheolwr ymchwil;
  - Proffesiynoldeb ac enw da'r tîm ymchwil a
  - Y ffaith y cynhelir adolygiad llenyddiaeth (yn edrych tu hwnt i brofiad Cymru) cyn pob elfen o'r ymchwil, sy'n rhoi cyd-destun i'r canfyddiadau.
  
11. Roedd y rhwystrau tybiedig i'r astudiaeth oedd yn cael effaith ar bolisi yn cynnwys:
  - Y ffaith bod yr ymchwil yn hirdymor a strategol (yn hytrach na chyfryngol) o ran natur ac yn dal ar gam cymharol gynnar, gyda rhai yn ystyried bod yr adroddiad interim cyntaf braidd yn haniaethol;
  - Diffyg perchnogaeth 'gwreiddiog' yn yr astudiaeth;
  - Dyluniad neu hyd yn oed gysyniad cael un darn enfawr o ymchwil yn hytrach na chael olyniaeth o ddarnau gwaith gyda mwy o ffocws yn gwerthuso rhaglenni penodol neu agweddau o bolisi llywodraeth leol a/neu ddynesiad braidd yn gysyniadol y gwerthusiad;
  - Y berthynas rhwng y broses ymchwil a'r rhaglen dysgu a lledaenu, ac amserlenni maith yr ymchwil, gyda'r astudiaethau achos cyntaf yn ymddangos tua thair blynedd ar ôl comisiynu'r gwerthusiad;
  - Yr angen am fwy o ddull gweithredu 'dysgu gweithredol' at y rhaglen ddysgu a lledaenu, gan adeiladu ar y gweithdai dechreuol a chyflwyniadau'r canfyddiadau ymchwil;
  - Barn ymysg rhai o'r sawl a gyfwelwyd ei bod yn anochel mai dim ond un rhan o'r broses o ddod i benderfyniadau polisi oedd y sylfaen tystiolaeth.

### **Pwyntiau dysgu o'r astudiaethau achos**

12. Credwn mai'r pwyntiau dysgu allweddol ar gyfer y dyfodol yw:



- Yn achos **Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru**
  - pwysigrwydd parhau i sicrhau fod cymaint o'r data sylfaenol a ddefnyddiwyd yn y Mynegai ar gael ag sydd modd;
  - y potensial i ddefnyddio Mynegai 2011 i ystyried yr achos am fwy o sefydlogrwydd yn y ffordd y lluniwyd y Mynegai;
  - pwysigrwydd yn nhermau gwybodaeth a lledaenu:
    - canolbwyntio ymdrech ar ddatblygu deunyddiau arweiniad craidd sy'n hygyrch i gyffredinolwyr;
    - defnyddio staff y Gyfarwyddiaeth Ystadegol sy'n gweithio ar feysydd polisi penodol i ledaenu gwybodaeth a dealltwriaeth i gydweithwyr polisi; a
    - thargedu adrannau polisi 'defnyddiwr' allweddol;
  - yr angen i gynyddu proffil y Mynegai Plant;
  - yr angen i ganfod ffyrdd o gefnogi sefydliadau nad oes ganddynt unrhyw adnodd mewnol i ddehongli a defnyddio data'r Mynegai;
  - yr angen i sicrhau bod y Mynegai yn gweithredu o fewn fframwaith polisi clir(iach) sy'n manylu pan fo targedu gofodol yn addas;
  - y potensial ar gyfer plismona rywfaint yn gryfach o fewn Llywodraeth Cymru i sicrhau na chaiff y Mynegai ei ddefnyddio mewn ffordd amhriodol.
- Yn achos **Gwella i Ddysgu:**
  - yr angen i ddefnyddio cyhoeddiad arfaethedig yr astudiaethau achos fel y ffocws ar gyfer 'hwb' sylweddol yn nhermau'r rhaglen dysgu a lledaenu, yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau;
  - y potensial i wneud gwell defnydd o gryfderau academiaidd yr astudiaeth drwy annog y contractwyr i drefnu cynhadledd gyda chynulleidfa darged ar draws y Deyrnas Unedig ac efallai tu hwnt;
  - yr angen am ffocws cryfach ar ddull ymchwil gweithredu ar y pedair astudiaeth achos arall;

- pwysigrwydd defnyddio cyhoeddi'r astudiaethau achos a'r ail adroddiad interim i ailennyn diddordeb uwch wneuthurwyr penderfyniadau ac ehangu cwmpas y Grŵp Llywio.
- Yn fwy cyffredinol:
  - pwysigrwydd cynnwys cymaint o hyblygrwydd ag sydd modd yng nghynllun rhaglenni ymchwil hirdymor;
  - yr angen i sicrhau fod mwy o ddealltwriaeth a chefnogaeth ar gyfer rhaglenni sylweddol o ymchwil ar ran yr adran 'cwsmer' a bod staff ymchwil yn hollol fodlon am gynllun y rhaglen;
  - yr angen i gynnwys ymgysylltiad rhanddeiliaid ar lefelau strategol a gweithredol i'r broses ymchwil, efallai drwy system ddwy-haen o lywodraethu ymchwil;
  - pwysigrwydd rhaglenni ymchwil hirdymor yn dangos 'enillion cynnar' i sicrhau cefnogaeth rhanddeiliaid allweddol;
  - pwysigrwydd manteisio i'r eithaf ar ryngweithiad academiaidd polisi drwy wneud yn sicr fod ymchwilwyr academiaidd wedi eu gwerthuso'n llawn o'r cwestiynau polisi ac ymarfer allweddol.

### **Yr astudiaethau achos yng ngoleuni ymchwil ehangach**

13. Canfu astudiaethau diweddar eraill ar y ffordd y mae ymchwil yn effeithio ar y broses gwneud polisi rai enghreifftiau lle mae'r berthynas rhwng yr allbynnau/effeithiau polisi yn dilyn model resymegol, llinelllog neu 'gyrru gan wybodaeth'.
14. Mae canfyddiadau ein dwy astudiaeth achos yn cyd-daro gyda'r ymchwil yma, yn neilltuol y farn fod y berthynas rhwng ymchwil a newidiadau mewn polisi a/neu ymarfer yn tueddu i fod yn gymhleth a heb fod yn llinelllog.
15. Felly, bwriedir i Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru fod yn adnodd i fod yn sylfaen i, ac nid i yrru, polisi ac ymarfer ac felly y caiff ei ddefnyddio. Nid yw hyn yn golygu nad oes ganddo werth: pe na fyddai

ar gael, mae'n debygol y medrai nifer o ffactorau mwy mympwyol gael mwy o ddylanwad ar y broses gwneud penderfyniadau yn nhermau penderfyniadau megis sut i dargedu Cymunedau yn Gyntaf.

16. Yn hytrach, mae rôl y Mynegai yn cydymffurfio'n llawer agosach gyda model 'plwraliaeth ac oportiwnistiaeth' y ffordd y mae ymchwil yn effeithio ar bolisi, yn seiliedig ar y sylw bod effaith ymchwil ar bolisi neu ymarfer yn digwydd o fewn cyd-destun gwneud penderfyniadau pragmatig dan ansicrwydd. Yn y model yma, tybir fod gwneuthurwyr penderfyniadau yn rhoi ystyriaeth i ystod ehangach o dystiolaeth na'r hyn y medrai gwyddonwyr cymdeithasol wedi'u hyfforddi ei ystyried fel tystiolaeth ymchwil gadarn, gyda'r rhan fwyaf o bobl sy'n cymryd rhan yn y broses ymchwil a pholisi (yn cynnwys gwyddonwyr cymdeithasol, yn cydnabod dilysrwydd y math yma o ymagwedd at wneud polisi.
17. Er y gall rhesymeg sylfaenol Dysgu i Wella fod yn debycach i'r model llinellog, yn ymarferol y mae, hyd yma o leiaf, wedi ei chael yn anodd bod â dylanwad pendant ar ffurfio polisi. I ryw raddau gall hyn adlewyrchu ffactorau penodol yn ymwneud â chynllun yr astudiaeth - ei dull eithaf cysyniadol a'i hamserlen hir ar adeg pan fu'r amgylchedd allanol yn newid yn gyflym. Mae hefyd yn adlewyrchu canfyddiadau mewn ymchwil arall nad yw'r model 'llinellog' yn llawn gynrychioli'r broses y mae gwneuthurwyr polisi yn defnyddio canfyddiadau ymchwil drwyddi er mwyn datblygu polisiau newydd neu ddiwygiedig. Efallai na chaiff gwneud dim ond wynebu canfyddwyr polisi gyda chanfyddiadau ymchwil na chawsant hwy eu hunain fawr o rôl (os unrhyw rôl o gwbl) yn ei chomisiynu, a gofyn iddynt ystyried eu goblygiadau ar gyfer eu polisi, yr effaith a ddymunir.
18. Er bod elfennau o'r model plwraliaeth/oportiwnistiaeth hefyd i'w gweld yn y prosesau y bwriedir i Dysgu i Wella ddylanwadu drwyddynt ar bolisi llywodraeth leol o fewn Llywodraeth Cymru (ac mae'n dechrau gwneud hynny), mae'r astudiaeth achos yma hefyd yn dangos dau fater a gafodd eu dynodi yn y deunydd print ehangach fel ffactorau

allweddol a all gyfyngu ar ddylanwad ymchwil yn y 'cyfuniad gwneud polisi' fel y'i dangosir yn y model yma:

- yr ymwybyddiaeth wleidyddol, dealltwriaeth a chraffter ymchwilwyr o'r amgylchedd gwneud polisi a'u gallu i gyfathrebu cysyniadau a chanfyddiadau ymchwil mewn ffordd sy'n ddealladwy i wneuthurwyr polisi; a
- y diffyg cyfatebiaeth mewn gorwelion amser rhwng yr ymchwilydd nodweddiadol a'r gwneuthurwr polisi nodweddiadol.

19. Mae Dysgu i Wella hefyd, yn ein barn ni, yn anelu i (ond nid yw eto) yn cynrycholi model perthynas o'r ymchwil – perthynas bolisi, lle mae gwneud polisi yn deillio o rwydweithiau o gynhyrchwyr a defnyddwyr ymchwil yn cydweithio. Mae modelau o'r fath angen bodolaeth grŵp bychan ond dylanwadol o bobl gyda chefnidir mewn gwyddor gymdeithasol yn gweithio mewn swyddi gwneud polisi neu rolau cysylltiedig ac eiriolaeth dull gweithredu seiliedig ar dystiolaeth gan rai heb fod yn wyddonwyr cymdeithasol mewn swyddi uchel iawn. Er bod astudiaeth achos Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn dangos y gallu ar gyfer perthynas cryf a chydfuddiannol rhwng ymchwilwyr a gwneuthurwyr polisi o fewn Llywodraeth Cymru, ymddengys bod cwmpas i gryfhau'r berthynas hon ymhellach ac i'w hehangu i gynnwys yn llawnach ymchwilwyr academaidd allanol a gwneuthurwyr polisi eraill, er enghraifft, mewn llywodraeth leol.

20. Sylweddolwn y gall pwysau o fewn Llywodraeth ac mewn academia (er enghraifft, reolau caffaeliad a'r pwysau ar academyddion o'r asesiad Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, yn ogystal â chyfyngiadau adnoddau) filwrio yn erbyn partneriaethau o'r fath: yn ein barn ni, er ei effaith cyfyngedig hyd yma, gall Dysgu i Wella ddal i fedru gweithredu fel 'gwely prawf' ar gyfer dulliau gweithredu math o berthynas.

# 1. CYFLWYNIAD

## 1.1 Diben yr Adroddiad

1.1 Derbyniodd Old Bell 3 a Consulting Inplace gomisiwn gan Lywodraeth Cymru yn Ionawr 2011 i gynnal astudiaeth fechan yn gwerthuso effaith ymchwil o fewn Llywodraeth Cymru.

1.2 Y cyd-destun ar gyfer yr ymchwil oedd y gydnabyddiaeth bod Llywodraeth Cymru yn buddsoddi adnoddau sylweddol mewn ymchwil (a gynhelir gan ei ddadansoddwyr ei hun a hefyd ymchwil a gomisiynir gan ymchwilwyr allanol) a bod yr amgylchedd heriol ar gyfer gwariant sector cyhoeddus yn golygu bod angen rhoi ystyriaeth agos i'r ffyrdd o gynyddu effeithiolrwydd yr ymchwil yma i'r eithaf.

1.3 Prif amcanion yr astudiaeth oedd:

- Gwerthuso effaith dau brosiect ymchwil a reolwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru<sup>1</sup> fel astudiaethau achos (sef Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a Gwerthusiad Dysgu i Wella).
- Llunio gwersi i gefnogi a datblygu ymchwil a reolir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau y caiff cyllid ymchwil ei wario'n effeithiol a'i fod yn cael yr effaith mwyaf posibl.

1.4 Ar gyfer pob un o'r astudiaethau achos, yr amcanion oedd:

- Dynodi pwy yw'r cymunedau sy'n defnyddio canfyddiadau'r ymchwil
- Dynodi sut y caiff y cymunedau defnyddwyr eu hysbysu am yr ymchwil
- Dynodi'r ffyrdd y bydd y cymunedau defnyddwyr yn defnyddio canfyddiadau'r ymchwil, ac i ba raddau y maent yn eu defnyddio
- Disgrifio i ba raddau y mae'r astudiaethau wedi effeithio ar bolisi ac ymarfer

---

<sup>1</sup> Enw blaenorol Llywodraeth Cymru

- Asesu i ba raddau y mae'r astudiaethau wedi effeithio ar bolisi ac ymarfer, gan amlygu lle medrai astudiaethau fod wedi cael mwy o effaith ac arferion da
- Disgrifio'r broses o sicrhau unrhyw effaith a ddynodwyd yn cynnwys:
  - sut a pham y cafodd unrhyw effaith ei sicrhau
  - dulliau oedd yn hwyluso effaith yr astudiaethau
  - ffactorau oedd yn rhwystro'r astudiaeth rhag cael effaith
- Llunio pwyntiau ymchwil o'r astudiaethau achos a all gynorthwyo ymchwilwyr i sicrhau y caiff ymchwil ei ddefnyddio'n eang a'i fod yn cael yr effaith mwyaf posibl.

1.5 Y bwriad oedd i'r ymchwil fod yn ansoddol, yn seiliedig i raddau helaeth ar gyfweiliadau wyneb-i-wyneb gyda rhanddeiliaid allweddol a defnyddwyr cynnyrch ymchwil.

1.6 Hwn yw adroddiad terfynol yr astudiaeth. Amgaeir dau adroddiad astudiaethau achos, sy'n cynnwys mwy o fanylion ar y canfyddiadau yng nghyswllt Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a'r Gwerthusiad Dysgu i Wella, fel Atodiadau 1 a 2.

## **1.2 Dulliau Ymchwil**

1.7 Cynhaliwyd yr astudiaeth yma dros gyfnod o ddau fis (Mawrth-Ebrill 2011).

1.8 Roedd yr ymchwil yn cynnwys:

- Adolygiad byr o ddeunydd cefndir ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a Dysgu i Wella;
- Cyfweiliadau wyneb i wyneb gyda staff allweddol o fewn Llywodraeth Cymru (mewn swyddi polisi a hefyd swyddi dadansoddi) a sefydliadau eraill gyda diddordeb yn un neu'r ddau o'r pynciau: cyfwelwyd â chyfanswm o 18 o unigolion yng nghyswllt Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ac 11 unigolyn yng nghyswllt Dysgu i Wella;

- Arolwg electronig a anfonwyd at unigolion sy'n derbyn cylchlythyrau rheolaidd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ac at unigolion a fynychodd ddigwyddiadau ymgynghori ar y Mynegai ddiwedd 2009. Derbyniwyd cyfanswm o 41 ymateb wedi'u llenwi, cyfradd ymateb sydd ychydig dan 20%<sup>2</sup>;
- Cyfweliadau ffôn dilynol gyda saith ymatebydd i'r arolwg ar y Mynegai a ddywedodd eu bod yn hapus i gymryd rhan mewn camau ychwanegol o'r ymchwil<sup>3</sup>.

1.9 Mae angen rhoi amodau ar ganfyddiadau ar Dysgu i Wella gan y bu'n anodd dynodi cohort ehangach o randdeiliaid a fedrai siarad gydag unrhyw awdurdod am eu barn am effaith wirioneddol ac effaith bosibl Dysgu i Wella. Roedd hyn i raddau helaeth oherwydd amseriad: cynhaliwyd yr ymchwil tuag at ddiwedd cyfnod hir o waith maes a chasglu tystiolaeth yn arwain at gyhoeddi ail adroddiad interim yn seiliedig ar gyfres o astudiaethau achos, i'w cyhoeddi yn haf 2011. Rydym felly'n ymwybodol bod ein canfyddiadau yn seiliedig ar ystod gul o gyfweleion, yn bennaf o'r tu fewn i Lywodraeth Cymru, gyda'r posibilrwydd o roi pwysau anghymesur ar farn nifer fechan o ymatebwyr unigol.

1.10 Rhoddir manylion pellach yn Atodiadau 1 a 2.

### 1.3 Strwythur yr Adroddiad

1.11 Yng ngweddill yr adroddiad cyflwynwn drosolwg byr o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a Gwerthusiad Dysgu i Wella (Adran 2), yna rhoddwn grynodeb o'n prif ganfyddiadau yng nghyswllt y ddwy astudiaeth achos (Adran 3) cyn yn derfynol ystyried ein canfyddiadau yng ngoleuni ymchwil flaenrol ar effaith polisi ymchwil gymdeithasol (Adran 4).

<sup>2</sup> Anfonwyd neges e-bost yn cynnwys dolen i'r holiadur ar y we at 253 o gyfeiriadau e-bost a gafwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ni chyrraeddodd 29 ohonynt ben eu taith, gan roi cyfanswm o 224 o ymatebwyr posibl. Ar y sail yma, roedd y gyfradd ymateb yn 18.3%.

<sup>3</sup> Cytunodd un ar ddeg o gyfranogwyr – neu 27% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwgh ar y we – gymryd rhan mewn cyfweliadau ffôn.

## 2 Y Prosiectau Ymchwil

### 2.1 Cyflwyniad

2.1 Yn yr adran yma, rhoddwn gyflwyniad byr ar ddau brosiect ymchwil oedd yn bwnc yr ymchwil astudiaeth achos;

### 2.2 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

2.2 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ('Y Mynegai') yw'r mesur swyddogol o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Mae amddifadedd yn gysyniad ehangach na thlodi, ac mae'n cyfeirio at broblemau a achosir gan ddiffyg adnoddau (e.e. arian) a hefyd gyfleoedd<sup>4</sup>.

2.3 Prif bwrpas y Mynegai yw dynodi'r ardaloedd mwyaf amddifadus yng Nghymru er mwyn rhoi gwybodaeth ar gyfer penderfyniadau ar bolisi a chyllid.

2.4 Cyhoeddwyd y Mynegai cyntaf yn 2000, ac fe'i datblygwyd gan ymchwilwyr o Brifysgol Rhydychen. Cafodd wedyn ei ddatblygu yn fewnol gan Gyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth Cymru (gan weithio gydag Uned Data Llywodraeth Leol - Cymru) a chyhoeddwyd mynegai newydd yn 2005. Cyhoeddwyd Mynegai pellach yn cynnwys data ar y parth diogelwch cymunedol am y tro cyntaf yn 2008. Cyhoeddir diweddariad o'r Mynegai yma - na fydd yn gwneud unrhyw newidiadau i fethodoleg na dangosyddion heblaw lle mae newidiadau mewn darpariaeth data'n golygu na fedrir osgoi hynny - ym mis Awst 2011. Yn ychwanegol, datblygwyd Mynegai Plant, yn defnyddio'r data ar gyfer Mynegai 2008.

2.5 Mae'r Mynegai yn rhoi 1,896 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA

---

<sup>4</sup> Daw gwybodaeth yn yr adran yma o wefan Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/statistics/theme/wimd/?lang=cy> a 'Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, 2008'.



Cymru, gyda phob un ohonynt gyda'n fras yr un nifer o bobl yn byw ynddynt. Cafodd safleoedd amddifadedd eu cyfrif ar gyfer pob un o'r ardaloedd hyn; mae gan yr ardal fwyaf amddifadus safle o 1, a'r ardal lleiaf amddifadus safle o 1,896.

- 2.6 Mae Mynegai 2008 yn seiliedig ar wyth parth gwahanol, pob un ohonynt yn dynodi 'math' o amddifadedd'. Yr wyth parth yw incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, tai, mynediad i wasanaethau, amgylchedd, a diogelwch y gymuned.
- 2.7 Mae pob un o'r parthau yn seiliedig ar ystod o wahanol ddangosyddion a chânt eu mesur mewn gwahanol ffyrdd, yn defnyddio gwahanol unedau. Caiff dangosyddion o fewn pob parth eu pwysoli i adlewyrchu eu cyfraniadau i'r Mynegai cyn cael eu cyfuno i ffurfio sgôr parth. Caiff pob parth ei grynhai fel un mesur a chyfunir y rhain yn y brif fynegai.
- 2.8 Oherwydd newidiadau i'r ffordd y datblygwyd Mynegeion dilynol, nid yw'n bosibl gwneud cymariaethau dros gyfnod yng nghyswllt safleoedd o fewn y Mynegai yn ei gyfanrwydd<sup>5</sup>. Nid yw'n bosibl ychwaith i Gronni i ardaloedd gofodol mwy (wardiau etholiadol neu ardaloedd awdurdod lleol) yn defnyddio'r safleoedd o fewn y Mynegai. Fodd bynnag, medrir defnyddio'r dangosyddion sylfaenol i olrhain newidiadau dros gyfnod ac i alluogi cymariaethau mewn ardaloedd gofodol mwy a bu cynnydd yn y data sylfaenol yma sydd ar gael dros y deng mlynedd ddiwethaf. Yn fwy diweddar, ym Mawrth 2011, darparodd y Gyfarwyddiaeth Ystadegol set data newydd yn cynnwys dangosyddion y Mynegai ar lefelau Awdurdodau Lleol, Ardaloedd Adfywio Strategol, ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a nifer o grwpiau eraill yn ogystal â lefel LSOA<sup>6</sup>.
- 2.9 Goruchwylir y Mynegai gan Grŵp Llywio (gynt y Bwrdd Prosiect) yn cynnwys staff o amrywiaeth o rolau o fewn Llywodraeth Cymru. Caiff y

---

<sup>5</sup> Hyd yn oed os nad oedd unrhyw newidiadau i'r fethodoleg ar gyfer gwahanol rifynnau'r Mynegai, byddai'n parhau i fod yn amhosibl olrhain newid ar gyfer unrhyw ardal unigol dros gyfnod yn defnyddio'r safleoedd, gan nad yw'n bosibl dweud os yw symud safleoedd oherwydd newidiadau yn yr ardal ei hun neu newidiadau i ardaloedd eraill.

<sup>6</sup> Cylchlythyr Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 5 Chwefror 2011

Grŵp Llywio ei gynorthwyo gan grŵp ymgynghori, grŵp lledaenu a saith gweithgor parth ar gyfer yr wyth parth amddifadedd (gydag incwm a chyflogaeth wedi'u cyfuno), pob un ohonynt yn cynnwys Llywodraeth Cymru a hefyd arbenigwyr/cynrychiolwyr allanol. Cynhaliodd tîm y Mynegai hefyd ymgynghoriad agored ddiwedd 2009 ar ei raglen waith ac mae'n cyfathrebu drwy gylchlythyr electronig rheolaidd sydd ar gael ar gais.

2.10 Mae gwybodaeth bellach ar gael yn:

<http://wales.gov.uk/topics/statistics/theme/wimd/?lang=cy>

### 2.3 Gwerthusiad Dysgu i Wella

2.11 Mae datganiad polisi *Rhannu Cyfrifoldeb*<sup>7</sup> yn nodi ei bolisi llywodraeth leol ar gyfer y cyfnod rhwng 2007 a 2011. Gan adeiladu ar strategaeth *Creu'r Cysylltiadau* ac ymateb Llywodraeth Cymru<sup>8</sup> i adolygiad Beecham<sup>9</sup>, mae'r datganiad polisi yn tanlinellu pwysigrwydd:

- rhoi'r dinesydd yng nghanol polisi a chyflenwi (neu gysylltu â dinasyddion)
- cydweithredu rhwng darparwyr gwasanaeth cyhoeddus (yn cynnwys gweithio rhwng awdurdodau lleol ar draws ffiniau llywodraeth leol a phartneriaeth gyda darparwyr gwasanaeth eraill);
- gweithio effeithiol rhwng llywodraeth leol a llywodraeth ganol.

2.12 Mae'r tair thema yma yn ffocws gwerthusiad annibynnol hirdymor o bolisi llywodraeth leol Llywodraeth Cymru, a elwir yn Dysgu i Wella. Comisiynwyd y gwerthusiad yn 2008, ar ôl astudiaeth ddichonolrwydd a gynhaliwyd gan y Ganolfan Ymchwil Rhanbarthol a Llywodraeth Leol o fewn Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd.

---

<sup>7</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (Mawrth 2007) *Rhannu Cyfrifoldeb: Cyfraniad Llywodraeth Leol at Wella Bywydau Pobl* – Datganiad polisi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

<sup>8</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (Tachwedd 2006) *Creu'r Cysylltiadau - Cyflawni Ar Draws Ffiniau, Trawsnewid Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru*.

<sup>9</sup> Beecham J., Morgan, G., Webb, A., Martin, S. (2006) *Ar Draws Ffiniau: Gwasanaethau Lleol sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd*, Adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

2.13 Ar ôl tendr cyhoeddus, dyfarnwyd y contract i'r Ganolfan mewn partneriaeth gyda Shared Intelligence, sefydliad annibynnol sy'n arbenigo mewn ymchwil i lywodraethu lleoi effeithiol a meithrin gallu ymysg awdurdodau lleol a rhanddeiliaid cysylltiedig. Tîm Prifysgol Caerdydd o bedwar ymchwilydd fyddai'n arwain y broses ymchwil a bwriedid i raglen dysgu a lledaenu, dan arweiniad Shared Intelligence, i fod yn broses ddwy ffordd ar hyd y gwerthusiad, gan gynnwys cyfres o ddigwyddiadau dysgu yn anelu i gysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru, cynghorwyr a swyddogion awdurdodau lleol, a chynrychiolwyr darparwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill.

2.14 Mae Dysgu i Wella yn cynnwys rhaglen waith bedair blynedd (y disgwylir iddi ddod i ben ganol 2012) ar gost o tua £500,000 sy'n anelu i roi adborth parhaus i wneuthurwyr polisi i helpu sicrhau fod y polisi wedi'i osod ar seiliau cadarn, yn ymatebol, yn cael ei weithredu'n dda ac yn effeithiol<sup>10</sup>. Bwriedir i Dysgu i Wella hefyd gyfrannu at ddatblygu datganiad newydd ar gyfer polisi llywodraeth leol a bu eisoes yn sylfaen i ddatblygu'r 'Ddealltwriaeth Newydd' a gyhoeddwyd yn 2009<sup>11</sup>.

2.15 Amcanion penodol Dysgu i Wella yw dadansoddi:

- y ffordd y caiff polisi llywodraeth leol ei ddatblygu a'i gyfathrebu;
- sut y caiff polisi ei gyflenwi;
- effeithiau a chanlyniadau'r polisi ar lawr gwlad.

2.16 Mae gan yr astudiaeth ymagwedd aml-ddull lle mae'r agwedd casglu tystiolaeth o'r astudiaeth, a arweinir gan dîm Caerdydd, yn defnyddio dulliau ymchwil sylfaenol ac eilaidd, gan ddefnyddio data o bedair ffynhonnell allweddol:

- setiau data, adroddiadau a dogfennau polisi presennol;

---

<sup>10</sup> Manyleb Gwahoddiad i Dendro.

<sup>11</sup> *Dealltwriaeth Newydd rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth Leol yng Nghymru, Tachwedd 2009*. Nod y cyd-ddarganiad yma gan Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru oedd esbonio sut y byddent yn cydweithio i ddarparu gwasanaethau ardderchog i ddinasyddion.

- ailadrodd arolwg Cymru-gyfan – llinell sylfaen a gwblhawyd yn 2009 ac arolwg dilynol sydd ar y gweill ar gyfer 2011. Mae'r arolygon yn rhai aml-ymatebydd a dargedwyd at uwch swyddogion a chynghorwyr o bob un o'r 22 awdurdod unedol ar draws Cymru;
- astudiaethau achos aml-ddull manwl yn canolbwyntio ar dair thema allweddol polisi llywodraeth leol Llywodraeth Cymru (cysylltu â dinasyddion, cydweithredu a chysylltiadau canol-lleol) ac o amgylch materion o ddiddordeb a phwysigrwydd ehangach;
- cyfweiliadau manwl gyda gwneuthurwyr polisi a rhanddeiliaid cenedlaethol allweddol eraill.

2.17 Roedd cam cyntaf y gwerthusiad yn cynnwys arolwg llinell sylfaen o swyddogion awdurdod lleol a gynhaliwyd rhwng Tachwedd 2008 a Mawrth 2009 a chyfweiliadau gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid llywodraeth leol. Arweiniodd hyn at adroddiad interim cyntaf<sup>12</sup> y gwerthusiad, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2009, ac a ddaeth i gasgliadau o ran y ffordd y cafodd polisi llywodraeth leol Llywodraeth Cymru ei ddatblygu, ei gyfathrebu a'i gyflenwi ar lawr gwlad.

2.18 Lledaenwyd canfyddiadau'r Adroddiad Interim drwy gyfres o weithdai dwy-awr a dargedwyd at uwch reolwyr o fewn Llywodraeth Cymru, wedi'u cysylltu gyda'r Rhwydwaith Arweinyddiaeth o uwch swyddogion a drefnir gan dîm dysgu a datblygu Llywodraeth Cymru. Yn ychwanegol, rhoddodd aelodau o dîm ymchwil a swyddogion arweiniol Llywodraeth Cymru nifer o gyflwyniadau i'r gwasanaeth sifil a chynulleidfaoedd allanol. Er enghraifft, aeth rheolwr prosiect Llywodraeth Cymru a'r swyddog arweiniol o'r isadran llywodraeth leol â'r canfyddiadau i Grŵp Busnes Llywodraeth Cymru, a gadeiriwyd gan yr Ysgrifennydd Parhaol, a rhoddodd y tîm ymchwil gyflwyniad a thrafodaeth ddilynol i SOLACE (cymdeithas prif weithredwyr awdurdodau lleol). Yn Ionawr 2011, cyflwynwyd y canfyddiadau i'r

<sup>12</sup> Guarneros-Meza, V., Downe, J., Entwistle, T. a Martin, S. (July 2009), *Learning to Improve: An Independent Assessment of the Welsh Assembly Government's Policy for Local Government*, Canolfan Ymchwil Llywodraeth Leol a Ranbarthol, Ysgol Fusnes Caerdydd.

Gweinidog Llywodraeth Leol, a fynegodd ddiddordeb cadarnhaol ac a ofynnodd am gael ei gadw mewn cysylltiad â'r ymchwil.

2.19 Bu'r tîm ymchwil mewn cysylltiad rheolaidd gyda sefydliadau allweddol llywodraeth leol a gwnaed nifer fechan o gyflwyniadau o ganfyddiadau adroddiad interim i gynulleidfaoedd llywodraeth leol. Roedd y rhain yn cynnwys sesiwn ar gyfer SOLACE, dan arweiniad cyfarwyddwr y prosiect, a chyflwyniad i'r pedwar arweinydd grŵp yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

2.20 Roedd yr ail gam yn cynnwys cyfres o bedair astudiaeth achos manwl o wahanol feysydd polisi, a ddedolwyd yn ofalus i sicrhau eu bod mor berthnasol ag oedd modd i wneuthurwyr polisi. Cynhaliwyd yr ymchwil astudiaeth achos drwy gydol llawer o 2009 a 2010 a chasglodd dystiolaeth drwy arolygon, grwpiau ffocws a chyfweiliadau manwl. Y pedair astudiaeth achos yw:

- Cymunedau yn Gyntaf yng Nghaerffili a Rhondda Cynon Taf;
- moderneiddio ysgolion ym Mhowys (yn cynnwys archwiliad o'r broses ad-drefnu ysgolion cynradd mewn dau ddalgylch);
- y pedwar consortiwm trafniadaeth rhanbarthol;
- Byrddau Gwasanaeth Lleol, yn edrych yn fanwl ar bedwar prosiect Bwrdd Gwasanaeth Lleol mewn tri awdurdod lleol.

2.21 Cafodd yr astudiaethau achos eu cwblhau a byddant yn sylfaen i ail adroddiad interim a gyhoeddir yn Haf 2011. Disgwylir i hyn hefyd fod yn ffocws cyfres o ddigwyddiadau dysgu a lledaenu<sup>13</sup>.

2.22 Disgwylir i'r cam olaf gynnwys pedair astudiaeth achos arall<sup>14</sup>, ail arolwg o uwch swyddogion llywodraeth leol a chyfweiliadau gyda

---

<sup>13</sup> Roedd rhai o'r digwyddiadau hyn wedi'u cynnal erbyn cwblhau'r adroddiad yma.

<sup>14</sup> Gweithio partneriaeth rhanbarthol yng Ngogledd Cymru; ad-drefnu ysgolion yng Ngheredigion; rôl swyddogion arweiniol Byrddau Gwasanaeth Lleol; a datblygiad a gweithrediad Mesur Llywodraeth Leol 2009.

rhanddeiliaid allweddol o fewn Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol.  
Cyhoeddir adroddiad terfynol yn 2012.

2.23 Goruchwylir y prosiect gan Grŵp Llywio, dan gadeiryddiaeth y swyddog arweiniol o fewn yr Isadran Ymchwil Gymdeithasol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a SOLACE yn ogystal â swyddogion Llywodraeth Cymru.

### **3 Canfyddiadau o astudiaethau achos ‘Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru’ a ‘Dysgu i Wella’**

#### **3.1 Cyflwyniad**

3.1 Yn yr adran yma rhoddwn grynodedb o ganfyddiadau'r ddwy astudiaeth achos, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a Gwerthusiad Dysgu i Wella.

3.2 Wrth wneud hynny, ystyriwn yn eu tro ymwybyddiaeth o'r ddau brosiect ymchwil a'r cymunedau defnyddwyr ar eu cyfer (Adran 3.2), pa mor ddefnyddiol oedd yr ymchwil a'r defnydd a wnaed ohoni (Adran 3.3), yr effaith ar bolisi ac ymarfer, yn cynnwys ystyriaeth o rwystrau a ffactorau hwyluso (Adran 3.4) a phwyntiau dysgu allweddol yng nghyswllt y ddau brosiect ymchwil (Adran 3.5).

#### **3.2 Ymwybyddiaeth a Chymunedau Defnyddwyr**

3.3 O ran **Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru**, mae ein hymgyngoriadau ac arolwg ar y we yn awgrymu<sup>15</sup>:

- yr ymddengys bod Llywodraeth Cymru ei hunan (yn arbennig yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol<sup>16</sup>) a'i hasiantaethau (fel Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru - CCAUC) yn gwneud defnydd sylweddol o'r Mynegai;
- bod y defnydd o'r Mynegai mewn manau eraill yn fwy cymysg ac yn dibynnu ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd ar gael o fewn y sefydliad defnyddio;
- bod awdurdodau lleol Cymru yn defnyddio'r Mynegai ar gyfer gwybodaeth ar gyfer penderfyniadau polisi a dyrannu adnoddau, er yr ymddengys eu bod yn ei ddefnyddio yn fwy fel ffordd o ganfod

---

<sup>15</sup> Dylid cydnabod bod y ffononellau data a'r gyfradd ymateb i'r arolwg yn golygu nad yw'r canlyniadau o reidrwydd yn cynrychioli pob defnyddiwr. Fodd bynnag, mae'r adran yma'n seiliedig ar ganlyniadau'r arolwg a hefyd ar farn y sawl a gyfweilwyd wyneb i wyneb yn cynnwys staff dadansoddol.

<sup>16</sup> Defnyddiwn y teitlau Adrannau oedd yn cael eu defnyddio adeg y gwaith maes: cafodd Adrannau Llywodreth Cymru eu hailstrwythuro yn dilyn etholiadau Mai 2011.

barn leol a thystiolaeth yn hytrach nag offeryn sy'n sefyll ar ei ben ei hun;

- byddai'n ymddangos mai defnydd mwy cyfyngedig o'r Mynegai a wneir yn y sector gwirfoddol a chymunedol, er enghraifft fel ffordd o gefnogi cais am gyllid;
- cymharol ychydig o dystiolaeth sydd o ddefnydd y Mynegai gan y sector preifat (er bod ystadegwyr Llywodraeth Cymru yn gwybod am enghreifftiau o hyn, yn ogystal â defnydd academyddion o'r Mynegai).

3.4 Ystyrir yn gyffredinol fod gan y Mynegai broffil uchel o fewn Llywodraeth Cymru ac mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus yng Nghymru, sy'n adlewyrchu ei ansawdd fel cynnyrch a lledaenu cyffredinol effeithiol. Credir bod ymwybyddiaeth wedi cynyddu gyda chyhoeddi mynegeion dilynol. Mae defnyddwyr yn gyffredinol yn weddol hyderus fod ganddynt ddealltwriaeth dda o'r Mynegai er bod gwybodaeth am y Mynegai Plant yn llawer llai cyffredin.

3.5 Ar yr un pryd, er y canmolwyd y Gyfarwyddiaeth Ystadegol am ei pharodrwydd i ymateb i ymholiadau a chwestiynau, ymddengys bod lefelau cymharol isel o gyswllt yn gyffredinol gyda'r dulliau a thechnegau mwy ffurfiol a ddefnyddiwyd gan y Gyfarwyddiaeth, megis ymgynghoriadau a digwyddiadau hyfforddiant/lledaenu a'r cylchlythyr electronig.

3.6 Yn wahanol i'r Mynegai, cyfyngwyd ymwybyddiaeth gyfredol o'r **Gwerthusiad Dysgu i Wella** i gylch gweddol gyfyng o unigolion o fewn Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol, yn bennaf y rhai oedd yn ymwneud yn uniongyrchol drwy'r Grŵp Llywio, y credid yn eang ei fod yn weithgar iawn ac yn gefnogol i'r astudiaeth. Mae hyn er y gwnaed ymdrechion sylweddol ar draws Llywodraeth Cymru i ysgogi diddordeb yn y canfyddiadau a'u goblygiadau posibl.



- 3.7 Mae cyswllt ar ran awdurdodau lleol yn gyfyngedig iawn yn gyffredinol ac mae cynrychiolwyr llywodraeth leol sy'n cymryd rhan yn y Grŵp Llywio yn ystyried bod yr astudiaeth yn bennaf o werth i Lywodraeth Cymru. O fewn Llywodraeth Cymru, credai nifer o'r rhai a gyfwelwyd fod ymgyfraniad rhagweithiol yn yr astudiaeth wedi ei gyfyngu'n bennaf i'r Grŵp Llywio ei hunan ac i'r isadran Llywodraeth Leol o fewn Llywodraeth Cymru, gyda thystiolaeth yn gyfyngedig o gyswllt adrannau eraill.
- 3.8 Gobeithiai rhai o'r cyfweleion y bydd cyhoeddi'r astudiaethau achos a'r ail adroddiad interim yn ddiweddarach eleni yn rhoi hwb newydd i gynyddu ymwybyddiaeth ac ymrwymiad yn Dysgu i Wella, o fewn Llywodraeth Cymru a hefyd ar draws y sector llywodraeth leol.

### **3.3 Defnyddioldeb a'r Defnydd a wnaed o'r Cynnyrch Ymchwil**

- 3.9 Daeth tair neges glir i'r amlwg o'n gwaith maes yng nghyswllt defnyddioldeb **Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru:**
- Yn gyntaf, ar gyfer mwyafrif llethol y rhai a gyfwelwyd, mae angen Mynegai o'r math yma.
  - Yn ail gwneir defnydd helaeth o'r Mynegai (yn ogystal â'r parthau a'r dangosyddion sy'n sylfaen iddo) i hysbysu a dylanwadu'r ffordd y caiff polisiâu eu gweithredu'n ofodol yng Nghymru ac iddo ddod yn fwy defnyddiol dros amser, yn bennaf fel canlyniad rhyddhau data ychwanegol y medrir ei ddadansoddi ar wahân.
  - Yn drydydd, bod diffyg eglurder a chonsensws o fewn y gymuned polisi (ac o fewn Llywodraeth Cymru yn fwy cyffredinol) am i ba raddau y mae dulliau gofodol at fynd i'r afael ag amddifadedd yn addas neu'n ddymunol ac fel canlyniad nerfusrwydd am sut i ddefnyddio'r Mynegai i drin materion penodol.
- 3.10 Gallodd y rhai a gyfwelwyd sôn am nifer sylweddol o achosion lle mae gan y Mynegai rôl allweddol wrth hysbysu neu dargedu polisi ac adnoddau, er enghraifft, Cymunedau'n Gyntaf, defnyddio adnoddau

heddlu, dyrannu cyllid ar gyfer darpariaeth ôl-16 mewn addysg, asesu perfformiad ysgolion a'r strategaeth ar dlodi plant.

- 3.11 Er y gwneir defnydd eang o'r Mynegai, roedd tua hanner y rhai a gyfwelwyd yn bryderus bod risg y caiff y Mynegai ei gamddeall neu ei gamddefnyddio. Mae'r rhan fwyaf o'r pryderon hyn o fewn Llywodraeth Cymru, gan efallai ddangos tueddiad mwy (neu dueddiad tybiedig) i wneuthurwyr polisi roi rôl unigryw o bwysig i'r Mynegai yn nhermau rhoi darlun o amgylchiadau lleol, tra bod cyrff eraill (megis awdurdodau heddlu a llywodraeth leol), yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Mynegai mewn cysylltiad â data a gwybodaeth (weithiau anecdotaidd) arall.
- 3.12 Fel gyda'r Mynegai, mae'r rhan fwyaf o'r rhai sydd â gwybodaeth o'r **Gwerthusiad Dysgu i Wella** yn credu fod gwaith y tîm ymchwil o safon uchel ac yn werthfawr wrth ddeall yr agweddau ac ymddygiad cymhleth sydd weithiau'n croesddweud ei gilydd o fewn Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol am weithio partneriaeth, er i rai holi pa mor ddefnyddiol yw'r model cysyniadol a ddatbygydd fel rhan o'r adroddiad interim cyntaf i ddynodi gwahanol fathau o gysylltiadau canolog-lleol.
- 3.13 Fodd bynnag nid yw'n ymddangos i allbynnau ffurfiol y gwerthusiad gael eu defnyddio'n eang hyd yma i fod yn sail uniongyrchol i bolisi ac ymarfer, er yn ddi-os y buont o ddefnydd i'r Isadran Llywodraeth Leol wrth dynnu sylw at yr yr amrywiaeth o wahanol ymagweddau at awdurdodau lleol o fewn Llywodraeth Cymru ac yr ymddengys iddynt fod yn sail i ddatblygiad 'Dealltwriaeth Newydd'.
- 3.14 Er i'r Grŵp Llywio wneud ymdrechion helaeth i sicrhau lledaenu'r adroddiad interim cyntaf, ymddengys mai llwyddiant cymysg gafodd hyn, gyda gweithredu dilynol cymharol gyfyngedig. Mae ein hymchwil yn awgrymu fod hyn yn rhannol oherwydd i'r adroddiad gyflwyno canfyddiadau cymharol gynnar o'r astudiaeth llinell sylfaen, heb fawr o ran canfyddiadau ymchwil sylweddol neu argymhellion ac yn adlewyrchu'n rhannol brinder cyfleoedd addas ar gyfer lledaenu

canfyddiadau'r ymchwil. Ar ôl dweud hyn, mae nifer o gyfarfodydd a chyflwyniadau graddfa-fach i grwpiau megis SOLACE, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, pwyllgorau allweddol Llywodraeth Cymru a'r Gweinidog Llywodraeth Leol wedi helpu i gadw rhyw lefel o ymwybyddiaeth o'r astudiaeth ar lefel uwch.

3.15 Fodd bynnag, mae arwyddion cynnar yn awgrymu y gall cyhoeddi'r astudiaethau achos arwain at gyfnod newydd lle tybir bod Dysgu i Wella yn fwy defnyddiol i wneuthurwyr polisi ac ymarferwyr nag a fu hyd yma, gan adeiladu ar y diddordeb dechreuol a ysgogwyd drwy'r gweithgareddau lledaenu a ddisgrifir uchod.

### **3.4 Effaith ar Bolisi ac Ymarfer: Ffactorau a Rhwystrau Hwyluso**

3.16 Awgrymodd canlyniadau'r gwaith maes y cafodd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru effaith sylweddol ar bolisi ac ymarfer, yn fwyaf nodedig drwy siapio cynllun blaenllaw Cymunedau yn Gyntaf (sydd hefyd wedi gweithredu fel 'dull trosglwyddo' ar gyfer y Mynegai mewn rhai achosion), ond hefyd drwy ystod eang o gymwysiadau eraill, er enghraifft yng nghyswllt polisi addysg a phlisma. Mae hyn yn llawer llai gwir o'r Mynegai Plant mwy newydd, nad yw wedi ennill ei blwyf i'r un graddau.

3.17 Ymddengys mai'r prif ffactorau sy'n hwyluso effaith y prif Fynegai yw:

- ymrwymiad clir llywodraethau dilynol y Cynulliad Cenedlaethol i'r agenda cyfiawnder cymdeithasol, gyda chynllun sydd wedi'i dargedu'n ofodol, Cymunedau yn Gyntaf, yn greiddiol i hyn;
- ansawdd y deunyddiau gwybodaeth sydd ar gael gan y Gyfarwyddiaeth Ystadegol, yn cynnwys cyflwyniad gweledol cryf o ddata a pharodrwydd staff allweddol i neilltuo amser i ymateb i gwestiynau ac ymholiadau;
- y cynnydd dros amser yn y data manwl sydd ar gael yn gysylltiedig â'r dangosyddion a'r parthau sy'n sylfaen i'r Mynegai.

3.18 Ystyrir mai'r prif rwystrau sy'n cyfyngu (neu a ddylai gyfyngu ym marn rhai o'r sawl a gyfwelwyd) effaith y Mynegai ar bolisi ac ymarfer yw:

- Pryderon sylweddol am ba mor briodol yw defnyddio'r Mynegai fel ffordd o dargedu cyllid ar ardaloedd gofodol penodol yn hytrach na thargedu unigolion mewn angen;
- Graddfa ofodol fechan y Mynegai, i raddau helaeth oherwydd y cyfarwyddyd clir iawn na ddylai safleoedd y Mynegai gael eu cronni<sup>17</sup> (er y bwriedir i gwestiwn cronni gael ei drin gan gyhoeddiad diweddar data dangosyddion sylfaenol wedi'u cronni ar wahanol lefelau gofodol);
- Diffyg unrhyw elfen hydredol yn y Mynegai, a dybir sydd oherwydd newidiadau yng nghyfansoddiad pob 'rhifyn' olynol (er y dylai cyhoeddi data dangosydd sylfaenol fod yn help yma);
- Gwendidau yn y data sylfaenol (er y teimlid fod tîm y mynegai yn ymwybodol iawn o'r problemau);
- Materion cyfathrebu'n glir i rai nad ydynt yn arbenigwyr am y ffordd y dylid ac na ddylid defnyddio'r Mynegai (yn cynnwys yr angen i'r Gyfarwyddiaeth Ystadegol fod yn fwy cadarn pan gamddefnyddir y Mynegai a defnyddio ystadegwyr yn gweithio mewn meysydd polisi penodol i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Mynegai).

3.19 O gofio am natur hirdymor ac eang yr ymchwil **Dysgu i Wella** a thystiolaeth o ymwybyddiaeth gyfyngedig o'i allbynnau cynnar, nid yw'n syndod mai ychydig o dystiolaeth sydd y cafodd canfyddiadau'r gwerthusiad effaith amlwg hyd yma ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn delio gyda llywodraeth leol.

3.20 I'r graddau cyfyngedig yr oedd y sawl a gyfwelwyd wedi dynodi ffactorau a hwylusodd effaith hyd yma, roeddent yn ymwneud â:

---

<sup>17</sup> Er bod hefyd angen cydnabod fod arweiniad hefyd yn awgrymu, e.e. ar lefel awdurdodau lleol, ei bod yn bosibl cymharu ar draws awdurdodau drwy gymharu canran yr holl wardiau ym mhob awdurdod lleol mewn safleoedd o fewn y 10% mwyaf amddifadus ar draws Cymru gyfan.

- Brwdfrydedd ac ymrwymiad y Grŵp Llywio ac yn arbennig y rheolwyr ymchwil;
- Proffesiynoldeb ac enw da'r tîm ymchwil; a'r
- Ffaith fod pob elfen bod adolygiad o ddeunydd print o flaen pob elfen o'r ymchwil (yn edrych tu hwnt i brofiad Cymru) oedd yn rhoi cyd-destun defnyddiol ar gyfer y canfyddiadau.

3.21 Yn nhermau'r rhwystrau sydd, hyd yma o leiaf, wedi atal Dysgu i Wella rhag gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i bolisi ac ymarfer, codwyd ystod eang o faterion (er mai dim ond nifer fach o'r sawl a gyfwelwyd a gododd bob un ohonynt), yn cynnwys:

- Y ffaith bod yr ymchwil yn hirdymor a strategol (yn hytrach na chyfryngol) o ran natur ac yn dal i fod ar gam cymharol gynnar a natur y canfyddiadau dechreuol, a osododd y sefyllfa llinell sylfaen ac awgrymu teipoleg o gysylltiadau canolog-lleol, yn hytrach na chanolbwyntio ar unrhyw faes polisi, cwestiwn neu gynllun penodol;
- Diffyg perchnogaeth 'wreiddiedig' yr astudiaeth, gyda lefel cymharol isel o gyswllt gan lywodraeth leol a diffyg tybiedig hyrwyddwr ar lefel uchel iawn o fewn Llywodraeth Cymru: mae rhai o blith y sawl a gyfwelwyd yn olrhain hyn i darddiad y prosiect yr ystyrid iddo ddigwydd yn bennaf oherwydd ymrwymiad cryf un swyddog polisi allweddol oedd wedyn wedi gadael y maes polisi, tra soniodd eraill am natur unigryw cysylltiadau llywodraeth leol, yn torri ar draws ystod eang o Lywodraeth Cymru, a olygai nad oes gan unrhyw un swyddog islaw'r Ysgrifennydd Parhaol gyfrifoldeb trosfwaol;
- Dyluniad neu hyd yn oed gysyniad cael un darn 'enfawr' o ymchwil yn hytrach nag olyniaeth o ddarnau o waith gyda mwy o ffocws yn gwerthuso rhaglenni penodol neu agweddau o bolisi llywodraeth leol a/neu ddull cysyniadol braidd y gwerthusiad - dull nad yw'n gyfarwydd i rai o ddefnyddwyr posibl y canfyddiadau ymchwil;
- Y berthynas rhwng y broses ymchwil a'r rhaglen dysgu a lledaenu ac amserlenni hirfaith yr ymchwil, gyda'r astudiaethau achos cyntaf yn ymddangos tua thair blynedd ar ôl comisiynu'r gwerthusiad:

dadleuodd rhai o'r sawl a gyfwelwyd fod yr agenda polisi wedi symud ymlaen yn sylweddol yn y cyfnod hwn (er y teimlai eraill nad oedd unrhyw newidiadau sylfaenol wedi digwydd gan ddadlau bod cytundeb eang fod tair thema Dysgu i Wella yn parhau mor ddilys yn 2011 ag oeddent yn 2008);

- Yr angen am fwy o ddull 'gweithredu dysgu' at y rhaglen ddysgu a lledaenu, gan adeiladu ar y gweithdai dechreuol a chyflwyniadau'r canfyddiadau ymchwil;
- Barn rhai o'r sawl a gyfwelwyd ei bod yn anochel mai dim ond un rhan o'r broses o gyrraedd penderfyniadau polisi oedd y sylfaen tystiolaeth.

### **3.5 Pwyntiau Dysgu Allweddol ar gyfer y Dyfodol**

3.22 Gan ddefnyddio tystiolaeth o'r ddwy astudiaeth achos graddfa fach yma a sylfaen tystiolaeth ehangach yr effaith ar bolisi ac ymarfer (yn cynnwys ein hymchwil ein hunain)<sup>18</sup>, credwn ei bod yn bosibl llunio rhai pwyntiau dysgu penodol ar gyfer y dyfodol.

3.23 Yn achos **Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru** mae hyn yn cynnwys:

- pwysigrwydd parhau i wneud cymaint o'r data sylfaenol a ddefnyddir yn y Mynegai ar gael ag sy'n bosibl;
- y potensial i ddefnyddio Mynegai 2011 i ystyried yr achos am fwy o sefydlogrwydd yn y ffordd y caiff y Mynegai ei ffurfio er mwyn rhoi mwy o gwmpas ar gyfer cymariaethau hydredol (er ein bod yn cydnabod anawsterau cynhenid defnyddio mynegai yn seiliedig ar safleoedd yn y ffordd yma);
- y pwysigrwydd yn nhermau gwybodaeth a lledaenu:
  - canolbwyntio ymdrech ar ddatblygu deunyddiau arweiniad craidd sy'n hygyrch i gyffredinolwyr;
  - sicrhau fod gan staff y Gyfarwyddiaeth Ystadegol sy'n gweithio ar feysydd polisi penodol berchnogaeth o'r Mynegai,

---

<sup>18</sup> Gweler adran 4 islaw

fel y medrant weithredu fel canolwyr wrth ledaenu gwybodaeth a dealltwriaeth i gydweithwyr polisi; a

- targedu'r adrannau polisi hynny yr ystyrir eu bod debycaf o fod angen y Mynegai yn eu gwaith;
- yr angen i gynyddu proffil y Mynegai Plant, yn cynnwys proffil llawer cliriach ar dudalennau gwefan y Mynegai;
- yr achos dros ymchwilio'r potensial i greu cronfa i gefnogi sefydliadau academaidd wrth ddehongli data'r Mynegai ar sefydliadau nad oes ganddynt unrhyw adnodd mewnol i'w ddefnyddio;
- yr angen i sicrhau fod y Mynegai yn gweithredu o fewn fframwaith polisi clir(iach) sy'n dangos pryd mae targedu gofodol yn addas ac i Lywodraeth Cymru ystyried lle mae cwmplas ar gyfer defnyddio'r Mynegai ynghyd â ffynonellau data meintiol neu ansoddol yn hytrach nag fel offeryn sy'n sefyll ar ei ben ei hun;
- y potensial ar gyfer plismona rywfaint yn gryfach o fewn Llywodraeth Cymru i sicrhau na chaiff y Mynegai ei ddefnyddio mewn modd amhriodol.

3.24 Yng nghyswllt **Gwerthusiad Dysgu i Wella** credwn fod y pwyntiau dysgu ar gyfer gweddill y rhaglen ymchwil yn cynnwys:

- yr angen i ddefnyddio cyhoeddiad yr astudiaethau achos fel ffocws ar gyfer 'hwb' sylweddol yn nhermau'r rhaglen dysgu a lledaenu, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, efallai'n cynnwys grwpiau trafod ar-lein yn ogystal â chyfarfodydd a chanolbwyntio ar gwestiynau polisi allweddol am gysylltiadau canol-ileol a ddaw i'r amlwg o'r astudiaethau achos. Dylid ceisio cyfleoedd i gynnal digwyddiadau ar y cyd lle mae swyddogion Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn gweithio drwy'r materion hyn gyda'i gilydd;
- y potensial i wneud gwell defnydd o gryfderau academaidd yr astudiaeth drwy annog y contractwyr i drefnu cynhadledd gyda chynulleidfa darged ar draws y Deyrnas Unedig ac efallai tu hwnt, i godi proffil yr astudiaeth a hefyd i ysgogi ymwybyddiaeth o

ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymchwil gymdeithasol ansawdd uchel;

- yr angen am ffocws cryfach ar ddull ymchwil gweithredu at y pedair astudiaeth achos sydd ar ôl;
- pwysigrwydd defnyddio cyhoeddi'r astudiaethau achos a'r ail adroddiad interim i ailymrwymo diddordeb uwch wneuthurwyr penderfyniadau ac ehangu cwmpas y Grŵp Llywio i ddod i mewn â swyddogion Llywodraeth Cymru o adrannau polisi eraill ac uwch swyddogion awdurdodau lleol.

### 3.25 Yn fwy cyffredinol, credwn mai'r pwyntiau dysgu o astudiaeth achos Dysgu i Wella yw:

- pwysigrwydd cynnwys cymaint o hyblygrwydd ag sydd modd wrth gynllunio rhaglenni ymchwil hirdymor, sy'n gyson gyda'r angen i'r rhaglen ymchwil gyffredinol drin themâu ystyrlon;
- yr angen i sicrhau bod dealltwriaeth ehangach ar y cyd a chefnogaeth i raglenni ymchwil sylweddol ar ran yr adran 'cwsmer' a bod staff ymchwil yn hollol fodlon gyda chynllun y rhaglen;
- yr angen i gynnwys ymrwymiad rhanddeiliaid ar lefelau strategol a gweithredol yn y broses ymchwil, efallai drwy system ddwy haen o lywodraethu ymchwil;
- pwysigrwydd rhaglenni ymchwil hirdymor yn dangos 'enillion cynnar' i sicrhau cefnogaeth rhanddeiliaid allweddol;
- pwysigrwydd manteisio i'r eithaf ar ryngweithiad academiaidd-polisi drwy sicrhau y caiff ymchwilwyr academiaidd ddealltwriaeth lawn o'r cwestiynau polisi ac ymarfer allweddol. Er enghraifft, mae cynadledau neu seminar gyda ffocws ymchwil-polisi-ymarfer yn ddefnyddiol i ysgogi mwy o gyd-ddeall a chyfathrebu effeithiol.



## 4 Effaith Ymchwil ar Bolisi ac Ymarfer

### 4.1 Cyflwyniad

- 4.1 Yn yr adran olaf hon ystyriwn y dystiolaeth o'r ddwy astudiaeth achos yng ngoleuni ymchwil diweddar ehangach ar effaith ymchwil ar bolisi ac ymarfer.
- 4.2 Mae nifer o ymchwilwyr, yn cynnwys Carol Weiss, Sandra Nutley ac eraill<sup>19</sup> wedi ymchwilio i ba raddau y mae ymchwil gymdeithasol yn dylanwadu ar bolisi ac ymarfer. Yn ychwanegol, mae'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) wedi comisiynu nifer o astudiaethau i archwilio polisi ac ymarfer ar eu buddsoddiadau mewn ymchwil gwyddor gymdeithasol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r ymchwil a gomisiynwyd gan ESRC yn cynnwys astudiaeth achos ar Lywodraeth Cymru, gan ganolbwyntio ar ymchwilwyr gyda chymwysterau ôl-radd, a dylanwad canolfannau ymchwil academiaidd, a gynhaliwyd gan Consulting Inplace ac Old Bell <sup>3</sup><sup>20</sup>.
- 4.3 Canfyddiad cyson o'r astudiaethau hyn, a archwiliodd gynlluniau polisi penodol<sup>21</sup>, meysydd polisi eang<sup>22</sup> a buddsoddiadau mewn adnoddau megis Astudiaeth Carfan y Mileniwm<sup>23</sup>, yw bod y berthynas rhwng

---

<sup>19</sup> Gweler, er enghraifft, Weiss C, C. 'Mewanings of research utilisation', *Public Administration Review*, 39(5), 1979, 426-431; Nutley, S.M., Walter, I. a Davies, H.T.O. (2007) *Using Evidence: how research can inform public services*, Policy Press, Bryste; Nutley, S., Percy-Smith, J. a Solesbury, W. (2003) *Models of research impact: a cross-sector review of literature and practice*, Asiantaeth Datblygu Dysgu a Sgiliau; Sanderson, I. (2002) 'Evaluation, policy learning and evidence-based policy making' *Public Administration*, 80(1), 1-22; Boaz, A., S. Fitzpatrick a B. Shaw 'Assessing the impact of research on policy: a literature review' *Science and Public Policy*, 36(4), Mai 2009, 255-270.

<sup>20</sup> Roedd adroddiad tr ESRC ar gamau terfynol golygu adeg ysgrifennu hyn ac mae'n debygol o gael ei gyhoeddi yn y dyfodol agos.

<sup>21</sup> Consulting Inplace (awduron: Johnson, S. a M. Antill) *The economic impact of ESRC research on Pathways to Work*, Adroddiad i'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, Ionawr 2010  
[http://www.esrc.ac.uk/images/Impact%20of%20ESRC%20Research%20on%20PTW\\_tcm8-5905.pdf](http://www.esrc.ac.uk/images/Impact%20of%20ESRC%20Research%20on%20PTW_tcm8-5905.pdf)

<sup>22</sup> Consulting Inplace (awduron: Morrin, M. a S. Johnson) *The conceptual impact of ESRC research: case study of child poverty policy*, Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, 2011 (i'w gyhoeddi)

<sup>23</sup> Johnson, S. ac M. Antill, *Impact evaluation of the Millennium Cohort Study*, Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, 2011 (i'w gyhoeddi)

ymchwil a newidiadau mewn polisi a/neu ymarfer yn gymhleth a heb fod yn llinelllog. Dynododd ein hastudiaeth achos o Lywodraeth Cymru fod datblygiad Strategaeth Tlodi Plant Cymru yn agos at fod yn 'fath delfrydol' o fodel llinelllog lle adolygwydd tystiolaeth mewn modd systematig gyda mewnbwn gwyddonwyr cymdeithasol arbenigol a'i gynnwys yn y ddogfen strategaeth ddilynol<sup>24</sup>. Fodd bynnag, hyd yn oed yn yr achos yma, fe wnaethom nodi adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn fod y strategaeth ar y cam ymgynghori a bod cwmpas i fwydo ystod o ffactorau heb fod yn ymwneud ag ymchwil i fersiwn terfynol y strategaeth ac i bolisiau penodol a weithredwyd ar gefn y strategaeth.

- 4.4 Mae ymchwilwyr wedi cyflwyno nifer o fodelau cysyniadol defnyddiol o effaith ymchwil, gan ddechrau gyda gwahaniad Carol Weiss rhwng modelau a gaiff eu gyrru gan wybodaeth, datrys problemau, rhyngweithiol, gwleidyddol, tactegol a goleuedig<sup>25</sup>. Yn fwy diweddar, mae gwaith gwerthuso effaith a gomisiynwyd gan ESRC wedi adeiladu ar waith Nutley a'i gydweithwyr sy'n awgrymu continwrm rhwng effeithiau 'cyfryngol' ar bolisiau neu arferion polisi, ac effeithiau 'cysyniadol' tymor hwy ar y syniadaeth fras sy'n sylfaen i ddatblygu polisi. Cafodd y modelau hyn eu hadolygu a'u cydgorio gan Cozzens a Snoek yn eu papur adolygu diweddar<sup>26</sup>, gan arwain at deipoleg sy'n ddefnyddiol (mewn cysylltiad â'r gwaith cynharach a ddisgrifir uchod), wrth lunio ein dealltwriaeth o effaith Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a Dysgu i Wella. Caiff elfennau'r deipoleg yma eu disgrifio'n fyr islaw a'u trafod yng nghyswllt y Mynegai a Dysgu i Wella.

---

<sup>24</sup> Consulting Inplace ac Old Bell 3 (awduron: Johnson, S. a G. Williams) *Evaluating the impact of social scientists*, Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, 2011 (i'w gyhoeddi). Gweler yn arbennig yr astudiaeth achos o grŵp arbenigol Tlodi Plant, tt20-22

<sup>25</sup> Weiss, C. 'Meanings of research utilisation', *Public Administration Review*, 39(5), 1979, 426-431

<sup>26</sup> Cozzens, S. a Snoek, M. *Knowledge to policy: contributing to the measurement of social, health and environmental benefits*, Gweithdy ar Wyddoniaeth Mesuriad Gwyddoniaeth, Washington DC, Rhagfyr 2010

## 4.2 Model Rhesymegol, Llinelllog neu 'Gyrru gan Wybodaeth'

- 4.5 Gall hyn gael ei ystyried fel 'math delfrydol' yng nghyswllt 'polisi seiliedig ar dystiolaeth', ond mae'n aml yn anodd dynodi cysylltiadau clir rhwng mewnbwn ymchwil ac allbynnau/effeithiau polisi. Casgliad allweddol o'n hastudiaeth ESRC o ymchwil a pholisi yn Llywodraeth Cymru yw nad yw'r model llinelllog yn nodweddiadol o brosesau effaith polisi sy'n gweithredu o fewn y sefydliad (na'n wir sefydliadau eraill). Er enghraifft, dywedodd nifer o ymatebwyr fod mewnbynnau ymchwil yn tueddu i ddigwydd yn bennaf ar y gwerthusiad *post hoc* yn hytrach na cham datblygu polisi'r 'cylch polisi'.
- 4.6 Yn achos Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, nid oedd dylanwadu ar bolisiau penodol erioed yn fwriad ond yn hytrach i roi adnodd i fod yn sail i benderfyniadau polisi a gweithredu mewn ystod o feysydd polisi. Bwriedir hefyd i'r Mynegai gael ei ddefnyddio gan ystod eang o sefydliadau yn ogystal â Llywodraeth Cymru. Gallem felly ddisgwyl canfod fod bodolaeth y Mynegai wedi cyfrannu at, ond heb fod yn brif ysgogwr polisi a/neu ymarfer yn bennaf drwy wella ansawdd penderfyniadau ar bolisi a gweithredu a gafodd eu hunain eu dylanwadu gan ystod o ffactorau. Dyma'n union yr hyn y gwnaethom ei ganfod, sydd yn ei dro yn cyd-fynd â chanfyddiadau ein gwerthusiad diweddar ar effaith polisi ac ymarfer Astudiaeth Carfan y Mileniwm. Yn yr achos diwethaf yma fe wnaethom nodi pwysigrwydd cyfathrebu parhaus rhwng ymchwilwyr a gwneuthurwyr polisi, gydag ymchwilwyr academaidd, 'melinau trafod' a sefydliadau anllywodraethol eraill â rôl bwysig o bosib yn y broses drosglwyddo rhwng canfyddiadau ymchwil a goblygiadau polisi.
- 4.7 Er enghraifft, ni fedrwn ddod i'r casgliad y bu'r Mynegai yn ganolog wrth sefydlu rhaglen Cymunedau yn Gyntaf - dylanwadwyd ar hynny gan amrywiaeth o ffactorau yn cynnwys ymchwil gymdeithasol i amddifadedd ar y lefel leol, a phryder gwleidyddol a chymdeithasol ehangach am grynhoed amddifadedd mewn nifer fechan o ardaloedd ar draws Cymru. Fodd bynnag, gwelsom y bu gan y Mynegai rôl hollbwysig mewn penderfyniadau am ba ardaloedd a ddylai fod yn gymwys ar gyfer cyllid

Cymunedau yn Gyntaf. Yn neilltuol, ystyrir yn eang bod y Mynegai yn ffynhonnell cymharol gadarn ac annibynnol o ddata, a hebdo y medrai nifer o ffactorau mwy mympwyol fod wedi dylanwadu ar y broses gwneud penderfyniadau<sup>27</sup>. Medrir gweithredu modelau tebyg ar gyfer ystod eang o benderfyniadau polisi/gweithredol eraill y gwnaeth y Mynegai ddylanwadu arnynt, megis Dechrau'n Deg, dyrannu cyllid addysg bellach ac addysg uwch a llawer o benderfyniadau ariannu lleol y cafodd ein tîm ymchwil eu hysbysu amdanynt.

- 4.8 Yn achos Dysgu i Wella, roedd y rhesymeg sylfaenol yn nes at y model rhesymegol, llinellog o effaith polisi, gyda'r nod o gynnal a lledaenu ymchwil safon uchel gyda'r bwriad o ddylanwadu - yn yr hirdymor - ar benderfyniadau polisi ac ymarfer Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ar draws Cymru. Fodd bynnag, bwriedir i natur yr effaith hwnnw fod ar ben 'cysyniadol' y continwwm cyfryngol-cysyniadol, gan helpu Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill i ddeall a chysyniadoli cysylltiadau canolog-leol, cysylltu â dinasyddion a chydweithredu, yn hytrach na rhoi tystiolaeth i fod yn sail i ddatblygu polisïau neu raglenni penodol. Er y disgrifiwyd Dysgu i Wella fel 'astudiaeth gwerthuso', y prif fwriad oedd iddi fod y lle cyntaf yn ffurfiannol yn hytrach na chrynodol o ran natur ac mewn gwirionedd mae'n arddangos mwy o nodweddion astudiaeth ymchwil ymchwiliadol, ddatblygiadol.
- 4.9 Un o'r cwestiynau allweddol a gawsom yng nghyswllt Dysgu i Wella oedd pwy oedd y grŵp/grwpiau targed ar gyfer yr astudiaeth, h.y. pwy y bwriedir/bwriedid i'r gwerthusiad ddylanwadu arnynt yn nhermau penderfyniadau polisi a gweithredu. Awgrymodd y ddogfen gomisiynu ddechreuol y bwriedid i'r astudiaeth ddylanwadu ar Lywodraeth Cymru a hefyd awdurdodau lleol Cymru, yn y ddau achos yn bennaf ar y lefel strategol (felly y cynnig i ymrwymo prif weithredwyr awdurdodau lleol ac

---

<sup>27</sup> Nid yw hyn yn dweud bod pob rhanddeiliad yn ystyried bod Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn ffynhonnell berffaith o wybodaeth. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon am gyfansoddiad y mynegai, a themlai eraill fod natur cromlin S y mynegai yn golygu fod rhywfaint o fympwyedd yn nyranid cyllid i ardaloedd y tu allan i'r rhai 'mwyaf amddifadus'.

uwch wleidyddion, er enghraifft). Awgrymodd ein hymchwil, mewn gwirionedd, mai Llywodraeth Cymru oedd y targed allweddol a bod awdurdodau lleol yn ymarferol hyd yma wedi bod yn llawer llai arwyddocaol yn nhermau gweithgareddau lledaenu a dysgu (er bod peth awgrym y gallai awdurdodau lleol fod yn dangos mwy o ymrwymiad tuag at ddiwedd yr astudiaeth). Ymhellach, fe wnaethom ddynodi rhywfaint o ansicrwydd pa adrannau o Lywodraeth Cymru oedd y prif dargedau yn nhermau dylanwad polisi; mae hwn yn bwynt allweddol o gofio bod awdurdodau lleol yn bartneriaid pwysig ar gyfer ystod eang o isadrannau ac adrannau, yn ogystal â Llywodraeth Leol a Chyfiawnder Cymdeithasol. Fodd bynnag, mae'r astudiaethau Dysgu i Wella yn rhoi cyfle ar gyfer cysylltu gydag amrywiaeth o adrannau ar faterion penodol megis consortia trafnidiaeth ac ad-drefnu ysgolion.

4.10 Mae mater terfynol oedd yn cymhlethu ein asesiad o'r graddau y dylanwadodd Dysgu i Wella ar bolisi neu ymarfer mewn modd 'clasurol' resymegol, linelllog neu 'gyrru gan wybodaeth' yn ymwneud â chyfnod cynnal yr astudiaeth ac felly pryd y medrem weld newidiadau canlynol mewn polisi neu ymarfer. Yn wir, fel y dangosodd astudiaethau eraill<sup>28</sup>, efallai na fydd effaith ymchwil Dysgu i Wella ond yn digwydd beth amser ar ôl cwblhau'r astudiaeth.

4.11 Sefydlwyd Dysgu i Wella yn fwriadol fel rhaglen ymchwil hirdymor i ymchwilio'n fanwl nifer o faterion sylfaenol yn ymwneud â chysylltiadau canol-leol yng Nghymru. Disgwylid y byddai Dysgu i Wella yn rhoi sail ar gyfer i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol feddwl o ddifrif sut i weithredu cysyniadau allweddol megis 'cydweithredu' a 'chyswllt â dinasyddion' a datblygu ffyrdd o weithio cydnaws â dogfennau polisi perthnasol fel *Rhannu Cyfrifoldeb* a *Creu'r Cysylltiadau*.

---

<sup>28</sup> Consulting Inplace (awduron: Morrin, M. a S. Johnson) *The conceptual impact of ESRC research: case study of child poverty policy*, Cyngor Polisi Economaidd a Chymdeithasol, 2011 (i'w gyhoeddi)

- 4.12 Fel y gwnaethom nodi yn ein hadroddiad astudiaeth achos, er bod y themâu eang sy'n ffocws ymchwil Dysgu i Wella yn parhau i fod yn sail ymagwedd Llywodraeth Cymru at lywodraeth leol, bu newid yn y polisi a'r amgylchedd ariannol ers dechrau Dysgu i Wella, gan ofyn cwestiynau am rai o'r tybiaethau oedd yn sylfaen i'w gomisiynu. Yn neilltuol, mae newidiadau yn yr amgylchedd ariannol wedi rhoi llawer mwy o bwysau ar yr adnoddau sydd ar gael i lywodraeth leol a Llywodraeth Cymru nag oedd yn wir yn y cyfnod yn arwain at gomisiynu Dysgu i Wella. Gwnaethom nodi hefyd mai'r unig allbynnau i gyrraedd y parth cyhoeddus fu canfyddiadau'r arolygon llinell sylfaen a chyfweliadau nad ydynt, drwy ddiffiniad, ond yn rhoi sylfaen gyfyngedig (er diddorol) ar gyfer dylanwadu ar y broses gwneud polisi.
- 4.13 Caiff model sylfaenol ymhlyg mewn proses resymegol, llinellog a gaiff ei gyrru gan wybodaeth ei danlinellu ymhellach drwy ymgorffori elfen sylweddol o ledaenu a dysgu yn rhaglen ymchwil Dysgu i Wella, i'w gyflenwi gan sefydliad sy'n arbenigo mewn gweithgaredd o'r fath, gyda llwyddiant amlwg yn gysylltiedig yn bennaf ag awdurdodau lleol yn Lloegr. Mae ein hymchwil yn awgrymu mai llwyddiant cyfyngedig a gafodd y broses yma hyd yma, heb fawr iawn o ymdreiddiad i'r sector awdurdodau lleol a nifer o anawsterau a gafwyd wrth geisio rhannu a thrafod canfyddiadau llinell sylfaen ar lefel uwch gyda swyddogion llywodraeth Cymru, er yr adroddwyd bod diddordeb ar lefel Gweinidog.
- 4.14 I ryw raddau, mae'r anawsterau a gafodd ymchwilwyr a rheolwyr prosiect wrth ddenu diddordeb gwneuthurwyr polisi yn adlewyrchu natur gyfyngedig y deunydd oedd ar gael ar y pryd (casgliad a gefnogwyd gan sylwadau a adroddwyd gan rai o'r sawl a gymerodd ran yn y gweithdai a gynhaliwyd i ledaenu canfyddiadau interim Dysgu i Wella). Fodd bynnag, medrai'r ffaith nad yw'r model 'llinellog' yn llwyr gynrychioli'r broses y mae gwneuthurwyr polisi yn ei defnyddio i ystyried canfyddiadau ymchwil er mwyn datblygu polisiâu newydd neu ddiwygio polisiâu fod yn ffactor arall. Efallai na fydd gwneud dim ond cyflwyno canfyddiadau ymchwil i wneuthurwyr polisi lle mai rôl gyfyngedig fu ganddynt wrth gomisiynu (os

bu ganddynt unrhyw rôl o gwbl, a gofyn iddynt ystyried y goblygiadau ar gyfer polisi, yn cael yr effaith a ddymunir. Dangosodd ein hastudiaeth a gomisiynwyd gan yr ESRC i ymchwil a pholisi yn Lywodraeth Cymru ystod eang o ffactorau heb fod yn rhai ymchwil sy'n dylanwadu (yn hollol ddilys) ar y broses gwneud polisi. Mae hyn yn cynnwys yr ymrwymadau a wnaed gan wleidyddion, dylanwad cynghorwyr allanol, 'y farn gyhoeddus' a thystiolaeth anecdotaidd o ymweliadau, cyfarfodydd ac ati. Mae angen i dystiolaeth ymchwil – megis yr hyn a gafwyd gan y rhaglen Dysgu i Wella - a'i lledaeniad, gysylltu mewn rhyw ffordd o leiaf gyda rhai o'r ffactorau hyn os yw i ddal sylw gwneuthurwyr polisi.

4.15 Ymhellach, nododd ein hymchwiliad i effaith gysyniadol ymchwil gymdeithasol ar bolisi tlodi plant ar draws y Deyrnas Unedig y gall canfyddiadau ymchwil gymryd blynyddoedd lawer (hyd yn oed ddegawdau) i hidlo trwodd i newidiadau yn syniadau gwneuthurwyr polisi am seiliau cysyniadol polisi. Yn achos polisi tlodi plant, cafodd y broses hon ei chynorthwyo'n fawr gan fodolaeth cysylltiadau anffurfiol cryf rhwng cynghorwyr llywodraeth a nifer o ymchwilwyr allweddol, gan gyd-daro gyda newid sylweddol mewn blaenoriaethau gwleidyddol yn dilyn ethol llywodraeth newydd y Deyrnas Unedig yn 1997. Mewn geiriau eraill, mae'n optimistig disgwyl gweld effaith polisi sylweddol ddwy flynedd i mewn i raglen ymchwil hirdymor y cynlluniwyd iddi fod â rôl 'gysyniadol' neu 'oleuo'. Fodd bynnag, mae ymchwil flaenorol yn amlygu rôl allweddol lledaenu, ymgysylltiad gwleidyddion yn ogystal â gweision cyhoeddus a chynghorwyr a chreu dulliau lle gall academyddion, ymchwilwyr llywodraeth, gwneuthurwyr polisi, melinau trafod a gwleidyddion gyfnewid barn mewn ffyrdd ffurfiol a hefyd anffurfiol.

4.16 Yn ein hastudiaeth ehangach o Lywodraeth Cymru, gwelsom fod swyddogion mewn rolau polisi sydd â rhai cymwysterau a/neu gefndir mewn ymchwil (e.e. PhD neu radd Meistr neu brofiad yn yr adran Ddadansoddol), yn tueddu (efallai nid yn annisgwyl) i fod yn fwy agored nag eraill i ddylanwad canfyddiadau ymchwil. Gwnaethom hefyd dynnu sylw at fanteision posibl gweithio agos rhwng cydweithwyr ymchwil a

pholisi a sgiliau cyfathrebu da ar ran ymchwilwyr. Ymddengys bod yr holl ffactorau hyn yn bresennol i ryw raddau yng nghyswllt Dysgu i Wella. Fodd bynnag, mae'n eglur mai effaith gyfyngedig a gafodd y polisi hyd yma. Er bod hyn yn debygol o wella dros amser, yn arbennig wrth i dystiolaeth o astudiaethau achos newydd ddod ar gael, mae hefyd yn awgrymu bod angen ymchwilio modelau mwy soffistigedig i esbonio (ac felly ddylanwadu) ar faint a natur effaith ymchwil ar bolisi. Caiff y modelau hyn eu hesbonio'n fyr islaw, yng nghyswllt Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a Dysgu i Wella.

### **4.3 Plwraliaeth ac Oportiwntiaeth**

- 4.17 Mae'r model yma'n seiliedig ar yr arsylwad fod effaith ymchwil ar bolisi neu ymarfer yn digwydd o fewn cyd-destun gwneud penderfyniadau pragmatig dan ansicrwydd. Mae'r model felly'n cynnwys golwg ehangach o'r mathau defnyddiol o wybodaeth y rhoddir ystyriaeth iddynt, yn cynnwys ffynonellau heb fod yn rhai academiaidd, poblogaethau lleol a chymdeithas sifil. Mae'r model yma'n debycach na'r model llinelllog a ddisgrifir uchod i rôl ymchwil mewn llawer o'r prosesau datblygu ymchwil a ddisgrifiwyd i ni yn ystod astudiaeth achos ESRC o Lywodraeth Cymru.
- 4.18 Fel arfer mae gwleidyddion a gwneuthurwyr polisi yn rhoi ystyriaeth i ystod ehangach o ffynonellau tystiolaeth na'r rhai y medrai gwyddonydd cymdeithasol hyfforddedig ei ystyried fel tystiolaeth ymchwil gadarn, gyda'r rhan fwyaf o bobl yn ymwneud â'r broses ymchwil a pholisi (yn cynnwys gwyddonwyr cymdeithasol) yn cydnabod dilysrwydd y math yma o ymagwedd at wneud polisi. Fel y nodir uchod mae dylanwad cynghorwyr arbennig Gweinidogion, grwpiau pwysu (e.e. cyrff proffesiynol neu undebau llafur) ac ystyriaethau 'barn gyhoeddus' ehangach yn ffynonellau allweddol o 'dystiolaeth' a ystyriwyd gan wneuthurwyr polisi.
- 4.19 Yn y cyd-destun hwn, medrid ystyried y Mynegai a Dysgu i Wella fel rhan o ystod llawer ehangach o dystiolaeth a dylanwad sydd yn y pen draw yn penderfynu ar y penderfyniadau polisi a wneir. Soniodd y rhan fwyaf o bobl y gwnaethom siarad â hwy am eu defnydd o'r Mynegai am broses



sy'n cydymffurfio â'r model 'plwraliaeth ac oportiwnistiaeth'. Yn arbennig, dywedodd ymatebwyr awdurdodau lleol a ddefnyddiodd y Mynegai i ddynodi ardaloedd ar gyfer targedu cynlluniau lleol fod ystyriaeth yn cael ei roi fel arfer i dystiolaeth ystadegol oedd ar gael yn lleol, yn ogystal â gwybodaeth leol 'anecdotaidd' a gwybodaeth arall.

4.20 Yn yr un modd, medrai rôl y Mynegai yng nghyswllt cynlluniau cenedlaethol megis Cymunedau yn Gyntaf a Dechrau'n Deg gael eu cysyniadoli'n eithaf cywir gan y model 'plwraliaeth ac oportiwnistiaeth'. Fel yr awgrymir uchod, ni ystyrir mai'r Mynegai oedd y prif sbardun ar gyfer mentrau o'r fath, nac ychwaith yr unig ffynhonnell o dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ddatblygu a gweithredu'r mentrau polisi allweddol hyn. Defnyddiwyd ffynonellau eraill o dystiolaeth, yn seiliedig ar ymchwil ac fel arall, a datblygwyd y polisiâu o fewn cysyniad ehangach (er yn un yr oedd anghydweld arno) mai targedu gofodol yw'r ffordd fwyaf priodol ac effeithiol o fynd i'r afael ag amddifadedd cymdeithasol.

4.21 Mae rôl y Mynegai a'r Mynegai Plant yng nghyswllt datblygu Strategaeth Tlodi Plant Cymru hefyd yn ddefnyddiol yn y cyswllt hwn. Nodwyd uchod fod datblygiad y strategaeth Tlodi Plant yn weddol agos i fodel 'rhesymegol, llinelllog' pur; fodd bynnag mae hefyd yn wir dweud fod elfen o blwraliaeth hefyd yn amlwg. Cafodd tystiolaeth o'r Mynegai Plant yn wir ei ddefnyddio yn ystod y broses o ffurfio'r strategaeth Tlodi Plant, ond fe'i defnyddiwyd mewn cysylltiad gydag ystod eang o ffynonellau eraill o dystiolaeth ystadegol nad oedd yn rhan o'r Mynegai Plant, a dylanwadwyd arni gan ymchwilwyr cymdeithasol anfeintiol, grwpiau diddordeb a diddordebau gwleidyddol.

4.22 Mae elfennau o'r fodel plwraliaeth hefyd i'w gweld yn y prosesau y bwriedir i Dysgu i Wella ddylanwadu drwyddynt ar bolisi llywodraeth leol o fewn Llywodraeth Cymru, ac mae'n dechrau gwneud hynny. Fel y nodwyd eisoes, nid oedd erioed yn fwriad i'r gwerthusiad roi tystiolaeth i ddylanwadu yn llwyr ac yn uniongyrchol ar fentrau polisi penodol. Yn hytrach bwriedid iddo gael effaith 'cysyniadol' neu 'oleuo' drwy ymchwilio

ystod o themâu trawsbynciol, a dylai canfyddiadau hynny ddylanwadu ar y cyd-destun ar gyfer datblygu polisïau penodol. Yn neilltuol, y bwriad oedd amlygu pwysigrwydd, a bwrw goleuni ar ddull gweithio, cysylltiadau canol-leol, cydweithredu rhwng awdurdodau (ac asiantaethau eraill) a chysylltu â dinasyddion wrth sicrhau datblygu a gweithredu polisi effeithlon.

4.23 Mae ein canfyddiadau yn awgrymu mai cyfraniad cymharol gyfyngedig (yn ddealladwy) a gafodd y gweithgareddau lledaenu a dysgu yn gysylltiedig gyda chamau llinell sylfaen rhaglen ymchwil Dysgu i Wella ar drafodaethau ehangach am bolisïau perthnasol i lywodraeth leol. Fodd bynnag, ymddengys fod yr adroddiadau astudiaethau achos yn rhoi sail posibl i Dysgu i Wella fwydo mewn ffordd effeithiol i'r broses 'blwralistig' yma. Er enghraifft, dylai'r astudiaeth achos o ymgyfraniad dinasyddion mewn penderfyniadau i gau ysgolion helpu drwy roi gwybodaeth ar gyfer polisïau llywodraeth ganolog a lleol yng nghyswllt addysg, yn ogystal â dysgu gwersi gwerthfawr am broses ymgyfraniad dinasyddion yng nghydestun cyfyngiadau cyllideb a llymder, a fedrai fod yn weithredol mewn ystod o feysydd polisi.

4.24 Mae ein hymchwil - yn cynnwys yr astudiaeth yma a gwaith cynharach ar gyfer ESRC ar y rhyngwyneb ymchwil-polisi - yn awgrymu fod nifer o ffactorau llwyddiant pwysig wrth helpu ymchwilyr i sicrhau y caiff eu gwaith ei ystyried o fewn cyd-destun proses blwralistiaeth/oportiwntiaeth o'r fath.

4.25 Yn allweddol yn eu mesg mae ymwybyddiaeth wleidyddol, dealltwriaeth a chraffter ymysg ymchwilyr, a ddylai gadw golwg agos ar y prosesau gwleidyddol a gwneud polisi a sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau polisi yn gwybod am y canfyddiadau ymchwil perthnasol ac yn rhoi ystyriaeth iddynt yn y broses gwneud penderfyniadau. Lle mae ymchwilyr allanol yn cymryd rhan (fel gyda Dysgu i Wella) mae'n bwysig sicrhau eu bod mor ymwybodol ag sydd modd o faterion gwleidyddol/polisi; mae gan y tîm ymchwil mewnol rôl bwysig i'w chwarae yma.

- 4.26 Yn gysylltiedig â'r uchod mae angen gwerthfawrogiad ymysg ymchwilyr (mewnol ac allanol) o'r ystod eang o ffactorau a phwysau sy'n effeithio ar benderfyniadau gwneuthurwyr polisi. Er bod argaeledd canfyddiadau ymchwil cadarn yn amlwg yn bwysig iawn (ym marn y rhan fwyaf o wneuthurwyr polisi hefyd), gall materion eraill ddylanwadu ar y canlyniad cyffredinol a dylai ymchwilyr werthfawrogi hyn.
- 4.27 Fel y dywedir uchod, caiff y broses ei helpu os oes gan o leiaf rai o'r gwneuthurwyr polisi allweddol gymwysterau a chefnidir mewn ymchwil a/neu ddealltwriaeth o'r broses ymchwil a chysyniadau allweddol megis arwyddocâd ystadegol.
- 4.28 I'r gwrthwyneb, mae cyfrifoldeb ar ran ymchwilyr i gyfathrebu cysyniadau a chanfyddiadau ymchwil mewn ffordd y gall gwneuthurwyr polisi ei deall ac (er enghraifft) yn cydnabod bod gan y rhan fwyaf o wneuthurwyr polisi ddiddordeb yn oblygiadau canfyddiadau'r ymchwilyr ar gyfer y penderfyniadau y mae angen iddynt eu gwneud. Mae rhai nad ydynt yn ymchwilyr yn tueddu i fod â llawer llai o ddiddordeb ym manylion technegol y gwaith ymchwil ei hunan.
- 4.29 Yn olaf, mae'r rhan fwyaf o astudiaethau o'r rhyngwyneb ymchwil-polisi (yn cynnwys yr astudiaeth hon) wedi dynodi diffyg cyfatebiaeth mewn gorwelion amser rhwng yr ymchwilydd nodweddiadol a'r gwneuthurydd polisi nodweddiadol. A'i ddweud yn syml, mae ymchwil drylwyr yn tueddu i fod angen amser hir i'w gynllunio, ei gynnal a'i adrodd, tra gall gwneuthurwyr polisi dueddu i edrych am ganlyniadau ar unwaith (neu mewn tymor byr iawn). Nid oes unrhyw ffordd rwydd o amgylch hyn, ond gall fod angen i ymchwilyr sy'n dymuno dylanwadu ar y broses gwneud polisi fod yn barod i rannu'r canlyniadau sy'n dod i'r amlwg gyda gwneuthurwyr polisi, yn hytrach nag aros i bopeth gael ei wirio ddwywaith (ac mewn rhai achosion ei adolygu gan gymheiriaid) cyn trafod y

goblygiadau ar gyfer polisi neu ymarfer<sup>29 30</sup>. Canfuwyd fod yr ymagwedd yma'n ddefnyddiol yng nghyswllt yr astudiaeth achos tlodi plant a ddisgrifir uchod, lle'r oedd ymchwilwyr blaenllaw yn barod i rannu canfyddiadau cynnar gyda gwleidyddion allweddol a gwneuthurwyr polisi, ar sail heb ei briodoli. Yn y ffordd hon, roedd ymchwil gymdeithasol yn dechrau dylanwadu ar y broses bolisi cyn iddi hyd yn oed fynd i mewn i'r cylch lledaenu a chyhoeddi ffurfiol.

#### **4.4 Modelau Perthynas**

4.30 Mae'r mathau hyn o fodelau yn seiliedig ar berthynas sy'n datblygu o fewn rhwydweithiau o gynhyrchwyr a defnyddwyr ymchwil sy'n cydweithredu: mae hyn yn debyg iawn i'r model 'plwraliaeth ac oportiwnistiaeth' ac yn ein barn ni'n cynrychioli'r math o fodel yr anelir ato (ond nas cyflawnwyd hyd yma) yng nghyswllt yr astudiaeth Dysgu i Wella. Mae bodolaeth grŵp bychan ond dylanwadol o bobl gyda chefnidir mewn gwyddor gymdeithasol yn gweithio mewn gwneud polisi neu rolau cysylltiedig yn gyfrannydd a allai fod yn bwysig i lwyddiant model o'r fath. Mae hyn, ynghyd ag eiriolaeth dull seiliedig ar dystiolaeth gan rai heb fod yn wyddonwyr cymdeithasol mewn swyddi uchel iawn, yn help i greu nifer o rwydweithiau ffurfiol ac anffurfiol lle gall gwyddonwyr cymdeithasol ddylanwadu ar y broses bolisi. Canfu ein hastudiaeth ESRC o rôl gwyddonwyr cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru nad yw hyn yn digwydd bob amser, fodd bynnag, a chyfeiriodd nifer o ymatebwyr at natur ddarniog y cysylltiadau hyn ar draws Llywodraeth Cymru a thu hwnt.

4.31 Mae'r berthynas rhwng cynhyrchwyr a defnyddwyr ymchwil yn bwysig iawn yng nghyswllt Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a'i ddylanwad posibl dros benderfyniadau polisi a gweithredol allweddol. Mae ein hymgyngoriadau'n awgrymu fod y berthynas o fewn Llywodraeth Cymru rhwng yr ystadegwyr sy'n gyfrifol am gynhyrchu'r Mynegai a'r timau polisi

---

<sup>29</sup> Er bod angen cydnabod, mewn rhai achosion yn arbennig ryddhau data ystadegol, bod cyfyngiadau cyfreithiol ar y graddau y gall ymchwilwyr rannu eu canfyddiadau.

<sup>30</sup> Y mae, drwy ddiffiniad, yn anodd olrhain rhyngweithio anffurfiol o'r fath (e.e. astudiaeth Consulting Inplace o bolisi tlodi plant, ar gyfer yr ESRC) fod rhyngweithio o'r fath yn wir yn digwydd yn gyson mewn llawer o wahanol amgylcheddau polisi.

perthnasol yn gymharol gryf ac yn gefnogol i'w gilydd. Mae tîm y Mynegai yn gwneud ymdrechion sylweddol i gadw perthynas dda gyda thimau polisi a deall y pryderon polisi, materion a'r cyfyngiadau sy'n eu hwynebu. I'r gwrthwyneb, mae enw da tîm y Mynegai am ymchwil gywir, ofalus a safon uchel yn golygu fod ymatebwyr polisi wedi mynegi llawer o ymddiriedaeth yng ngwaith yr ymchwilwyr. Yn gyffredinol teimlai gwneuthurwyr polisi fod aelodau tîm y Mynegai yn cyfathrebu materion technegol cymhleth yn gymharol glir; fodd bynnag, mae bob amser le i wella'r agwedd yma o'r berthynas rhwng yr ymchwilydd-gwneuthurydd polisi.

- 4.32 Roedd yn glir o'n trafodaethau gyda defnyddwyr y Mynegai y tu allan i Lywodraeth Cymru, fodd bynnag, fod y berthynas rhwng ymchwilwyr a gwneuthurwyr polisi mewn awdurdodau lleol a sefydliadau defnyddwyr eraill yn amrywio. Mewn llawer o achosion, gall fod mai dim ond un ystadegydd o fewn yr awdurdod lleol sydd â'r sgiliau i ddefnyddio a dehongli'r Mynegai. Nid oedd gan lawer o awdurdodau lleol eraill a'r rhan fwyaf o sefydliadau trydydd sector unrhyw arbenigedd ystadegol o gwbl, oedd yn cyfyngu ar faint o ddefnydd effeithiol y medrid ei wneud o'r Mynegai (ac yn wir yn codi'r posibilrwydd o gamddefnyddio, anfwriadol neu fel arall). Mae hyn yn codi cwestiwn os oes lle, hyd yn oed o fewn yr adnoddau cyfyngedig iawn o fewn Llywodraeth Cymru a thu hwnt) i ysgogi cyfathrebu mwy eang rhwng ymchwilwyr a gwneuthurwyr polisi ar draws ffiniau awdurdodau lleol a sefydliadau anllywodraethol eraill. Er bod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr allanol y Mynegai yn gwerthfawrogi ymdrechion tîm y Mynegai i gyfathrebu drwy ddigwyddiadau, cylchlythyrau ac ymgynghoriadau ac ati, mae'n glir y bydd cyfyngiadau ar adnoddau yn cyfyngu ar fuddsoddi amser ac adnoddau yn y cyfeiriad hwn yn y dyfodol. Medrai modelau perthynas newydd yn seiliedig ar fathau newydd o gydweithio canol-lleol a rhwng awdurdodau (megis yr hyn sy'n cael ei ymchwilio gan y prosiect Dysgu i Wella) fod yn sail ar gyfer rhannu mwy effeithiol ac effeithlon o wybodaeth am y Mynegai a goblygiadau hynny ar gyfer polisi ac ymarfer.

4.33 Ffactor allweddol arall sy'n berthnasol ar gyfer Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a hefyd Dysgu i Wella yw rhan weithgar ymchwilwyr academiaidd yn y broses, a'r ffyrdd y maent yn cysylltu gyda gwneuthurwyr polisi ac ymarferwyr. Er y cyflwynir y Mynegai yn fewnol gan y tîm sy'n seiliedig yn Llywodraeth Cymru, mae gan ymchwilwyr academiaidd rôl bwysig fel defnyddwyr, aelodau grwpiau ymgynghori a darparwyr adborth i ymgynghoriadau ac ati. Roedd ein hymgynghoriad yn gyfyngedig o ran ei gwmpas, ac felly ni fu modd i ni ymchwilio'n fanwl rôl defnyddwyr academiaidd o fewn y Mynegai. Serch hynny ein teimlad yw bod lle i ddatblygu'r berthynas ymhellach rhwng tîm y Mynegai, ymchwilwyr academiaidd a defnyddwyr (neu ddarpar ddefnyddwyr) mewn awdurdodau lleol a chyrff trydydd sector. Mae modelau posibl yn cynnwys ysgoloriaethau ar y cyd, lle gall myfyrwyr ymchwil gael eu cysylltu gyda Llywodraeth Cymru a grŵp o awdurdodau a sefydliadau eraill i gynnal prosiectau sydd â goblygiadau polisi posibl tra'n bod yn ddigon o her yn academiaidd. Medrai grwpiau megis Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD) fod yn gatalydd pwysig ar gyfer prosiectau fel hyn.

4.34 Amlygodd ein hastudiaeth ehangach o berthynas ymchwil-polisi o fewn a thu hwnt i Lywodraeth Cymru bwysigrwydd cadw perthynas agos rhwng academyddion (yn bennaf ond nid yn llwyr o fewn Cymru), ymchwilwyr a gwneuthurwyr polisi o fewn Llywodraeth Cymru. Mae'r ymchwil bresennol wedi ychwanegu awdurdodau lleol a'r trydydd sector i'r hafaliad yma. Dywedodd ymchwilwyr academiaidd wrthym eu bod yn awyddus i weithio'n agosach gyda'r llywodraeth a chyrff cysylltiedig, ond bod ffactorau megis prosesau caffaeliad a gofynion tymor byr i gyflawni amcanion polisi ar unwaith, wedi cyfyngu ar ddatblygiad perthynas o'r fath. Ar y llaw arall, teimlai ymatebwyr y llywodraeth (ymchwil a pholisi) fod angen i academyddion yn gyffredinol gyfathrebu canfyddiadau ymchwil a'u goblygiadau mewn ffordd sy'n ddefnyddiol i wneuthurwyr polisi. Yn olaf, teimlai ymatebwyr ymchwil a pholisi fod y strwythurau cymhellant sy'n wynebu academyddion - ac yn neilltuol yr angen i gynhyrchu erthyglau ar gyfer cyhoeddiadau a adolygir gan gymheiriaid er mwyn

sicrhau graddau Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) uchel - yn effeithio ar allu academyddion i gyflawni'r anghenion a fynegwyd gan wneuthurwyr polisi.

4.35 Yn ein barn ni, nid oes dim o'r rhwystrau hyn yn anorchfygol. Yn wir, mae'n bwysig adeiladu ar yr arfer da sy'n bodoli o fewn Llywodraeth Cymru ac mewn mannau eraill (gweler manylion yn ein hadroddiad i'r ESRC) ac i gefnogi'r broses o gyfathrebu rhwng cymunedau academiaidd, ymchwil polisi a gwneud polisi i'r graddau mwyaf posibl. Mae gweddill y cyfnod yn y rhaglen ymchwil Dysgu i Wella yn rhoi cyfle i ddynodi a thrafod llawer o'r materion sy'n gysylltiedig gyda chydweithredu academiaidd-polisi. Fel rhaglen pedair blynedd, mae Dysgu i Wella yn amlwg yn fuddsoddiad hirdymor o'r math y mae academyddion yn ei dderbyn yn anaml gan asiantaethau llywodraeth. Mae'r briff yn annog elfen helaeth o annibyniaeth ar ran yr ymchwilwyr ac - mewn egwyddor - mae agwedd dysgu'r prosiect yn rhoi cyfle i ymchwilwyr academiaidd a pholisi ryngweithio gyda defnyddwyr ymchwil posibl mewn ffordd heriol ond eto adeiladol.

4.36 Mae ein hymchwiliadau'n awgrymu fod peth ffordd i fynd i bontio'r bwlch rhwng yr ymchwil a gynhaliwyd gan y tîm ym Mhrifysgol Caerdydd ac anghenion (yn aml yn rhai cudd yn hytrach nag wedi eu datgan yn eglur) gwneuthurwyr polisi o fewn Llywodraeth Cymru a'r sector awdurdodau lleol. Mae'n ddi-os yn broses anodd, fel y dangosir gan astudiaethau eraill i'r rhyngwyneb ymchwil-polisi. Serch hynny, credwn y gall ymdrech sylweddol a phenderfynol ar ran yr unigolion allweddol - sydd i gyd yn awyddus gweld Dysgu i Wella yn llwyddo - a dyfodiad symbyliad newydd o'r ongl awdurdodau lleol ddwyn ffrwyth dros weddill cyfnod yr astudiaeth. I raddau medrir ei weld fel prawf ar gyfer dulliau 'seiliedig ar berthynas' y medrid eu defnyddio mewn cynlluniau ymchwil eraill yn gysylltiedig ar bolisi, er bron yn sicr ar raddfa lai.

4.37 Credwn y gall canfyddiadau'r astudiaeth achos fod yn gatalydd i aildanio diddordeb yn rhaglen ymchwil Dysgu i Wella; gall sgiliau a phrofiad

Shared Intelligence - yn gweithio fel 'brocer onest' - helpu i ddod â gwneuthurwyr polisi at y bwrdd i drafod materion sy'n parhau i fod yn rhai real a brys, er newidiadau yn y cyd-destun economaidd a pholisi ehangach. Mae angen dod i trafodaeth o'r canfyddiadau ymchwil yn uchel ar yr agenda yn nigwyddiadau perthnasol Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a manau eraill, gyda 'hybu' ar lefel uwch, gyda'r amcan penodol o greu dull seiliedig ar berthynas er mwyn sicrhau fod canfyddiadau ymchwil y buddsoddiwyd llawer iawn ynddynt, yn gwneud gwahaniaeth.

#### 4.5 Modelau Eraill

- 4.38 Credwn fod cyfuniad o'r modelau 'rhesymegol/llinellog', 'plwraliaeth/oportiwntiaeth' a 'perthynas'; yn ddefnyddiol wrth gynrychioli'r broses o ryngweithiad ymchwil-polisi o fewn Llywodraeth Cymru, yn cynnwys astudiaethau achos Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a Dysgu i Wella. Er mwyn cyflawnder, fodd bynnag, mae'n ddefnyddiol ystyried yn fyr y ddau fodel arall a nodir gan Cozzens a Snoek:
- 4.39 **Gwleidyddiaeth a chyfreithloniad:** Mae'r model yma'n dangos barn y caiff grym ei drwytho drwy'r broses wybodaeth: cyfeiriodd nifer fechan o'n hymatebwyr at hyn, ond ni fu modd i ni ganfod tystiolaeth gadarn i awgrymu bodolaeth model o'r fath o wneud polisi yng nghyswllt Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru na Dysgu i Wella, nac ar draws Llywodraeth Cymru yn fwy cyffredinol yn ein hastudiaeth a gomisiynwyd gan yr ESRC.
- 4.40 Meddir disgrifio **modelau systemau** fel bod yn '*embedded in relationships (and)...interwoven with the priorities, cultures and contexts of organisations and systems*'<sup>31</sup>. Mae hyn yn disgrifio model yr ymddengys y bod rhai o fewn a thu hwnt i Lywodraeth Cymru yn anelu amdani sy'n dymuno sicrhau ymagwedd at bolisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ond sy'n adlewyrchu realaeth yr ymchwil a hefyd y prosesau polisi. Mae angen i'r systemau a ddisgrifir gan y modelau hyn hefyd ymgorffori'r berthynas rhwng gwyddonwyr cymdeithasol mewnol ac allanol a gyda gwneuthurwyr

---

<sup>31</sup> Wood a Holmes (2010), dyfynnir yn Cozzens a Snoek *op cit*



polisi ar wahanol lefelau. Nid oes un model trefniadol fydd yn ysgogi dull gweithredu seiliedig ar systemau o'r fath, ac mae newidiadau i strwythurau , systemau a diwylliannau trefniadol ehangach y tu allan i gwmpas yr astudiaeth fechan hon o ddau o fuddsoddiadau ymchwil Llywodraeth Cymru.

## **4.6 Trosolwg**

4.41 Wrth ddod â thystiolaeth o astudiaethau achos Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a Dysgu i Wella at ei gilydd gyda'r canfyddiadau ehangach ar y rhyngwyneb polisi-ymchwil, ymddengys fod maint a natur effaith polisi yn dibynnu i raddau helaeth ar sgiliau cyfathrebu a/neu wleidyddol gwyddonwyr cymdeithasol unigol (yn cynnwys ystadegwyr). Mae gwybodaeth a sgiliau ymchwil ymysg 'defnyddwyr' ymchwil yn helpu i sicrhau fod prosiectau ac adnoddau ymchwil (megis y Mynegai) yn cael effaith amlwg ar bolisi, yn ogystal â bodolaeth diwylliant cadarnhaol o'r brig i lawr mewn rhai cyfadrannau neu adrannau. Fodd bynnag nid yw'r broses datblygu polisi a'r prosesau ymchwil bob amser yn ffitio'n daclus at ei gilydd, beth bynnag yw ansawdd dechnegol yr ymchwil gan ymchwilwyr mewnol neu allanol. Mae hyn yn awgrymu mai modelau plwraliaeth, seiliedig ar berthynas yw'r rhai mwyaf addas (ond nid yr unig rai perthnasol) o gysyniadoli'r berthynas ymchwil-polisi o fewn a thu hwnt i Lywodraeth Cymru. Mae gweithredu i ddatblygu a gwella perthynas a chyfathrebu ar lefel aml-haenog felly'n ganolog i ymdrechion parhaus i sicrhau fod buddsoddiadau mewn cynlluniau megis Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a Dysgu i Wella yn effeithiol o ran cost ac yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i bolisi ac ymarfer dros y tymor byr, canolig a hir.

# **Atodiad 1: Astudiaeth Achos Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru**

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Diben yr Adroddiad

- 1.1 Derbyniodd Old Bell 3 a Consulting Inplace gomisiwn gan Lywodraeth Cymru yn Ionawr 2011 i gynnal astudiaeth fechan yn gwerthuso effaith ymchwil o fewn Llywodraeth Cymru.
- 1.2 Y cyd-destun ar gyfer yr ymchwil oedd y gydnabyddiaeth bod Llywodraeth Cymru yn buddsoddi adnoddau sylweddol mewn ymchwil (a gynhelir gan ei ddadansoddwyr ei hun a hefyd ymchwil a gomisiynir gan ymchwilwyr allanol) a bod yr amgylchedd heriol ar gyfer gwariant sector cyhoeddus yn golygu bod angen rhoi ystyriaeth agos i'r ffyrdd o gynyddu effeithiolrwydd yr ymchwil yma i'r eithaf.
- 1.3 Prif amcanion yr astudiaeth oedd:
- Gwerthuso effaith dau brosiect ymchwil a reolwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru<sup>32</sup> fel astudiaethau achos (sef Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a Gwerthusiad Dysgu i Wella).
  - Llunio gwersi i gefnogi a datblygu ymchwil a reolir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau y caiff cyllid ymchwil ei wario'n effeithiol a'i fod yn cael yr effaith mwyaf posibl.
- 1.4 Ar gyfer pob un o'r astudiaethau achos, yr amcanion oedd:
- Dynodi pwy yw'r cymunedau sy'n defnyddio canfyddiadau'r ymchwil
  - Dynodi sut y caiff y cymunedau defnyddwyr eu hysbysu am yr ymchwil
  - Dynodi'r ffyrdd y bydd y cymunedau defnyddwyr yn defnyddio canfyddiadau'r ymchwil, ac i ba raddau y maent yn eu defnyddio
  - Disgrifio i ba raddau y mae'r astudiaethau wedi effeithio ar bolisi ac ymarfer

---

<sup>32</sup> Enw blaenorol Llywodraeth Cymru

- Asesu i ba raddau y mae'r astudiaethau wedi effeithio ar bolisi ac ymarfer, gan amlygu lle medrai astudiaethau fod wedi cael mwy o effaith ac arferion da
- Disgrifio'r broses o sicrhau unrhyw effaith a ddynodwyd yn cynnwys:
  - sut a pham y cafodd unrhyw effaith ei sicrhau
  - dulliau oedd yn hwyluso effaith yr astudiaethau
  - ffactorau oedd yn rhwystro'r astudiaeth rhag cael effaith
- Llunio pwyntiau ymchwil o'r astudiaethau achos a all gynorthwyo ymchwilwyr i sicrhau y caiff ymchwil ei ddefnyddio'n eang a'i fod yn cael yr effaith mwyaf posibl.

1.5 Mae'r adroddiad yma yn un o ddau adroddiad astudiaeth achos ac mae'n ystyried Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Mae adroddiad cyfochrog yn cyflwyno ein canfyddiadau ar astudiaeth achos Gwerthusiad Dysgu i Wella ac mae adroddiad terfynol byr yn tynnu ynghyd rai o'r casgliadau o'r ddwy astudiaeth achos.

## 1.2 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

- 1.6 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ('Y Mynegai') yw'r mesur swyddogol o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru, a fe'i defnyddir yn helaeth y tu mewn a hefyd y tu allan i'r llywodraeth. Mae amddifadedd yn gysyniad ehangach na thlodi, ac mae'n cyfeirio at broblemau a achosir gan ddiffyg adnoddau (e.e. arian) a hefyd gyfleoedd<sup>33</sup>.
- 1.7 Prif bwrpas y Mynegai yw dynodi'r ardaloedd mwyaf amddifadus yng Nghymru er mwyn rhoi gwybodaeth ar gyfer penderfyniadau ar bolisi a chyllid.
- 1.8 Cyhoeddwyd y Mynegai cyntaf yn 2000, ac fe'i datblygwyd gan ymchwilwyr o Brifysgol Rhydychen. Cafodd wedyn ei ddatblygu yn

<sup>33</sup> Daw gwybodaeth yn yr adran yma o wefan Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/statistics/theme/wimd/?lang=cy> a 'Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, 2008'.

fewnol gan Gyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth Cymru (gan weithio gydag Uned Data Llywodraeth Leol - Cymru) a chyhoeddwyd mynegai newydd yn 2005. Cyhoeddwyd Mynegai pellach yn cynnwys data ar y parth diogelwch cymunedol am y tro cyntaf yn 2008. Cyhoeddir diweddariad o'r Mynegai yma - na fydd yn gwneud unrhyw newidiadau i fethodoleg na dangosyddion heblaw lle mae newidiadau mewn darpariaeth data'n golygu na fedrir osgoi hynny - ym mis Awst 2011. Yn ychwanegol, datblygwyd Mynegai Plant, yn defnyddio'r data ar gyfer Mynegai 2008.

- 1.9 Mae'r Mynegai yn rhoi 1,896 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) Cymru, gyda phob un ohonynt â'n fras yr un nifer o bobl yn byw ynddynt. Cafodd safleoedd amddifadedd eu cyfrif ar gyfer pob un o'r ardaloedd hyn; mae gan yr ardal fwyaf amddifadus safle o 1, a'r ardal lleiaf amddifadus safle o 1,896.
- 1.10 Mae Mynegai 2008 yn seiliedig ar wyth parth gwahanol, pob un ohonynt yn dynodi 'math' o amddifadedd'. Yr wyth parth yw incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, tai, mynediad i wasanaethau, amgylchedd, a diogelwch y gymuned. Ystyrir mai incwm a chyflogaeth yw'r ffactorau pwysicaf o'r wyth parth a hwy gafodd y pwysoliad mwyaf sylweddol yn y prif fynegai.
- 1.11 Mae pob un o'r parthau yn seiliedig ar ystod o wahanol ddangosyddion a chânt eu mesur mewn gwahanol ffyrdd, yn defnyddio gwahanol unedau. Caiff dangosyddion o fewn pob parth eu pwysoli i adlewyrchu eu cyfraniadau i'r Mynegai cyn cael eu cyfuno i ffurfio sgôr parth. Caiff pob parth ei grynhai fel un mesur a chyfunir y rhain yn y brif fynegai.
- 1.12 Oherwydd newidiadau i'r ffordd y datblygwyd Mynegeion dilynol, nid yw'n bosibl gwneud cymariaethau dros gyfnod yng nghyswllt safleoedd o fewn y Mynegai yn ei gyfanrwydd<sup>34</sup>. Nid yw'n bosibl ychwaith i gronni i ardaloedd gofodol mwy (wardiau etholiadol neu ardaloedd awdurdod

---

<sup>34</sup> Hyd yn oed os nad oedd unrhyw newidiadau i'r fethodoleg ar gyfer gwahanol rifynnau'r Mynegai, byddai'n parhau i fod yn amhosibl olrhain newid ar gyfer unrhyw ardal unigol dros gyfnod yn defnyddio'r safleoedd, gan nad yw'n bosibl dweud os yw symud safleoedd oherwydd newidiadau yn yr ardal ei hun neu newidiadau i ardaloedd eraill.

lleol) yn defnyddio'r safleoedd o fewn y Mynegai. Fodd bynnag, medrir defnyddio'r dangosyddion sylfaenol i olrhain newidiadau dros gyfnod ac i alluogi cymariaethau mewn ardaloedd gofodol mwy a bu cynnydd yn y data sylfaenol yma sydd ar gael dros y deng mlynedd ddiwethaf. Yn fwyaf diweddar, ym Mawrth 2011, darparodd y Gyfarwyddiaeth Ystadegol set data newydd yn cynnwys dangosyddion y Mynegai ar lefelau Awdurdodau Lleol, Ardaloedd Adfywio Strategol, ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a nifer o grwpiau eraill yn ogystal â lefel LSOA<sup>35</sup>.

1.13 Goruchwylir y Mynegai gan Grŵp Llywio (gynt y Bwrdd Prosiect) yn cynnwys staff o amrywiaeth o rolau o fewn Llywodraeth Cymru. Caiff y Grŵp Llywio ei gynorthwyo gan grŵp ymgynghori, grŵp lledaenu a saith gweithgor parth ar gyfer yr wyth parth amddifadedd (gydag incwm a chyflogaeth wedi'u cyfuno), pob un ohonynt yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a hefyd arbenigwyr/cynrychiolwyr allanol. Cynhaliodd tîm y Mynegai hefyd ymgynghoriad agored ddiwedd 2009 am ei raglen waith ac mae'n cyfathrebu drwy gylchlythyr electronig rheolaidd sydd ar gael ar gais.

1.14 Mae gwybodaeth bellach ar gael yn:

<http://wales.gov.uk/topics/statistics/theme/wimd/?lang=cy>

### **1.3 Dulliau ymchwil**

1.15 Cynhaliwyd yr astudiaeth yma dros gyfnod o ddau fis (Mawrth-Ebrill 2011).

1.16 Roedd yr ymchwil yn cynnwys:

- Adolygiad byr o ddeunydd cefndir ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru;
- Cyfweliadau wyneb-i-wyneb (yn defnyddio'r canllaw pwnc yn Atodiad 1) gyda:

---

<sup>35</sup> Cylchlythyr Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 5 Chwefror 2011

- Staff o fewn y Gyfarwyddiaeth Ystadegol gyda chyfrifoldeb arweiniol am y Mynegai;
  - Pedwar aelod arall o staff gyda swyddi ymchwil neu ddadansoddol o fewn Llywodraeth Cymru (cyfwelwyd un ohonynt dros y ffôn): roedd y cyfan yn aelodau o Fwrdd Prosiect y Mynegai;
  - Saith o staff polisi (un ohonynt yn aelod o Fwrdd Prosiect y Mynegai) o fewn Llywodraeth Cymru y gwyddys eu bod yn ddefnyddwyr allweddol neu y gallent fod yn ddefnyddwyr allweddol o'r Mynegai: daeth y rhain o'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a'r Adran Materion Gwledig<sup>36</sup>;
  - Cynrychiolydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a phedwar swyddog awdurdod lleol yn gweithio ym maes datblygu economaidd/adfywio cymunedol<sup>37</sup>.
- Arolwg electronig a anfonwyd at unigolion sy'n derbyn cylchlythyrau rheolaidd y Mynegai ac at unigolion a fynychodd ddigwyddiadau ymgynghori ar y Mynegai ddiwedd 2009. Prif ddiben yr arolwg oedd dynodi defnyddwyr y Mynegai o'r tu allan i Lywodraeth Cymru i ysgogi cyfweiliadau ychwanegol, ac i gasglu gwybodaeth sylfaenol am eu hymwybyddiaeth o'r Mynegai a'r defnydd ohono. Derbyniwyd cyfanswm o 41 o ymateb wedi'u cwblhau, cyfradd ymateb o ychydig dan 20%<sup>38</sup>. Dangosir yr holiadur fel Atodiad 2.
  - Cyfweiliadau ffôn dilynol gyda saith o ymatebwyr arolwg a ddywedodd eu bod yn hapus i gymryd rhan mewn cyfnodau ychwanegol o'r ymchwil<sup>39</sup>, yn defnyddio'r canllaw pwnc yn Atodiad 1. Roedd y rhai a gyfwelwyd yn cynnwys unigolion mewn swyddi ymchwil mewn awdurdod heddlu, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a dau

<sup>36</sup> Mae hyn yn adlewyrchu'r Adrannau yr oedd yr unigolion hyn yn gweithio ynddynt adeg eu cyfweiliad. Cafodd Adrannau Llywodraeth Cymru eu hailstrwythuro ar ôl etholiadau Mai 2011.

<sup>37</sup> Trafodaeth grŵp oedd hyn.

<sup>38</sup> Anfonwyd neges e-bost yn cynnwys dolen i'r holiadur gwe at 253 o gyfeiriadau e-bost a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru. Ni chyrrhaeddodd 29 ohonynt ben eu taith, gan wneud cyfanswm o 224 ymatebwr posibl. Ar y sail hon, roedd y gyfradd ymateb yn 18.3%.

<sup>39</sup> Cytunodd un ar ddeg o gyfranogwyr – neu 27% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg ar y we – gymryd rhan mewn cyfweiliadau ffôn.

awdurdod lleol; staff polisi mewn awdurdod lleol arall a sefydliad sector gwirfoddol, ac ymchwilydd academaidd.

- 1.17 Gobeithiwyd hefyd drefnu grwpiau ffocws gyda chydlynwyr Dechrau Deg o fewn awdurdodau lleol a siarad gyda chynrychiolwyr ychwanegol o sefydliadau trydydd sector. Fodd bynnag, bu'n amhosibl trefnu grwpiau ffocws o fewn yr amserlenni ar gyfer yr ymchwil a chanlyniadau cyfyngedig iawn a ysgogodd y cyswllt e-bost gyda chydlynwyr Dechrau'n Deg a'r Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant.

#### **1.4 Strwythur yr Adroddiad**

- 1.18 Yng ngweddill yr adroddiad adroddwn ein canfyddiadau yn nhermau amcanion yr astudiaeth achos a nodir ym mhara 1.4 uchod (Adran 2) cyn cyflwyno rhai casgliadau byr ar gyfer cynyddu'r effaith yn y dyfodol (Adran 3).



## 2. Canfyddiadau

### 2.1 Ymwybyddiaeth a Chymunedau Defnyddwyr

2.1 Mae ein hymgyngoriadau ac arolwg ar y we yn awgrymu mai Llywodraeth Cymru ei hunan yw'r defnyddiwr mwyaf o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, gyda'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (ac yn arbennig y Gyfarwyddiaeth Cymunedau) y mwyaf sylweddol. Mae adrannau eraill o Lywodraeth Cymru hefyd wedi gwneud defnydd sylweddol o'r Mynegai, er enghraifft yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, yn ogystal â nifer o gyrfff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad (megis Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru [CCAUC]).

2.2 Ymddengys fod y defnydd o'r Mynegai y tu allan i Lywodraeth Cymru a'i hasiantaethau yn fwy cymysg ac yn dibynnu ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd ar gael o fewn y sefydliad defnyddio, er yr ymddengys fod yr Heddlu'n gwneud defnydd helaeth o'r data (gweler para. 2.19 am drafodaeth bellach). Mae awdurdodau lleol Cymru yn defnyddio'r Mynegai i roi gwybodaeth ar gyfer penderfyniadau ar bolisi a dyrannu adnoddau er yr ymddengys eu bod yn ei ddefnyddio'n amlach fel un ffynhonnell o dystiolaeth wrth ochr data lleol iawn ac adborth yn hytrach na ffynhonnell yn sefyll ar ben ei hun. I raddau llai mae'r sector gwirfoddol a chymunedol yn defnyddio'r Mynegai, er enghraifft mewn gwaith ymgyrchu, ac mae sefydliadau academaidd yn cynnal gwaith ymchwil ar faterion gofodol yn gwneud peth defnydd o'r Mynegai a'r data y'i seiliwyd arno.


2.3 Wrth adrodd ar yr adborth o'r ymgyngoriadau ac arolwg ar y we, os na nodir fel arall mae'r canfyddiadau yn gyffredin ar draws y gwahanol grwpiau defnyddwyr. Fodd bynnag, lle'n briodol gwahaniaethwn rhwng ymatebion gwahanol fathau o ddefnyddwyr.

- 2.4 Yn gyffredinol credai'r rhai a gyfwelwyd fod gan y Mynegai broffil uchel o fewn Llywodraeth Cymru a mannau eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru oedd yn dangos y modd o ddifrif a phroffesiynol y cafodd ei gasglu a'i ledaenu ('mae'r ffordd y caiff ei gyflwyno yn wych, gyda llawer o fapiau rhagorol - mae'n wirioneddol ddefnyddiol ar gyfer delio gyda Gweinidogion) a chynyddodd yr ymwybyddiaeth honno gyda chyhoeddiad Mynegeion dilynol. Yn wir, credai nifer o'r rhai oedd yn bryderus am y pwyslais ar dargedu gofodol o fewn Llywodraeth Cymru (gweler 2.2 islaw) fod gan y Mynegai broffil bron yn rhy uchel, gan ei fod, yn eu barn hwy, wedi dod fwy neu lai'r dull awtomatig wrth ystyried sut i dargedu polisi, yn hytrach na chael ei ddefnyddio fel un ffynhonnell o wybodaeth.
- 2.5 Awgrymodd yr ymatebion i'r arolwg fod ymwybyddiaeth a defnydd o'r Mynegai wedi ei wasgaru'n gymharol ar draws y sector cyhoeddus (gyda llai o dystiolaeth o ymgysylltiad o'r trydydd sector ac, efallai'n llai o syndod, y sector preifat<sup>40</sup>) (Ffigur 2.1). O'r ymatebwyr i'r arolwg, roedd y nifer fwyaf sef 14 (34%) o awdurdodau lleol, gydag wyth (20%) o'r tu mewn i Lywodraeth Cymru. Dim ond pedwar ymatebydd oedd o'r sector gwirfoddol a thri o'r sector preifat: ni chynigiodd dim o'r ymatebwyr o'r sector preifat gymryd rhan mewn cyfweiliadau dilynol, gyda dau ohonynt yn dweud nad oeddent yn neilltuol o ymwybodol o'r Mynegai.

---

<sup>40</sup> Er y derbynir, oherwydd y gyfradd ymateb gymharol isel, y gall hyn adlewyrchu cyfradd ymaeb wahaniaethol gan grwpiau gwahanol.

Ffigur 2.1: Sefydliadau Cyflogi Ymatebwyr yr Arolwg




Sylfaen: 41 ymatebydd

2.6 Efallai nad yw'n syndod fod mwy na hanner y sawl a ymatebodd i'r arolwg yn ystyried bod eu swyddi yn seiliedig ar ymchwil (18 neu 44%) neu mewn swyddi gweithredol (saith neu 17%), gyda nifer llai yn disgrifio eu swyddi fel rhai strategol/uwch reoli (wyth neu 19%) neu wneud polisi (pedwar neu 10%)<sup>41</sup>.

2.7 Yn gyffredinol, credai ymatebwyr i'r arolwg eu bod yn gymharol gyfarwydd gyda'r Mynegai (Tabl 2.2) - er o gofio am y gyfradd ymateb rywfaint yn isel, mae'n amlwg fod risg o dueddiad dethol yma. Dywedodd ychydig dros draean yr ymatebwyr eu bod yn 'gyfarwydd iawn' gyda'r Mynegai, a dim ond un ymatebydd ddywedodd nad oedd yn 'gyfarwydd o gwbl' gyda'r Mynegai. Roedd ymatebwyr mewn rôl ymchwil yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gyfarwydd iawn gyda'r Mynegai (deg o'r 18 ymatebydd) na rhai mewn rôl strategol/uwch reoli neu wneud polisi.

<sup>41</sup> Dewisodd y pedwar arall 'arall' fel ymateb i'r cwestiwn yma.


Ffigur 2.2 Pa mor Gyfarwydd oedd yr Ymatebwyr gyda'r Mynegai



Sylfaen: 41 ymatebydd

- 2.8 Roedd yn glir o'r arolwg ar y we a hefyd o'r cyfweiliadau ansoddol fod lefel llawer is o ymwybyddiaeth o'r Mynegai Plant nag o'r prif Fynegai.
- 2.9 Yn nhermau ymatebwyr i'r arolwg ar y we, dywedodd mwyafrif un ai nad oeddent yn arbennig o gyfarwydd (11 neu 27%) neu dim yn gyfarwydd o gwbl gyda'r Mynegai Plant (12 neu 29%), tra dywedodd pob un o'r saith (17%) a ddywedodd eu bod yn gyfarwydd iawn gydag ef fod ganddynt rôl ymchwil (Tabl 2.3).

Ffigur 2.3: Pa mor Gyfarwydd oedd yr Ymatebwyr a Arolygwyd gyda Mynegai Plant Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru



Sylfaen: 41 ymatebydd


- 2.10 Yn yr un modd, dywedodd y rhan fwyaf o'r sawl a gyfwelwyd (yn neilltuol yn nhermau rhai gyda chyfrifoldebau polisi) mai gwybodaeth gweddol gyfyngedig oedd ganddynt o'r Mynegai Plant: roedd hyn yn cynnwys dau yr oedd â'u cyfrifoldebau yn bennaf ym maes plant a phobl ifanc.
- 2.11 Mae hefyd yn ddiddorol tra bod yr ymatebwyr i'r arolwg ar y we a rhai a gymerodd ran yn y cyfweiliadau ansoddol yn amlwg yn gynulleidfa wybodus, yn nhermau'r Mynegai yn gyffredinol (er yn llai felly yn achos y Mynegai Plant), roedd y lefelau cyswllt gyda'r dulliau a thechnegau gwybodaeth a ddefnyddiwyd gan y Gyfarwyddiaeth ystadegol yn gymharol isel<sup>42</sup>. Eto, ymddengys mai dim ond lleiafrif o'r rhai a gyfwelwyd oedd wedi cymryd rhan yn unrhyw un o'r digwyddiadau ymgynghori yn ymwneud â'r rhaglen waith. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, roedd hyn oherwydd yr anfonwyd staff iau neu fwy arbenigol

<sup>42</sup> Mae'n bosibl y gallai hyn fod yn rhannol oherwydd nad oedd rhai o'r ymatebwyr yn eu swyddi adeg y digwyddiadau ymgynghori yn 2008: ni ofynnodd yr holiadur yn benodol am ba hyd y bu ymatebwyr yn eu swydd bresennol.

neu oherwydd nad oedd angen iddynt wneud hynny gan eu bod yn cymryd rhan mewn ffyrdd eraill, er enghraifft fel rhan o'r Grŵp Llywio.

- 2.12 O'r ymatebwyr i'r arolwg ar y we, dim ond lleiafrif oedd wedi cymryd rhan mewn unrhyw ffordd yn yr ymgynghoriad (11 neu 27%) gyda bron draean (13 neu 31%) yn dweud nad oeddent yn gwybod am yr ymgynghoriad (Ffigur 2.4). Roedd pawb heblaw un (unigolyn o'r trydydd sector) o'r rhai a gymerodd ran mewn rhyw ffordd yn cael eu cyflogi un ai gan Lywodraeth Cymru neu gan awdurdod lleol.

Ffigur 2.4: Cyfranogiad Ymatebwyr a Arolygwyd yn Ymgynghoriad Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru



Sylfaen: 41 ymatebydd

- 2.13 Yn yr un modd, dim ond wyth o'r ymatebwyr i'r arolwg ar y we (20%) a ddywedodd eu bod wedi cymryd rhan yn unrhyw un o'r digwyddiadau hyfforddi a lledaenu o amgylch lansiad Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2008. Er hyn, dywedodd bron ddau draean yr ymatebwyr (27 ymatebydd neu 66%) na chredent bod angen unrhyw fathau penodol o ddiwyddiadau neu hyfforddiant i hybu eu dealltwriaeth o'r Mynegai

- 2.14 Yn nhermau'r cylchlythyr electronig, roedd ymatebwyr i'r arolwg ar y we hefyd yn cymryd dull cyffyrddiad eithaf ysgafn. Dywedodd y mwyafrif helaeth nad oeddent ond yn edrych yn fras drwy'r cylchlythyr (23 neu 56%) neu bron byth neu byth yn agor atodiad y cylchlythyr (10 neu 24%), gyda dim ond wyth ymatebydd (20%) yn dweud eu bod yn darllen pob rhifyn yn ofalus, gyda thri ohonynt (7%) yn dweud eu bod yn dilyn y dolenni gwe a roddwyd. Roedd y rhai a roddodd fwyaf o sylw i'r cylchlythyr wedi eu gwasgaru ar draws ystod o sefydliadau ond roeddent i gyd mewn swyddi ymchwil neu weithredol.
- 2.15 Ar ôl dweud hyn, credai'r rhan fwyaf o ymatebwyr fod y gwahanol ddulliau a thechnegau cyfathrebu'n ddefnyddiol, gyda mwyafrif y rhai a fu mewn digwyddiadau yn credu iddynt fod yn ddefnyddiol iawn neu'n eithaf defnyddiol a'u hanner yn cael y cylchlythyr yn ddefnyddiol iawn (1 ymatebydd neu 2%) neu'n eithaf defnyddiol (20 ymatebydd neu 48%). Ond, yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth o'n harolwg yn awgrymu cynulleidfa sy'n teimlo eu bod yn gwybod ble i ganfod gwybodaeth ac sy'n mynd ati eu hunain i ddefnyddio'r Mynegai yn hytrach na dibynnu ar gael eu hysgogi gan y Gyfarwyddiaeth Ystadegol i'w ddefnyddio.
- 2.16 Yn wir, canmolodd un o'r rhai a gyfwelwyd yn fanylach y Gyfarwyddiaeth Ystadegol am fod yn ymatebol wrth ateb ymholiadau penodol: "Mae Llywodraeth y Cynulliad yn dda iawn am ymateb i ymholiadau a thrafod gyda'r gymuned ystadegol". Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a gafodd gyfweiliad ansoddol hefyd yn barod iawn i ganmol y gwaith a wnaed i godi ymwybyddiaeth ac ehangu dealltwriaeth o'r Mynegai.
- 2.17 Yn ddiddorol, fodd bynnag, credai un o'r ymchwilwyr a gyfwelwyd y medrid dadlau bod gormod o ymdrech yn mynd i ledaenu'r Mynegai. Mewn gwirionedd, dywedodd, mae'n debyg mai grŵp eithaf bychan o bobl oedd yn defnyddio'r Mynegai yn uniongyrchol, a bod y rhan fwyaf ohonynt yn adnabod ei gilydd yn dda – 'llond llaw o bobl wybodus' – a bod ganddynt ffyrdd anffurfiol o gysylltu gyda'i gilydd.

## 2.2 Defnyddioldeb a'r Defnydd o'r Mynegai

2.18 Daeth tair neges glir i'r amlwg o'n cyfweiliadau ansoddol yng nghyswllt defnyddioldeb y Mynegai:

- Yn gyntaf, ar gyfer mwyafrif llethol y rhai a gyfwelwyd, bod angen Mynegai o'r math yma.
- Yn ail, y gwneir defnydd helaeth o'r Mynegai (yn ogystal â'r parthau a'r dangosyddion sy'n sylfaen iddo) er mwyn rhoi gwybodaeth ar gyfer polisiau a dylanwadu ar y ffordd y cânt eu gweithredu'n ofodol yng Nghymru.
- Yn drydydd, bod diffyg eglurdeb a chonsensws o fewn y gymuned polisi (ac o fewn Llywodraeth Cymru yn fwy cyffredinol) am i ba raddau y mae dulliau gofodol o fynd i'r afael ag amddifadedd yn addas neu'n ddymunol ac fel canlyniad nerfusrwydd am sut i ddefnyddio'r Mynegai i drin materion penodol.

2.19 Yn nhermau'r gyntaf o'r negeseuon hyn, ymddengys mai'r farn gyffredinol oedd un a gafwyd gan un o'r sawl a gyfwelwyd, sef 'pe na bai'r Mynegai yn bodoli, byddai'n bendant angen i ni ei ddyfeisio', o gofio am gonsyrn llywodraethau dilynol yn y Cynulliad Cenedlaethol (a'r mwyafrif chwith-canol o fewn y Cynulliad) am ddynodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb. Er bod llawer o'r sawl a gyfwelwyd yn ymwybodol o'r problemau technegol a diffygion oedd yn gynhenid wrth ddatblygu'r Mynegai neu yn wir unrhyw Fynegai cyfansawdd o'r math, y farn gyffredin oedd y byddai polisi oedd yn seiliedig ar dargedu mewn perygl o gael ei benderfynu drwy anecdot a chwarae gemau gwleidyddol pe na bai cyhoeddiad o'r fath ar gael: 'Dwi ddim eisiau gadael i bobl ei feirniadu, oherwydd mi fyddai'n anodd iawn i ni fod hebdo'.

2.20 Yn nhermau'r defnydd o'r Mynegai, roedd enghreifftiau a roddwyd lle mae ganddo rôl allweddol mewn targedu polisi neu adnoddau (ar sail



gwybodaeth uniongyrchol gan rai a gyfwelwyd) yn ystod ein gwaith maes<sup>43</sup> yn cynnwys:

- Y defnydd o Fynegeion 2000 a 2005 wrth benderfynu ar yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, ac yn fwy diweddar y defnydd o ddangosyddion a data parth y Mynegai i roi gwybodaeth ar gyfer penderfyniadau am flaenori gweithgaredd o fewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf: dywedwyd wrthym y caiff staff Cymunedau yn Gyntaf o fewn Llywodraeth Cymru ac mewn cymunedau eu hannog i ddod yn gyfarwydd â data'r Mynegai i sicrhau y caiff gweithgaredd a ariannir gan Cymunedau yn Gyntaf - nid yn lleiaf drwy Gronfa Canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf - ei dargedu'n briodol ar y parthau hynny lle mae cymunedau unigol ar eu gwannaf;
- Defnydd y Mynegai i benderfynu ar ddyraniad adnoddau heddlu i ardaloedd unigol: mewn o leiaf un ardal Awdurdod Heddlu, defnyddir y Mynegai (ynghyd â gwybodaeth fwy manwl ar ddiogelwch y gymuned) i ddatblygu 'matrics asesu cymdogaeth': caiff pob cymdogaeth ei rhoi mewn safle ar gyfer lefelau amddifadedd ac yna eu pwysoli yn ôl mesurau diogelwch y gymuned (ymddygiad gwrthgymdeithasol a diogelwch a lles personol). Mae hyn wedyn yn rhoi safle ar gyfer pob cymdogaeth drwy system goleuadau traffig sef coch (20% uchaf), oren (y 20% nesaf) a gwyrdd (60% isaf). Defnyddir y canlyniadau i benderfynu ar blismona ar gyfer pob ardal - caiff pob cymdogaeth ei hasesu yn defnyddio'r matrics goleuadau traffig a rhoi sgôr iddi am lefel yr adnoddau heddlu sydd eu hangen;
- Defnydd y Mynegai ar gyfer fformiwla ariannu Addysg Uwch, yn arbennig drwy wobrwyo Sefydliadau Addysg Uwch am recriwtio myfyrwyr o ardaloedd amddifadus fel rhan o agenda 'Ymgyrraedd yn Ehangach' CCAUC;
- Yn yr un modd, ddefnyddio'r Mynegai i benderfynu ar bwysoliad ychwanegol ar gyfer taliadau yn ôl y pen ar gyfer darparwyr

---

<sup>43</sup> Rhai a gafodd gyfweiliadau wyneb i wyneb a hefyd gyfweiliadau dilynol dros y ffôn

addysg bellach, chweched dosbarth a dysgu seiliedig ar waith ar gyfer myfyrwyr o ardaloedd amddifadus;

- Defnyddio'r Mynegai i ddatblygu model gwerth ychwanegol i asesu perfformiad ysgolion drwy gyfeirio at eu dalgylch;
- Defnyddio Mynegai 2000 (ynghyd â dangosyddion eraill, yn arbennig gymhwyster ar gyfer prydau ysgol am ddim) i benderfynu ar dargedu gwreiddiol y fenter Dechrau'n Deg;
- Defnyddio'r Mynegai a'r Mynegai Plant i roi gwybodaeth ar gyfer y strategaeth Tlodi Plant, fel rhan o'r sylfaen tystiolaeth ehangach o ddata a dangosyddion a gynhwysir o fewn y Monitor Plant a Phobl Ifanc.

2.21 Gan droi at fater mwy sylfaenol priodoldeb targedu gofodol a digonolrwydd y Mynegai i gyflawni hyn, mynegodd mwyafrif y cyfweleion polisi (yn bennaf mewn swyddi polisi a thu allan i'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol) rai amheuan am dargedu gofodol yn seiliedig ar y Mynegai fel ffordd o fynd i'r afael â'r heriau polisi allweddol a wynebent o fewn eu rolau. Dadleuodd un o'r sawl a gyfwelwyd 'mae risg enfawr y medrai'r Mynegai wyro gwneud polisi' drwy ymddangos (er yr cafeatau o fewn y canllawiau) i gynnig darlun gwirioneddol gadarn o leoliad unigolion amddifadus. Credai un arall a gyfwelwyd fod llawer o'i chydweithwyr yn adrannau Llywodraeth Cymru yn tybio y medrid, drwy dargedu'r ardaloedd mwyaf amddifadus a ddangosir yn y Mynegai, fynd i'r afael yn awtomatig ag unrhyw fath neilltuol o amddifadedd mewn ffordd briodol heb ddadansoddi mewn unrhyw ffordd ddyfnach ddosbarthiad y math o amddifadedd a dargedwyd.

2.22 Ar y lefel fwyaf sylfaenol, dadleuodd o leiaf bump o'r rhai a gyfwelwyd fod polisi Llywodraeth Cymru yn gyffredinol yn seiliedig ar egwyddor gwasanaethau cynhwysfawr, neu dargedu ar sail angen unigol, a bod hyn yn cyd-fynd yn wael ag agwedd lle'r oedd cymorth yn cael ei benderfynu neu ei ddogni ar sail gofodol.

- 2.23 Er y derbyniwyd mewn termau pragmatig y gallai targedu rhai ymyriadau ar yr ardaloedd mwyaf amddifadus fod y ffordd fwyaf effeithiol o gyrraedd cyfran gymharol uchel o'r boblogaeth, dadleuwyd nad oedd hyn o reidrwydd yn cydfynd gyda nodau polisi cyfiawnder cymdeithasol. Felly dadleuodd un o'r rhai a gyfwelwyd:
- 'Dyma pam fod y Mynegai yn arf ddeufin. Rydych yn cyrraedd y nifer fwyaf o bobl yn yr amser byrraf ... ar y gost isaf ond mae'r holl bobl yma yr ydych yn mynd i'w gwneud yn ddig, ac mae eu hangen yr un mor real, ond nid yw'n cael ei weld, ac mewn rhai ffyrdd mae'n ddyfnach oherwydd ei fod yn anos ei drin.'
- 2.24 Soniodd un arall o'r sawl a gyfwelwyd am waith a wnaed yn ddiweddar ar deuluoedd problem ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yn defnyddio data gweinyddol i ddynodi'r 200 o deuluoedd oedd yn rhoi'r gofynion mwyaf ar ystod o wasanaethau cyhoeddus yn cynnwys gwasanaethau cymdeithasol, lles addysgol, yr heddlu a'r gwasanaeth prawf. Canfu hyn fod mwyafrif llethol y 200 teulu yn byw mewn cymunedau ar hyd coridor y M4, nad oedd ganddynt sgôr uchel ar y Mynegai a phriodolwyd hyn i natur 'hunan-blismona' cymunedau'r Cymoedd oedd yn ystadegol mwy amddifadus, Yn ymarferol, roedd hyn yn gorfodi teuluoedd gwirioneddol gamweithredol i symud i setliadau mwy anhysbys ar hyd yr M4. Yn yr achos yma, byddai canolbwyntio gwasanaethau teulu ar y cymunedau mwyaf amddifadus yn ystadegol yn methu cyrraedd y rhai oedd fwyaf o angen cymorth.
- 2.25 Er nad oedd mewn unrhyw fodd y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd yn rhannu'r farn yma, cytunodd mwy na hanner y rhai a gyfwelwyd fod risg sylweddol yn parhau y byddai'r Mynegai yn cael ei gamddeall neu ei gamddefnyddio. Felly dadleuodd un o'r rhai a gyfwelwyd fod y Mynegai yn gymhleth yn gysyniadol ac yn empirig ac yn agored i gael ei gamddeall: yn ddelfrydol, dywedodd, dylai'r Mynegai fod yn seiliedig ar wybodaeth am unigolion yn hytrach nag ardaloedd. Credai un arall o'r rhai a gyfwelwyd fod angen llawer mwy o bwyslais ar yr hyn a


ddangosai gwerthoedd absoliwt sylfaenol yn hytrach na pherthynoledd, sef pennawd y Mynegai. Yn wir, credai y dylid cael trafodaeth os oedd y mynegai cyfun yn ystyrion mewn gwirionedd, gan nad oedd yn dangos lle'r oedd gan unigolion amddifadedd lluosog, dim ond bod crynadau o unigolion amddifadus mewn gwahanol ffyrdd yn yr un ardal ofodol.

- 2.26 Yn neilltuol, holodd dau o'r sawl a gyfwelwyd (er bod ganddynt safbwyntiau gwahanol iawn ar bwysigrwydd cymharol natur wledig yn nhermau amddifadedd) gynnwys y parth 'mynediad i wasanaethau' fel rhan o'r Mynegai, gydag un yn dadlau y byddai'n well defnyddio hyn yn hytrach fel elfen drawsbynciol ar gyfer trawsgyfeirio'r Mynegai. (Trafodwn gyfyngiadau tybiedig eraill at ddefnyddioldeb yn Adran 2.3 islaw).
- 2.27 Ymddengys fod y pryderon hyn yn bodoli i raddau helaeth o fewn Llywodraeth Cymru gan efallai adlewyrch mwy o dueddiad (neu dueddiad tybiedig) i wneuthurwyr polisi roi rôl unigryw bwysig i'r Mynegai yn nhermau rhoi darlun o amgylchiadau lleol. Serch hynny ymddangosai fod cyrff eraill, megis awdurdodau heddlu a llywodraeth leol, er eu bod yn aml yn gwneud defnydd helaeth o'r Mynegai a'r data sylfaenol, yn ymddangos yn fwy tebygol o'i ddefnyddio ynghyd â data a gwybodaeth arall (weithiau anecdotaidd), efallai oherwydd eu profiad mwy uniongyrchol o'r sefyllfa 'ar lawr gwlad'. Felly pwysleisiodd un o'r rhai a gyfwelwyd o lywodraeth leol fod y Mynegai yn ddefnyddiol yn bennaf i 'wirio synnwyr canfyddiadau peth o'n gwaith ymgynghori cymunedol'.
- 2.28 Er mai dim ond mewn telerau pennawd yr ymchwiliodd yr arolwg ar y we ddefnyddioldeb tybiedig a'r defnydd gwirioneddol a wnaed o'r Mynegai, mae i raddau helaeth yn cadarnhau'r farn y caiff y Mynegai ei ddefnyddio'n eang - yn aml mewn cysylltiad â data a ffynonellau gwybodaeth eraill - o fewn y sector cyhoeddus er mwyn targedu

cynlluniau a hefyd fel sylfaen ar gyfer ystod eang o weithgareddau eraill.

2.29 Credai'r rhan fwyaf o ymatebwyr yr arolwg fod y Mynegai yn ddefnyddiol o ran eu gwaith (Ffigur 2.5). Dywedodd 16 o ymatebwyr (39 y cant) fod y Mynegai yn 'ddefnyddiol iawn' a dywedodd 12 (29 y cant) ei fod yn 'eithaf defnyddiol'. Dim ond mewn tri achos y dywedodd ymatebwyr bod y Mynegai 'heb fod o unrhyw ddefnydd uniongyrchol' (gyda'r deg arall neu 24% yn dweud ei fod 'o beth defnydd'. Mae dadansoddi yn ôl rôl gwaith yn awgrymu mai ymchwilwyr sy'n tueddu i ganfod y Mynegai yn fwyaf defnyddiol.

Ffigur 2.5: Defnyddioldeb y Mynegai ymysg Ymatebwyr a Arolygwyr



Sylfaen: 41 ymatebydd

2.30 Pan ofynnwyd pa elfennau o'r Mynegai oedd fwyaf defnyddiol iddynt, rhoddodd ymatebwyr amrywiaeth o atebion ond roedd yn glir fod y rhan fwyaf o'r sawl a ymatebodd i'r cwestiwn agored yma (24 neu 85% o'r rhai a holwyd<sup>44</sup>) yn defnyddio'r safleoedd parth a'r dangosyddion yn ogystal â'r mynegai cyffredinol. Roedd y sylwadau nodweddiadol yn cynnwys:

<sup>44</sup> Dim ond i'r ymatebwyr hynny a ddywedodd bod y Mynegai yn 'ddefnyddiol iawn' neu'n 'eithaf defnyddiol' iddynt y gofynnwyd y cwestiwn yma.

'Mae'r prif fynegeion, y safleoedd parth unigol (yn bennaf cyflogaeth incwm) a data ffynhonnell i gyd o werth sylweddol yn fy rôl' (Swyddog Ymchwil Llywodraeth Cymru).

'Nid oes unrhyw elfen benodol yn fwy defnyddiol - maent yn berthnasol ar gyfer gwahanol agweddau o waith felly mae weithiau'n ddefnyddiol i'w hystyried yn unigol tra ar adegau eraill mae'n ddefnyddiol i edrych ar bob parth ar wahân' (Swyddog Polisi Awdurdod Lleol).


'Eithaf defnyddiol, nid yn gymaint felly'r prif fynegai, ond yn hytrach y parthau unigol' (Swyddog Gweithredol Trydydd Sector)

- 2.31 Credai mwyafrif yr ymatebwyr i'r arolwg ar y we hefyd bod Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru wedi dod yn fwy defnyddiol dros gyfnod (10 neu 24% o ymatebwyr) neu wedi aros yn fras yr un fath (19 neu 46%), gyda dim ond un ymatebydd (2%) yn credu iddo ddod yn llai defnyddiol dros gyfnod.<sup>45</sup> Yn gyffredinol roedd y rhai a gredai y daeth y Mynegai yn fwy defnyddiol yn priodoli hyn i ryddhau data ychwanegol ar y parthau a dangosyddion unigol (e.e. 'gwell cyhoeddi canlyniadau unigol gan alluogi dadansoddiad manylach na hytrach nag offeryn di-fin iawn y safleoedd a'r Mynegai cyfunol) a derbyniad cynyddol eang o'r Mynegai o fewn y gymuned polisi' (e.e. 'mae'n cael ei gydnabod fel ffordd o wneud pethau').
- 2.32 Efallai nad yn annisgwyl, gan fod llawer o'r ymatebwyr i'r arolwg ar y we mewn swyddi ymchwil yn hytrach na swyddi gwneud polisi, ni fedrodd tua 41% (17) o'r holl ymatebwyr ateb y cwestiwn am i ba raddau yr oedd y Mynegai wedi penderfynu neu ddylanwadu ar ddyraniad cyllid/adnoddau gan eu sefydliad. O'r gweddill, dywedodd mwyafrif y defnyddid y Mynegai yn y ffordd yma (Tabl 2.6).

---

<sup>45</sup> 'Dim yn gwybod' oedd ateb gweddill yr ymatebwyr i'r cwestiwn yma.

Ffigur 2.6: I ba raddau y dylanwadodd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ar ddyraniadau cyllid o fewn sefydliadau



Sylfaen: 41 ymatebydd

2.33 Atebodd 14 o ymatebwyr y cwestiwn agored am fanylion y math o gyllidebau y gwnaeth y Mynegai ddylanwadu arnynt ac mewn nifer fach o achosion, gallwyd amcangyfrif faint o adnoddau y dylanwadwyd arnynt. Y rhain oedd:

- Cyllideb AAA a ddirprwywyd i ysgolion - miliynau o bunnau'r flwyddyn (Uwch Reolwr Awdurdod Lleol);
- Comisiynu gwasanaeth oedolion - £15 miliwn (Uwch Reolwr Awdurdod Lleol);
- Llawer o wahanol brosiectau, o raglenni graddfa fach ar gyfer allgymorth ieuencid i gynlluniau graddfa fawr i adnewyddu tai (Swyddog Ymchwil Awdurdod Lleol);
- Grant amddifadedd o £22 miliwn fel rhan o setliad llywodraeth leol ar gyfer awdurdodau unedol yng Nghymru (Swyddog Gweithredol Llywodraeth Cymru);
- Holl gyllideb Cymunedau yn Gyntaf (Gwneuthurydd Polisi Llywodraeth Cymru);
- Cynorthwyo mewn penderfyniadau am ddefnyddio swyddogion heddlu cymdogaeth. (Swyddog Ymchwil Awdurdod Heddlu).

2.34 Tybiai rhai a gyfwelwyd yn ddilynol ar y ffôn bod y Mynegai yn adnodd gwerthfawr ('Ni wn am unrhyw beth arall sy'n gwneud rhywbeth tebyg') a soniodd am y defnydd a wneir o'r Mynegai o fewn awdurdodau lleol i gynhyrchu proffiliau ward, i gefnogi cynigion am gyllid, i ddarparu briffiau mewnol a dangos 'tystiolaeth o angen'. Disgrifiwyd y Mynegai fel 'cynnyrch a frandiwyd yn dda', 'yn crynhoi setiau data cymhleth yn dda iawn', 'yn arf gwerth chweil' a 'chyfleus'. Dywedodd un ymatebydd fod parth 'mynediad i wasanaethau' y Mynegai yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer ardaloedd gwledig.

### **2.3 Effaith ar Bolisi ac Ymarfer: Ffactorau Hwyluso a Rhwystrau**

2.35 Rydym eisoes wedi ystyried yr ystod eang o enghreifftiau a roddwyd mewn cyfweiliadau ansoddol ac ymatebwyr i'r arolwg ar y we o ymyriadau polisi lle cafodd naill ai'r ymyriad cyffredinol neu ddyraniad adnoddau eu llunio neu eu seilio ar y Mynegai. Dengys hyn y defnyddir y Mynegai yn eithaf eang, ac nid dim ond o fewn yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, y medrid disgwyl iddynt fod â'r cyswllt mwyaf gyda materion yn ymwneud ag amddifadedd.

2.36 Wrth gwrs, yr effaith sengl a nodwyd amlaf ar gyfer y Mynegai yw siapio Cymunedau yn Gyntaf – ac mae'n bwysig nodi bod Cymunedau yn Gyntaf hefyd i ryw raddau wedi gweithredu fel 'dull trosglwyddo' ar gyfer y Mynegai, er enghraifft, gyda phartneriaethau addysg uwch 'Ymgyrredd yn Ehangach' wedi cael cyfarwyddyd i ganolbwyntio eu gwaith ar ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf gan mai'r rhain drwy ddiffiniad oedd i gael eu hystyried fel yr ardaloedd mwyaf amddifadus. Mae soffistigeiddrwydd cynyddol y defnydd o ddata'r Mynegai – i roi gwybodaeth fydd yn helpu i osod blaenoriaethau o fewn rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn ogystal â thargedu gofodol yr holl gynllun – yn enghraifft o'r ffordd y cynyddodd y ddealltwriaeth o sut i ddefnyddio'r Mynegai mewn ffordd briodol dros gyfnod.

2.37 Heblaw am fater dyrannu cyllid neu adnoddau, gofynnodd yr arolwg ar y we hefyd yn benodol i ymatebwyr os credent fod y Mynegai wedi



arwain at unrhyw newidiadau mewn polisi neu ymarfer yn eu sefydliad. Eto, ni fedrodd 15 (neu 36%) ymateb (roedd y rhain yn bennaf yn ymatebwyr o lywodraeth leol, neu 'cyrff cyhoeddus eraill'). O'r rhai a fedrodd ymateb, credai 16 (39 y cant) fod y Mynegai wedi effeithio ar bolisi neu ymarfer, gyda deg (24%) yn ymateb na chafodd unrhyw effaith. Fodd bynnag, roedd yr enghreifftiau a ddynodwyd mewn ymateb i gwestiwn dilynol yn eithaf cyffredinol ac yn gysylltiedig â materion gweithredol, er enghraifft:

- 'Cymhwyster Cymunedau yn Gyntaf a chyllid pellach a ddyranwyd i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf' (Swyddog Ymchwil Llywodraeth Cymru)
- 'Meincnodi perfformiad ysgolion. Defnyddiwyd yn y fformiwla ar gyfer dyrannu adnoddau fel swyddogion lles addysg a thîm cefnogi ymddygiad' (Swyddog Gweithredol Awdurdod Lleol)
- 'Defnyddio swyddogion ac adnoddau' (Swyddog Ymchwil Awdurdod Hedlu)
- 'Ceisiadau cyllid a wnaed i rai potiau cyllid gyda meini prawf cyfyngedig yng nghyswllt ardaloedd amddifadus'. (Ymchwilydd Awdurdod Lleol)

2.38 Yn unol â phroffil cyffredinol isel y Mynegai Plant, ni fedrodd mwy na phedwar o'r rhai a gymerodd ran mewn cyfweiliadau ansoddol (lleiafrif hyd yn oed yn eithrio'r rhai heb unrhyw gyswllt uniongyrchol gyda materion plant a theuluoedd) ddynodi ffyrdd penodol y cafodd y Mynegai Plant effaith hyd yma. Er iddo roi gwybodaeth ar gyfer y Strategaeth Tlodi Plant, roedd y rhain oedd yn ymwneud agosaf ag ef yn awyddus i bwysleisio mai dim ond un o nifer o ffynonellau data a ddefnyddiwyd wrth ddatblygu a gweithredu'r Strategaeth oedd y Mynegai Plant:

'Rwy'n meddwl mai rhan o'r broblem yw nag ydi'r Mynegai o reidrwydd yn pigo lan ar y dangosyddion y mae gennym ddiddordeb arbennig ynddyn nhw. Felly pan ddaw i bethau fel cau'r bwloch, rydym eisiau edrych yn benodol ar gyrhaeddiad addysgol, ar y gwahanol gyfnodau allweddol ac ymchwilio'r

diffyg cydraddoldeb sydd yna ar hyn o bryd. Felly nid yw'r holl ddangosyddion y mae gennynt ddiddordeb ynddyn nhw ar gael yn y Mynegai'.

- 2.39 Yn yr un modd, dim ond un mewn pump (neu 12%) o ymatebwyr i'r arolwg ar y we a gredai fod y Mynegai Plant wedi dylanwadu ar ddyraniad cyllid/adnoddau o fewn eu sefydliad (gyda dim ond un o'r ymatebwyr yn dweud iddo gael 'dylanwad mawr' ar hyn) a dim ond pedwar (10%) a ddywedodd ei fod wedi arwain at unrhyw newid mewn polisi ac ymarfer.
- 2.40 Yn nhermau ffactorau yn hwyluso effaith y brif Fynegai, soniodd rhai a gafodd gyfweiliadau ansoddol:
- mai dyma'r sbardun gwleidyddol yn nhermau ymrwymiad clir Llywodraethau dilynol yn y Cynulliad Cenedlaethol i agenda cyfiawnder cymdeithasol, gyda chynllun wedi'i dargedu'n ofodol, Cymunedau yn Gyntaf, yn ganolog i hyn;
  - ansawdd y deunyddiau gwybodaeth sydd ar gael gan y Gyfarwyddiaeth Ystadegol, yn cynnwys cyflwyniad gweledol clir y data, oedd yn neilltuo o ddefnyddiol ar gyfer briffio Gweinidogion a gwneuthurwyr penderfyniadau allweddol eraill (er nad oedd hyn yn golygu nad oedd unrhyw feirniadaeth – gweler islaw) a pharodrwydd staff allweddol i neilltuo amser i ymateb i gwestiynau ac ymholiadau;
  - y cynnydd dros gyfnod yn y data manwl sydd ar gael yn ymwneud â'r dangosyddion a'r parthau sy'n sylfaen i'r Mynegai. Pwysleisiodd llawer o'r rhai a gyfweilwyd fod y safleoedd parth a'r dangosyddion yn fwy o ddefnydd ymarferol iddynt na'r safleoedd cyffredinol.
- 2.41 Fel y gwelsom, cafodd yr un pwyntiau eu hadlewyrchu'n fras yn rhai o'r sylwadau gan yr ymatebwyr i'r arolwg ar y we ar elfennau mwyaf defnyddiol y Mynegai, yn y farn am y cylchlythyr ac yn farn gyffredinol

gadarnhaol lleiafrif o ymatebwyr yr arolwg a fynychodd ddigwyddiadau a drefnwyd gan dîm y Mynegai.

- 2.42 A throi at rwystrau, cododd y sawl a gafodd gyfweiliadau ansoddol<sup>46</sup> nifer o faterion a phryderon oedd yn eu barn hwy un ai'n cyfyngu - neu mewn rhai achosion a ddylai gyfyngu – ar effaith y Mynegai ar bolisi ac ymarfer.
- 2.43 Gwelsom eisoes fod gan nifer o'r sawl a gyfwelwyd o'r tu mewn i Lywodraeth Cymru - yn swyddogion polisi a hefyd yn ymchwilydd - bryderon sylweddol am briodoldeb defnyddio'r Mynegai fel ffordd, yn arbennig, o dargedu cyllid ar ardaloedd gofodol penodol yn hytrach na thargedu unigolion mewn angen. Felly, roedd dau ymchwilydd a gyfwelwyd yn poeni na ymddangosai fod llawer o'u cydweithwyr polisi yn gwerthfawrogi fod dosbarthiad LSOAs yn hanfodol yn gromlin-S (lle'r oedd y gwahaniaethau yn y safleoedd rhwng un ardal a'r llall yn gymharol fawr ar gyfer yr ardaloedd mwyaf a lleiaf amddifadus ond yn fach iawn tuag at ganol y dosbarthiad) ac yn tueddu i ddewis manau torri-ffwrdd ar gyfer targedu gofodol ar ran fwyaf gwastad y gromlin, oedd yn eu gwneud yn fympwyol tu hwnt.
- 2.44 Yn wir, dywedodd un swyddog polisi a gyfwelwyd bod angen canllawiau penodol i ddweud 'peidiwch â defnyddio hyn i ddyrannu cyllid.' Dadleuodd yr un person hefyd fod gan rai dangosyddion 'amddifadedd' ystyron gwahanol iawn mewn gwahanol gyd-destunau gofodol: tra medrai bod â dau gar fod yn ddangosydd o ffyniant mewn aelwyd mewn ardal drefol, nid oedd hyn yn wir mewn ardal wledig lle medrai fod yn hytrach yn 'ddangosydd nad oes bws ar gael'<sup>47</sup>.
- 2.45 Wrth siarad am Dechrau Da, dywedodd person arall a gyfwelwyd fod y penderfyniad i dargedu'r cynllun hwn yn ofodol (yn seiliedig i raddau helaeth ar y Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) yn golygu fod risg

---

<sup>46</sup> Yn cynnwys y cyfweiliadau dilynol hynny gydag ymatebwyr i'r arolwg ar y we

<sup>47</sup> Mewn gwirionedd, ni ddefnyddir perchnogaeth car ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Ond defnyddiodd y sawl a gyfwelwyd hyn fel enghraifft.

parhaus fod y rhai sydd mewn angen gwirioneddol yn cael eu gwasgu allan gan deuluoedd dosbarth canol mwy hyderus (sy'n bodoli hyd yn oed yn yr ardaloedd hynny) gan nad oes prawf modd ar y ddarpariaeth a'i bod ar gael i unrhyw riant yn byw o fewn y dalgylch. Gan fod y Rhaglen yn darparu 2.5 awr o ofal plant am ddim yr wythnos, roedd hyn o werth sylweddol i deuluoedd lle'r oedd y ddau riant yn gweithio, ond yn llai deniadol i wir dargedau'r ymyriad oedd yn debygol iawn o fod yn economaidd anweithgar

- 2.46 Dywedodd y ddau berson yma y medrai graddfa ofodol fechan LSOAs hefyd fod yn broblematic, yn arbennig yn nhermau dynodi lleoliadau addas ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf i wasanaethu poblogaethau amddifadus, gyda'r cyntaf yn dadlau nad oedd yn bosibl cynnal adfywio drwy ganolbwyntio buddsoddiad ar 'fannau du ... mae'n rhaid i chi weithio gyda'r manau llwyd, lle medrir ysgogi cyfleoedd' a'r ail yn dadlau fod maint yr LSOAs yn golygu y medrai'r cyfansoddiad cymdeithasol newid yn eithaf cyflym, gydag er enghraifft adeiladu datblygiad cymharol fechan o dai moethus mewn cymuned.
- 2.47 Yn wir, er bod cefnogaeth gyffredinol ar gyfer adeiladu'r Mynegai o lefel LSOA, awgrymodd bron hanner y rhai a gafodd gyfweiliadau ansoddol fod graddfa ofodol yn broblem, i raddau helaeth oherwydd y canllawiau clir iawn na fedrid cronni safleoedd y Mynegai. Felly, awgrymodd trydydd person a gyfwelwyd, yn siarad am Cymunedau yn Gyntaf, fod LSOA yn rhy fach fel sylfaen ar gyfer penderfynu ar dargedu ac nad oeddent yn cyfeirio at gymunedau naturiol yr oedd pobl yn uniaethu â hwy, a dywedodd person arall ei bod yn bwysig cael data am amddifadedd cymharol ar gael ar ystod o lefelau gofodol:

'Rwy'n credu ei bod yn bwysig cydnabod eich bod angen gwybodaeth ar lefel Cymru-gyfan, rydych ei hangen ar lefel awdurdod lleol, rydych ei hangen ar lefel is na hynny oherwydd y bydd gwahanol bobl yn ei defnyddio mewn gwahanol ffyrdd'.

- 2.48 Wrth gwrs, bwriedir i fater cronni gael ei drin gan gyhoeddiad diweddar data dangosydd sylfaenol wedi'i gronni ar wahanol lefelau gofodol.
- 2.49 Yn ogystal â mater lefel (neu lefelau) gofodol yr oedd y Mynegai yn gweithredu arnynt, roedd gan nifer o'r rhai a gyfwelwyd (o leiaf bedwar) hefyd bryderon am ddiffyg unrhyw elfen hydredol i'r Mynegai: tybient fod newidiadau i'w gyfansoddiad yn golygu ei bod yn amhosibl edrych os oedd newidiadau i safle ardal dros gyfnod yn adlewyrchu gwir newid ar lawr gwlad, o leiaf yn sefyllfa gymharol ardaloedd gwahanol. Eto, yn y cyd-destun yma, dylai cyhoeddi'r data sylfaenol fod yn ddefnyddiol, a dylai'r ffaith y bydd Mynegai 2011 yn diweddar'u'r data gan ddefnyddio, cyn belled ag sydd modd, yr un dangosyddion â Mynegai 2008, yn hytrach na Mynegai newydd, yn gyfle i brofi manteision cymharol cadw'r un fethodoleg.
- 2.50 Dadleuodd nifer o'r sawl a gyfwelwyd (o leiaf bedwar) hefyd fod y ffaith na fedrir cymharu'r Mynegai gyda mynegeion cyfochrog yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn gyfyngiad (er y deallwn bod gwaith yn mynd rhagddo gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar hyn o beth).
- 2.51 Tynnodd pobl a gyfwelwyd hefyd sylw at nifer o wendidau yn y data sylfaenol, yn arbennig felly yng nghyswllt tai gan ddadlau fod hynny'n gwneud y Mynegai yn llai defnyddiol: cydnabuwyd fodd bynnag bod tîm y Mynegai yn ymwybodol iawn o'r problemau hyn. Teimlai un person fod y broses ymgynghori a ddefnyddiwyd wrth ddatblygu'r Mynegai dros y flwyddyn ddiwethaf wedi arwain at bwysoliadau cymharol fympwyol ac felly eu bod wedi eu 'dal gan grwpiau lobio'<sup>48</sup>.
- 2.52 Yn ogystal â'r hyn y medrid ei ystyried yn gwestiynau egwyddor sylfaenol am rôl targedu gofodol yn hytrach na thargedu unigolion a materion technegol am yr hyn y gall ac na all y Mynegai eu gwneud, pwysleisiodd pobl a gafodd gyfweliadau ansoddol hefyd faterion

---

<sup>48</sup> Mewn gwirionedd, fodd bynnag, cafodd y pwysoliadau ar gyfer Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru eu trafod yn helaeth o fewn y Grŵp Llywio. Gweler <http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/theme/wimd/governance/board/101022/?lang=cy?>

parhaus am y gallu i gyfathrebu'n glir i rai heb fod yn arbenigwyr am y ffordd y dylai ac na ddylai'r Mynegai gael ei defnyddio fel bod yn llesteirio ei effaith.

2.53 I raddau helaeth, priodolodd llawer o'r rhai a gyfwelwyd hyn at gymhlethdod cynhenid y pwnc, ar y naill law, a methiant swyddogion polisi yn Llywodraeth Cymru i fanteisio ar y deunyddiau gwybodaeth oedd ar gael, ar y llaw arall:

'mae yna lawer o gyfarwyddyd manwl – y broblem yw nad yw pobl yn ei ddarllen'

2.54 Serch hynny, teimlai ef a rhai eraill a gyfwelwyd ac eraill fod yn rhai bod rhyw ffordd o gyfathrebu negeseuon allweddol am y Mynegai hyd yn oed yn fwy syml i gynulleidfa gyffredinol. Sylwadau nodweddiadol yma oedd:

'mae lle o hyd i symleiddio'r neges .. i gynhyrchu 'canllawiau ffŵl' o bethau i'w gwneud a phethau i beidio'u gwneud.'

'mae angen llawer mwy o bwyslais ar ystadegwyr yn medru trosi pethau i iaith bob dydd - sut fedrwn ni ddefnyddio'r Mynegai a sut y medrwn ei rhoi ar waith? Dylai fod yn arf a ddefnyddiwn i fod yn sylfaen i'n cynllunio a dwi ddim yn meddwl bod hynny erioed wedi dod trosodd.'

'mae llawer ohono yn ymwneud â chyngor priodol yn y ddogfen, a bron nodyn gwybodaeth, canllawiau sut i'w ddefnyddio ... ar gyfer uwch swyddogion, Gweinidogion a gwahanol sefydliadau y tu allan a fedrai ei ddefnyddio fel dyfais dyfarnu ... fel nad ydyn ni'n mynd i'r dryswch yma'.

2.55 Er ei bod yn anos cael awgrymiadau penodol eraill, dau syniad a gyflwynwyd oedd pwysigrwydd sicrhau fod staff dadansoddi - yn arbennig ystadegwyr, oedd yn gweithio mewn adrannau neilltuol eu hunain - yn cymryd perchnogaeth o'r Mynegai, yn hytrach na'i weld yn

bennaf fel mater i dîm y Mynegai; ac yn ail, yr angen i ystyried yr iaith greiddiol a therminoleg (gydag un person yn awgrymu bod y termau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ac Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yn enghreifftiau o derminoleg nad oedd yn gwneud synnwyr i bobl gyffredin).

2.56 Yn olaf, dadleuodd nifer o'r sawl a gyfwelwyd (o leiaf tri) y medrid sicrhau effaith y Mynegai yn well pe bai mwy o reoli ar y ffordd y caiff ei ddefnyddio (a'i gamddefnyddio). Felly dadleuodd un bod angen cryfhau plismona gan y gwasanaethau ymchwil a dadansoddol o briodoldeb y defnydd a wnaed o'r Mynegai:

'os caiff ystadegau eu cam-gynrychioli gan Weinidogion cawn lythyr yn ôl gan yr Awdurdod Ystadegau ond dydyn ni ddim yn cael yr un math o ymateb ar y Mynegai'.

2.57 Adleisiwyd hyn gan berson arall a gyfwelwyd a deimlai bod ei gydweithwyr Ystadegol weithiau'n rhy gefnogol i bobl nad oedd yn defnyddio'r data'n gywir a heb fod yn ddigon cadarn wrth ddangos defnydd amhriodol ohono.


2.58 Er nad yw'r arolwg ar y we yn rhoi tystiolaeth mor fanwl â'r hyn a roddwyd gan y data ansoddol, fe wnaeth ymatebwyr yn gyffredinol dynnu sylw at nifer o faterion tebyg yng nghyswllt rhwystrau effaith. Dengys Ffigur 2.6 islaw'r ymateb i'r cwestiwn yma (oedd yn gwahodd cynrychiolwyr i ddewis cynifer o ddatganiadau ag y credent oedd yn berthnasol). Dim ond chwe ymatebydd (15 y cant) a deimlai nad oedd unrhyw rwystrau ar effaith y Mynegai ar bolisi a/neu ymarfer, gyda'r rhwystr a ddynodwyd amlaf yn 'ddiffyg gwybodaeth neu ddealltwriaeth o'r Mynegai'. Cytunodd ychydig dan chwarter yr ymatebwyr (10) gyda'r datganiad fod y 'gwasanaethau a ddarparwn yn gynhwysfawr, a heb fod wedi eu targedu'n unig ar bobl amddifadus' yn rhwystr.

2.59 Adlewyrchwyd hyn hefyd mewn dau o'r sylwadau penodol a wnaed am rwystrau 'eraill':

‘Mae diffyg dealltwriaeth o’r hyn y mae’n rhesymol disgwyl i’r Mynegai ei wneud er bod llawer o wybodaeth ar y pwnc. Hefyd mae angen mwy o drafodaeth ar pan fo targedu yn gynhwysol a phan nad yw’ (Swyddog Ymchwil Llywodraeth Leol).

‘Byddai targedu anhyblyg ar yr ardaloedd mwyaf amddifadus yn colli’r nifer fawr o bobl amddifadus sy’n byw mewn ardaloedd nad ydynt ymhlith y rhai mwyaf amddifadus. (Yn llai o rwystr nag o ddadl synhwyrol.)’ (Swyddog Polisi Llywodraeth Leol)

Ffigur 2.6: Rhwystrau’n cyfyngu ar fwy o ddefnydd o’r Mynegai i wneud newidiadau i bolisi ac ymarfer



Sylfaen: 41 ymatebydd

- 2.60 Yn nhermau trin cwestiwn ‘diffyg gwybodaeth neu ddealltwriaeth o’r Mynegai’, gwnaeth ymatebwyr i’r arolwg ar y we nifer o awgrymiadau ar gyfer gwneud y cylchlythyr yn fwy defnyddiol a hefyd ar gyfer digwyddiadau a hyfforddiant.
- 2.61 Roedd y sylwadau mwy penodol o’r arolwg ar y we ar welliannau posibl i’r cylchlythyr yn cynnwys:



- ‘Crynodebau byr gyda dolen i’r prif erthyglau gan fod llawer o wybodaeth o gwmpas ac ychydig iawn o amser i’w darllen!’ (Swyddog Ymchwil Awdurdod Lleol)
- ‘...dadansoddiad naratif i gyd-fynd â’r ffigurau, ynghyd â thystiolaeth o sut y defnyddir y dystiolaeth i ddylanwadu ar gyfeiriad polisi a pherfformiad’. (Uwch Reolwr Sector Preifat)
- ‘Mwy cyfeillgar i’r defnyddiwr e.e. llai o derminoleg, defnyddio lluniau ac ati. Mae’n teimlo’n fwy fel cylchlythyr mewnol nag un ar gyfer y cyhoedd.’ (Swyddog Gweithredol Sector Cyhoeddus arall)

2.62 Roedd y mathau penodol o ddigwyddiadau neu hyfforddiant a deimlai ymatebwyr fyddai’n gwella eu dealltwriaeth a’u defnydd o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a’r Mynegai Plant yn cynnwys:

- hyfforddiant cyffredinol ar ddefnyddio a dehongli’r data (pedwar ymatebydd);
- hyfforddiant technegol i roi disgrifiadau manwl o bob dangosydd (dau ymatebydd);
- enghreifftiau o sut y defnyddiodd gwahanol asiantaethau y Mynegai i gynllunio polisiâu a dyrannu adnoddau (dau ymatebydd); a
- ‘Dadleuon/trafodaethau bwrdd crwn rhanbarthol gyda rhanddeiliaid o amrywiaeth o sefydliadau i helpu hysbysu, cynghori a chodi ymwybyddiaeth o faterion yn gysylltiedig ag amddifadedd (nid dim ond cynrychiolaeth o gymunedau amddifadus) gan fod canfyddiad mai dim ond ynglŷn â thlodi economaidd y mae amddifadedd ...’ (un ymatebydd - Uwch Reolwr Trydydd Sector).

## **4 Casgliadau: Sicrhau'r effaith fwyaf i Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn y dyfodol**

- 3.1 Mae'n glir o'n gwaith maes - er yn gyfyngedig - fod y Mynegai yn gyffredinol adnabyddus ac y caiff ei ddefnyddio'n gymharol eang o fewn Llywodraeth Cymru ac mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus i roi gwybodaeth ar gyfer datblygu polisi cyhoeddus a chynyddu dealltwriaeth o amodau economaidd o fewn ardaloedd lleol.
- 3.2 Yn gyffredinol, mae llawer o werthfawrogiad o'r modd proffesiynol y caiff y Mynegai ei gasglu a'i ledaenu a chred ei fod yn arf hanfodol, hyd yn oed gan y rhai sy'n poeni y gall weithiau gael ei ddefnyddio fel arf braidd yn ddi-fin, o gofio am gyfyngiadau anochel unrhyw Fynegai cyfansawdd.
- 3.3 Mae'n amlwg bod llawer o ddefnyddwyr yn gymharol soffistigedig gan eu bod yn gwerthfawrogi'r mynediad cynyddol i'r data parth a dangosydd sylfaenol a gyhoeddir gan y Gyfarwyddiaeth Ystadegol. Dylai cyhoeddi data ychwanegol ar ddangosyddion, sydd wedi ei gronni ar wahanol lefelau gofodol fynd gryn ffordd i fynd i'r afael â phryderon rhai o'r defnyddwyr am y ffaith mai dim ond ar lefel LSOA y mae safleoedd Mynegai a Pharth ar gael ac na fedrir eu cronni (er bod croeso cyffredinol i'r ffaith fod y Mynegai yn seiliedig ar LSOA). Hyd yn oed yng nghyd-destun toriadau mewn gwariant cyhoeddus, bydd yn bwysig bod cymaint ag sydd modd o'r data sylfaenol ar gael i ddefnyddwyr.
- 3.4 Bydd cyhoeddi Mynegai 2011 hefyd yn cynnig cyfle i ystyried yr achos am fwy o sefydlogrwydd yn y ffordd y caiff y Mynegai ei ffurfio. Awgrymodd llawer o'r rhai y gwnaethom eu cyfweld y medrai newidiadau mewn safleoedd rhwng y gwahanol Fynegeion a gyhoeddwyd ers 2000 fod yn dangos newidiadau mewn methodoleg yn

hytrach na newidiadau gwrthrychol ar lawr gwlad gan ddadlau bod hyn yn gwneud y Mynegai yn llai defnyddiol i ddefnyddwyr (er bod rhai o'r sawl a gyfwelwyd gyfwelwyd yr un mor barod i nodi nifer o newidiadau y dylid ei wneud i'w ffurf yn y dyfodol). Dylai'r ffaith y bydd y Mynegai a gyhoeddir ym mis Awst eleni yn defnyddio data newydd ond y bydd wedi'i ffurfio ar yr un sail â Mynegai 2008 alluogi'r Gyfarwyddiaeth Ystadegol i ymchwilio'n llawnach gyda defnyddwyr (nid yn lleiaf drwy'r ymgynghoriad arfaethedig am Fynegai 2013) p'un ai oes gan hyn fanteision sy'n bwysicach nag anfanteision peidio defnyddio ffynonellau data newydd neu wahanol a all ddod ar gael.

3.5 Efallai fod y dystiolaeth o'r gwaith maes am effeithlonrwydd yr offer gwybodaeth a'r technegau a ddatblygwyd gan dîm y Mynegai yn llai clir. Er y credai mwyafrif prin o ymatebwyr yr arolwg ar y we a ddefnyddiai'r cylchlythyr electronig ei fod yn ddefnyddiol, ymddengys mai dim ond lleiafrif bach oedd yn rhoi llawer o sylw iddo, a chymharol ychydig o'r grŵp cyffredinol wybodus yma (neu'r rhai a gyfwelwyd gennym ni) oedd wedi cymryd rhan yn y digwyddiad ymgynghori neu'r ymarfer neu yn y sesiynau gwybodaeth a gynhaliwyd adeg cyhoeddi Mynegai 2008. Ar yr un pryd, mae'r canfyddiadau'n awgrymu fod cwmpas sylweddol dros well gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Mynegai. Er ei bod yn anodd dod i gasgliadau pendant o hyn am y strategaeth wybodaeth a chyfathrebu orau, credwn:

- y dylai prif ffocws y gwaith cyfathrebu ynglŷn â chyhoeddi Mynegai 2011 fod ar sicrhau fod canllawiau craidd clir iawn ar wefan y Mynegai ar sut i'w ddefnyddio: yn arbennig efallai fod lle i symleiddio'r hyn sydd ar hyn o bryd yn gyfres o gwestiynau ac atebion a defnyddio iaith heb fod yn dechnegol lle bynnag y bo modd;
- mae'n hanfodol sicrhau fod staff arall y Gyfarwyddiaeth Ystadegol sy'n gweithio ar feysydd polisi penodol yn cael gwybodaeth a bod ganddynt hefyd berchnogaeth o'r Mynegai; fel y medrant weithredu

fel canolwyr wrth raeadru gwybodaeth a dealltwriaeth i gydweithwyr polisi;

- yn hytrach na chynnal digwyddiadau lledaenu cyffredinol, mae achos dros dargedu rhagweithiol ar yr adrannau polisi o fewn Llywodraeth Cymru y credir eu bod debycaf o ddefnyddio (neu o bosibl gamddefnyddio) y Mynegai a chynnig gwybodaeth wedi'i dargedu at y staff hyn (gan barhau i ymateb i unrhyw geisiadau penodol a dderbynnir ar gyfer gwybodaeth ar bynciau penodol eraill);
- mae'n debyg mai blaenoriaeth cymharol isel yw'r cylchlythyr electronig, o gofio am y defnydd cymharol gyfyngedig a wneir ohono.

3.6 Yn wahanol i'r prif Fynegai, ymddengys fod yr wybodaeth o'r Mynegai Plant yn eithaf gwael, er bod hyn yn rhannol bron yn sicr yn adlewyrchu'r ffaith ei fod yn gyhoeddiad llawer mwy diweddar. Mae angen ymdrech neilltuol i godi ymwybyddiaeth o'r Mynegai Plant ymhlith defnyddwyr gwirioneddol a darpar ddefnyddwyr o'r tu mewn a thu allan i Lywodraeth Cymru. Dylai hyn gynnwys proffil llawer cliriach ar gyfer y Mynegai Plant ar dudalennau gwefan y Mynegai (lle ymddengys mai ychydig o wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd).

3.7 Awgrymodd ein gwaith maes hefyd fod darlun amrywiol iawn yn nhermau mynediad sefydliadau i'r sgiliau ystadegol sydd eu hangen i wneud y defnydd gorau o'r Mynegai. Mae adrannau Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol mwy yn tueddu i fod â'u hystadegwyr arbenigol eu hunain; nid yw'r adnodd hwnnw ar gael fel arfer gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, cyrff gwirfoddol a'r sector gymunedol. Rhoddwyd llawer o ganmoliaeth i dîm y Mynegai am y gefnogaeth a roddant, ond mae adnoddau yn gyfyngedig ac ni fedrir disgwyl iddynt gymryd rhan ym mhob prosiect manwl sy'n ymwneud â'r Mynegai. Medrai creu cronfa, mewn cysylltiad gyda'r ESRC a/neu CCAUC, fod yn bosibilrwydd er mwyn galluogi sefydliadau llai i weithio gyda

sefydliadau academiaidd ar y dadansoddiad o ddata'r Mynegai, er enghraifft drwy brosiectau myfyrwyr ymchwil.

- 3.8 Yn sylfaen i faterion am y ffordd y caiff y Mynegai ei ddatblygu a'i ledaenu, tynnodd yr ymchwil hefyd sylw at ddiffyg clir o eglurder neu gonsensws am rôl targedu gofodol mewn cyflenwi polisi ymysg swyddogion o fewn Llywodraeth Cymru. I ryw raddau, ymddengys bod y Mynegai yn cael ei weithredu mewn rhyw fath o wacter polisi, sy'n golygu bod risg y disgwylir iddo gario mwy o bwysau yn nhermau gweithredu polisi nag sy'n rhesymol. Gydag adnoddau'n dod yn fwy cyfyngedig, mae risg y gall fod temtasiwn i ddefnyddio targedu gofodol fel ffordd o ostwng costau darparu gwasanaethau cyhoeddus, hyd yn oed lle medrid credu bod hynny'n anaddas.
- 3.9 Er y sylweddolwn nad yw hyn yn rhywbeth y gall staff ymchwil ei wneud yn rhwydd ei hunain, credwn fod angen trafodaeth fwy penodol o fewn Llywodraeth Cymru, gan arwain at ganllawiau clir am lle yr ystyrir bod targedu gofodol yn addas a rôl y Mynegai fel dull o roi gwybodaeth ar gyfer penderfyniadau am dargedu o'r fath. Gall penderfyniadau am ddyfodol Cymunedau yn Gyntaf fod yn gyfle i ddechrau'r drafodaeth.
- 3.10 Credwn hefyd, mewn termau polisi, y gall fod achos dros i adrannau Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r Mynegai yn fwy iterus gyda ffynonellau data eraill – rhai penodol ar gyfer y maes polisi, neu hyd yn oed fwy o wybodaeth ansoddol gan y rhai sy'n ymwneud â chyflenwi gwasanaeth – nag sydd efallai'n wir ar hyn o bryd, fel y gwnaiff sefydliadau sector cyhoeddus eraill.
- 3.11 Yn olaf, yn arbennig yng nghyd-destun mwy o eglurdeb am bolisi cynhwysfawr yng nghyswllt targedu gofodol, gall fod achos dros blismona cryfach, i sicrhau na chaiff y Mynegai ei ddefnyddio mewn modd amhriodol - er, yn amlwg, ei bod yn bwysig peidio gostwng defnydd o'r Mynegai drwy ddod yn orfiwrocraidd. Gall fod angen cael

gofyniad cliriach lle defnyddir y Mynegai i gyfiawnhau newidiadau neu ddatganiadau polisi, er enghraifft cyfeiriadau ato mewn cyngor i Weinidogion, y gofynnir yn awtomatig i'r Gyfarwyddiaeth Ystadegol am eu sylwadau.

## **Atodiad 2: Astudiaeth Achos Dysgu i Wella**

## 1. Cyflwyniad

### 1.1 Diben yr Adroddiad

1.1 Derbyniodd Old Bell 3 a Consulting Inplace gomisiwn gan Lywodraeth Cymru yn Ionawr 2011 i gynnal astudiaeth fechan yn gwerthuso effaith ymchwil o fewn Llywodraeth Cymru.

1.2 Y cyd-destun ar gyfer yr ymchwil oedd y gydnabyddiaeth bod Llywodraeth Cymru yn buddsoddi adnoddau sylweddol mewn ymchwil (a gynhelir gan ei ddadansoddwyr ei hun a hefyd ymchwil a gomisiynir gan ymchwilwyr allanol) a bod yr amgylchedd heriol ar gyfer gwariant sector cyhoeddus yn golygu bod angen ystyriaeth agos i'r ffyrdd o gynyddu effeithiolrwydd yr ymchwil yma i'r eithaf.

1.3 Prif amcanion yr astudiaeth oedd:

- Gwerthuso effaith dau brosiect ymchwil a reolwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru<sup>49</sup> fel astudiaethau achos (sef Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a Gwerthusiad Dysgu i Wella).
- Llunio gwersi i gefnogi a datblygu ymchwil a reolir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau y caiff cyllid ymchwil ei wario'n effeithiol a'i fod yn cael yr effaith mwyaf posibl.

1.4 Ar gyfer pob un o'r astudiaethau achos, yr amcanion oedd:

- Dynodi pwy yw'r cymunedau sy'n defnyddio canfyddiadau'r ymchwil
- Dynodi sut y caiff y cymunedau defnyddwyr eu hysbysu am yr ymchwil
- Dynodi'r ffyrdd y bydd y cymunedau defnyddwyr yn defnyddio canfyddiadau'r ymchwil, ac i ba raddau y maent yn eu defnyddio
- Disgrifio i ba raddau y mae'r astudiaethau wedi effeithio ar bolisi ac ymarfer

---

<sup>49</sup> Enw blaenorol Llywodraeth Cymru



- Asesu i ba raddau y mae'r astudiaethau wedi effeithio ar bolisi ac ymarfer, gan amlygu lle medrai astudiaethau fod wedi cael mwy o effaith ac arferion da
- Disgrifio'r broses o sicrhau unrhyw effaith a ddynodwyd yn cynnwys:
  - sut a pham y cafodd unrhyw effaith ei sicrhau
  - dulliau oedd yn hwyluso effaith yr astudiaethau
  - ffactorau oedd yn rhwystro'r astudiaeth rhag cael effaith
- Llunio pwyntiau ymchwil o'r astudiaethau achos a all gynorthwyo ymchwilwyr i sicrhau y caiff ymchwil ei ddefnyddio'n eang a'i fod yn cael yr effaith mwyaf posibl.

1.5 Bwriedid i'r ymchwil fod yn ansoddol, yn seiliedig i raddau helaeth ar gyfweiliadau wyneb-i-wyneb gyda rhanddeiliaid a defnyddwyr allweddol y cynnyrch ymchwil.

1.6 Mae'r adroddiad yma'n un o ddau adroddiad astudiaeth achos ac mae'n ystyried Dysgu i Wella. Mae adroddiad cyfochrog yn cyflwyno ein canfyddiadau yng nghyswllt astudiaeth achos Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a daw adroddiad terfynol byr â rhai o'r casgliadau o'r ddwy astudiaeth achos ynghyd.

## 1.2 Dysgu i Wella

- 1.7 Cyflwynodd datganiad polisi *Rhannu Cyfrifoldeb*<sup>50</sup> a gyhoeddodd Llywodraeth Cymru yn 2007 ei bolisi ar gyfer llywodraeth leol am y cyfnod rhwng 2007 a 2011. Gan adeiladu ar strategaeth *Creu'r Cysylltiadau* ac ymateb Llywodraeth Cymru<sup>51</sup> i adolygiad Beecham,<sup>52</sup> mae'r datganiad polisi yn tanlinellu pwysigrwydd:
- Rhoi'r dinesydd yng nghanol gwneud polisi a chyflenwi (neu gysylltu â dinasyddion).

<sup>50</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (Mawrth 2007) *Rhannu Cyfrifoldeb: Cyfraniad Llywodraeth Leol at Wella Bywydau Pobl* – Datganiad polisi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

<sup>51</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (Tachwedd 2007) *Creu'r Cysylltiadau - Cyflawni Ar Draws Ffiniau, Trawsnewid Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru*.

<sup>52</sup> Beecham, J., Morgan, G., Webb, A., Martin, S. (2006) *Ar Draws Ffiniau: Gwasanaethau Lleol sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd*, Adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru

- Cydweithio rhwng darparwyr gwasanaeth cyhoeddus (yn cynnwys gweithio rhwng awdurdodau lleol ar draws ffiniau llywodraeth leol a phartneriaeth gyda darparwyr gwasanaeth eraill).
  - Gweithio effeithiol rhwng llywodraeth ganolog a llywodraeth leol.
- 1.8 Mae'r tair thema yma yn ffocws gwerthusiad annibynnol (a ffurfiannol i raddau helaeth) o bolisi llywodraeth leol Llywodraeth Cymru, a elwir yn Dysgu i Wella. Comisiynwyd y gwerthusiad yn 2008, ar ôl astudiaeth ddichonolrwydd a gynhaliwyd gan Ganolfan Ymchwil Llywodraeth Ranbarthol a Lleol Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd.
- 1.9 Ar ôl tendr cyhoeddus, dyfarnwyd y contract i'r Ganolfan mewn partneriaeth gyda Shared Intelligence, sefydliad annibynnol yn arbenigo mewn ymchwil i lywodraeth lleol effeithiol a meithrin gallu ymysg awdurdodau lleol a rhanddeiliaid cysylltiedig. Roedd tîm o bedwar ymchwilydd o Brifysgol Cymru i arwain y broses ymchwil a bwriedid i raglen dysgu a lledaenu, dan arweiniad Shared Intelligence, i fod yn broses ddwyffordd ar hyd y gwerthusiad, yn cynnwys cyfres o ddiwyddiadau dysgu yn anelu i gysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru, cynghorau awdurdodau lleol a chynrychiolwyr darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill.
- 1.10 Mae Dysgu i Wella yn rhaglen pedair-blynedd o waith (y disgwylir iddi ddod i ben ganol 2012) ar gost o tua £500,000 sy'n anelu i roi adborth parhaus i wneuthurwyr polisi i helpu sicrhau fod gan y polisi seiliau cadarn a'i fod yn ymatebol, yn cael ei weithredu'n dda ac yn effeithiol<sup>53</sup>. Bwriedir i Dysgu i Wella hefyd gyfrannu at ddatblygu datganiad newydd ar gyfer polisi llywodraeth leol a bu eisoes yn sylfaen i ddatblygu datganiad polisi Dealltwriaeth Newydd, a gyhoeddwyd ddiwedd 2009<sup>54</sup>.

<sup>53</sup> Manyleb Gwahoddiad i Dendro

<sup>54</sup> Dealltwriaeth Newydd rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth Leol yng Nghymru, Tachwedd 2009. Nod y datganiad ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru oedd esbonio sut y byddant yn cydweithio i ddarparu gwasanaethau ardderchog i ddinasyddion.

- 1.11 Amcanion penodol Dysgu i Wella yw dadansoddi:
- Y ffordd y caiff polisi llywodraeth leol ei ddatblygu a'i gyfathrebu.
  - Sut y cyflenwir polisi.
  - Effeithiau a chanlyniadau polisi ar lawr gwlad.
- 1.12 Mae'r astudiaeth yn defnyddio nifer o ddulliau lle mae agwedd ymchwil gwerthuso (casglu gwybodaeth) yr astudiaeth, dan arweiniad tîm Caerdydd, yn defnyddio dulliau ymchwil sylfaenol ac eilaidd, yn tynnu data o bedair ffynhonnell allweddol:
- Setiau data, adroddiadau a dogfennau polisi presennol.
  - Ailadrodd arolwg Cymru-gyfan – llinell sylfaen a gwblhawyd yn 2009 ac arolwg dilynol ar y gweill ar gyfer 2011. Mae'r arolygon yn rhai aml-ymatebydd a dargedwyd at uwch swyddogion a chynghorwyr o bob un o'r 22 awdurdod unedol ledled Cymru.
  - Astudiaethau achos aml-ddull manwl yn canolbwyntio ar dair thema allweddol polisi llywodraeth leol Llywodraeth Cymru (cysylltu â dinasyddion, cydweithio a chysylltiadau canol-lleol) ac o amgylch materion o ddiddordeb a phwysigrwydd ehangach.
  - Cyfweiliadau manwl gyda gwneuthurwyr polisi a rhanddeiliaid cenedlaethol allweddol eraill fel modd o ymchwilio canfyddiadau'r arolwg o amrediad o safbwyntiau.
- 1.13 Roedd cam cyntaf y gwerthusiad yn cynnwys arolwg llinell sylfaen o swyddogion awdurdodau lleol a gynhaliwyd rhwng Tachwedd 2008 a Mawrth 2009 a chyfweiliadau gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid mewn llywodraeth leol. Arweiniodd hyn at adroddiad interim cyntaf<sup>55</sup> y gwerthusiad, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2009 ac a roddodd gasgliadau o ran y ffordd yr oedd polisi Llywodraeth Cymru'n cael ei ddatblygu, ei gyfathrebu a'i gyflenwi ar lawr gwlad.

---

<sup>55</sup> Guarneros-Meza, V., Downe, J., Entwistle, T. a Martin, S. (Gorffennaf 2009), *Learning to Improve: An Independent Assessment of the Welsh Assembly Government's Policy for Local Government*, Canolfan Ymchwil Llywodraeth Leol a Rhanbarthol, Ysgol Fusnes Caerdydd.

- 1.14 Lledaenwyd canfyddiadau'r adroddiad interim drwy gyfres o weithdai dwy-awr a dargedwyd at reolwyr canol o fewn Llywodraeth Cymru, yn gysylltiedig â'r Rhwydwaith Arweinyddiaeth o uwch swyddogion a drefnir gan dîm dysgu a datblygu Llywodraeth Cymru. Yn ychwanegol, gwnaeth aelodau o'r tîm ymchwil a swyddogion blaenllaw o Lywodraeth Cymru nifer o gyflwyniadau i gynulleidfaoedd eraill o'r gwasanaeth sifil. Er enghraifft, aeth rheolwr prosiect Llywodraeth Cymru a'r swyddog arweiniol o'r isadran llywodraeth leol â'r canfyddiadau i Grŵp Busnes Llywodraeth Leol, a gadeirir gan yr Ysgrifennydd Parhaol. Ym mis Ionawr 2011 cyflwynwyd y canfyddiadau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a fynegodd ddiddordeb cadarnhaol a gofynnodd am gael cadw mewn cysylltiad gyda'r ymchwil.
- 1.15 Bu'r tîm ymchwil mewn cyswllt rheolaidd gyda sefydliadau allweddol llywodraeth leol a rhoddwyd nifer fechan o gyflwyniadau ar ganfyddiadau'r adroddiad interim i gynulleidfaoedd llywodraeth leol. Roedd hyn yn cynnwys sesiwn ar gyfer SOLACE (cymdeithas prif weithredwyr awdurdodau lleol), dan arweiniad cyfarwyddwr y prosiect, a chyflwyniad i'r pedwar arweinydd grŵp yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
- 1.16 Mae'r ail gam yn cynnwys cyfres o bedair astudiaeth achos fanwl o wahanol feysydd polisi, a ddedolwyd yn ofalus i sicrhau eu bod mor berthnasol ag oedd modd i wneuthurwyr polisi a sicrhau eu bod yn ddibynnol, perthnasol ac yn cael effaith uchel. Cynhaliwyd yr ymchwil astudiaeth achos drwy gydol llawer o 2009 a 2010 a chasglodd dystiolaeth drwy arolygon, grwpiau ffocws a chyfweliadau manwl. Y pedwar cynllun astudiaeth achos yw:
- Cymunedau yn Gyntaf yng Nghaerffili a Rhondda Cynon Taf
  - moderneiddio ysgolion ym Mhowys (yn cynnwys archwiliad o'r broses ad-drefnu ysgolion cynradd mewn dau ddalgylch);
  - y pedwar consortiwm trafndiaeth rhanbarthol;

- Byrddau Gwasanaeth Lleol, gan edrych yn fanwl ar bedwar prosiect Bwrdd Gwasanaeth Lleol mewn tair ardal awdurdod lleol.

1.17 Cwblhawyd yr astudiaethau achos a byddant yn sylfaen i ail adroddiad interim a gyhoeddir yn Haf 2011. Disgwylir hefyd y bydd hyn yn ffocws cyfres o ddigwyddiadau dysgu a lledaenu.

1.18 Disgwylir y bydd y cam terfynol yn cynnwys pedair astudiaeth achos<sup>56</sup> arall, ail arolwg o uwch swyddogion llywodraeth leol a chyfweiliadau gyda rhanddeiliaid o fewn Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol. Cyhoeddir adroddiad terfynol yn 2012.

1.19 Goruchwylir y prosiect gan Grŵp Llywio dan gadeiryddiaeth y swyddog arweiniol o fewn yr Isadran Ymchwil Gymdeithasol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a SOLACE yn ogystal â swyddogion Llywodraeth Cymru.

### **1.3 Dulliau ymchwil**

1.20 Cynhaliwyd yr astudiaeth yma dros gyfnod o ddau fis (Mawrth-Ebrill 2011).

1.21 Roedd yr ymchwil yn cynnwys:

- Adolygiad byr o ddeunydd cefndir ar Dysgu i Wella;
- Cyfweiliadau wyneb-i-wyneb (yn defnyddio'r canllaw pwnc yn Atodiad 1) gyda:
  - Staff o fewn yr Isadran Ymchwil Gymdeithasol a'r Adran Cyfiawnder Gymdeithasol a Llywodraeth Leol gyda chyfrifoldeb arweiniol am y gwerthusiad;
  - Staff allweddol o fewn y ddau gontractwr yn cyflenwi Dysgu i Wella;

---

<sup>56</sup> Gweithio partneriaeth yng Ngogledd Cymru; ad-drefnu ysgolion yng Ngheredigion; rôl swyddogion arweiniol Byrddau Gwasanaeth Lleol; a datblygu a gweithredu Mesur Llywodraeth Leol 2009.

- Dau gynrychiolydd llywodraeth leol sy'n aelodau o'r Grŵp Llywio;
- Pump o staff eraill Llywodraeth Cymru gyda gwybodaeth o'r gwerthusiad, gyda dau ohonynt yn aelodau o'r Grŵp Llywio;
- Trafodaethau byr gydag wyth arall o staff Llywodraeth Cymru (pump ohonynt mewn swyddi polisi a thri mewn swyddi ymchwil a dadansoddi) y medrid disgwyl iddynt fod â pheth gwybodaeth o Dysgu i Wella, ond nad oedd yn medru siarad mewn unrhyw ddyfnder amdano<sup>57</sup>.

1.22 Gan y cynhaliwyd yr ymchwil tuag at ddiwedd cyfnod hir ers cyhoeddi'r adroddiad interim cyntaf rywbryd ym mis Gorffennaf 2009, bu'n anodd dynodi carfan ehangach o randdeiliaid a fedrai siarad gydag unrhyw awdurdod am eu sylwadau am effaith wirioneddol a phosibl Dysgu i Wella. Felly, er enghraifft, cawsom ein hysbysu gan staff Llywodraeth Cymru a hefyd gynrychiolwyr llywodraeth leol ar y Grŵp Llywio na fyddai unrhyw swyddogion uwch o awdurdodau lleol unigol mewn sefyllfa i roi sylwadau oherwydd nad oeddent yn ddigon ymwybodol o'r ymchwil ar y cam hwn yng ngweithrediad y prosiect. Dywedwyd wrthym hefyd na fyddai'n addas ceisio cyfweld â chynrychiolwyr o awdurdodau lleol a chynrychiolwyr eraill a fu ynglŷn ag ymchwil yr astudiaeth ymchwil, oherwydd mai dim ond barn gyfyngedig fyddai ganddynt o siâp cyffredinol y prosiect cyfan.

1.23 Yr ydym felly'n ymwybodol fod ein canfyddiadau yn seiliedig ar ystod gul o gyfweleion, yn bennaf o'r tu mewn i Lywodraeth Cymru, a fedrai roi pwysau anghymesur ar farn nifer fechan o ymatebwyr unigol. Fodd bynnag, gwyddom hefyd y medrai'r canfyddiadau a'r farn am Dysgu i Wella hyd yn oed ymhlith y rhai a gyfwelwyd fod yn wahanol iawn ar ôl cyhoeddi'r ail adroddiad interim a'r astudiaethau achos yn ddiweddarach eleni.

---

<sup>57</sup> Roeddent i gyd yn unigolion a gafodd hefyd eu cyfweld yng nghyd-destun yr astudiaeth achos arall am Fyngai Amddifadedd Lluosog Cymru

## **1.4 Strwythur yr Adroddiad**

- 1.24 Yng ngweddill yr adroddiad cyflwynwn ein canfyddiadau yn nhermau amcanion yr astudiaeth achos a nodir ym mhara 1.4 uchod (Adran 2) cyn cyflwyno rhai ystyriaethau cryno ar gyfer y dyfodol (Adran 3).

## 2. Canfyddiadau

### 2.1 Ymwybyddiaeth a Chymunedau Defnyddwyr

- 2.1 Fel y nodwyd uchod eisoes, ymddengys fod ymwybyddiaeth o'r Gwerthusiad Dysgu i Wella wedi ei gyfyngu i gylch eithaf cul o unigolion o fewn Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol, yn bennaf y rhai'n ymwneud yn uniongyrchol drwy'r Grŵp Llywio, neu (yn achos nifer fach o gyfweleion) gyda'r astudiaethau achos.
- 2.2 Tybiai pawb fod y Grŵp Llywio yn ymroddedig ac yn gefnogol iawn o'r astudiaeth er y dywedwyd ei fod yn cynnwys y rhai agosaf at yr ymchwil. Ym marn un a gyfwelwyd, 'mae ganddo gyfuniad da o brofiad ac arbenigedd' a chyfeiriodd un arall at ymdrechion 'diflino' aelodau allweddol o'r Grŵp Llywio i godi ymwybyddiaeth o'r astudiaeth. Canmolodd nifer o'r rhai a gyfwelwyd hefyd waith yr Isadran Ymchwil Gymdeithasol wrth drin y gwerthusiad yn effeithiol a gwneud ymdrechion sylweddol i ysgogi diddordeb ar draws Llywodraeth Cymru yn y canfyddiadau a'u goblygiadau posibl.
- 2.3 Yn nhermau llywodraeth leol, dywedwyd wrthym y bu cyswllt awdurdodau lleol gyda'r astudiaeth yn 'gyfyngedig ac achlysurol hyd yma', oedd i gyfrif am y diffyg cynrychiolwyr posibl i'w cyfweld o'r sector awdurdod lleol. Dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd o lywodraeth leol mai ychydig iawn oedd o gyswllt ar lefel uwch.
- 'Does dim unrhyw brif weithredwyr awdurdodau lleol yn cymryd rhan weithgar ynddo ar hyn o bryd.'
- 2.4 Yn ddiddorol, fodd bynnag, er y bwriadwyd Dysgu i Wella ar gyfer cynulleidfa o fewn Llywodraeth Cymru a hefyd lywodraeth leol, dadleuodd rhai a gyfwelwyd o lywodraeth leol fod prif ffocws yr astudiaeth, neu o leiaf y gwaith a gyhoeddwyd hyd yma, ar ymddygiad



ac agweddau Llywodraeth Cymru tuag at lywodraeth leol ac felly ei fod yn fwy perthnasol o fewn Llywodraeth Leol na'r tu allan<sup>58</sup>.

'Mae'r ymwybyddiaeth o'r prosiect yn isel mewn llywodraeth leol, ond mae'r ffocws ar Lywodraeth Cymru. Er budd Llywodraeth Cymru y mae'n cael ei gynnal Y gynulleidfa allweddol ar gyfer hyn yw Llywodraeth Cymru ei hunan'.

2.5 Tybiai rhanddeiliaid eraill hefyd y bu'r gynulleidfa gan bennaf yn fewnol i Lywodraeth Cymru hyd yma, gyda nifer yn dadlau yr ymddangosai fod llywodraeth leol yn gweld ei hunan fel bod â briff i 'gadw golwg' yn hytrach nag fel cydberchnogion yr ymchwil. Nododd nifer o'r sawl a gyfwelwyd, er bod prif weithredwr cynorthwyol awdurdod lleol wedi bod yn un o aelodau llywodraeth leol ar y Grŵp Llywio ar y dechrau, bod yr unigolyn wedi gadael ar ôl newid swydd ac er bod prif weithredwr wedi cymryd ei le, nid oedd yr aelod newydd (adeg ein gwaith maes<sup>59</sup>) wedi bod mewn cyfarfod: dywedodd un, er yr ymddangosai ar yr wyneb bod y diffyg presenoldeb llywodraeth leol yn gwneud bywyd yn haws (oherwydd mai'r cyn gynrychiolydd fu prif aelod y grŵp a heriodd y dull o weithredu'r astudiaeth), credai erbyn hyn y bu hynny'n gamgymeriad oherwydd ei fod wedi gostwng perchnogaeth o fewn llywodraeth leol Cymru. Aeth person arall a gyfwelwyd oedd â chysylltiadau da ar lefel uwch o fewn llywodraeth leol mor bell â dweud bod prif weithredwyr awdurdodau lleol 'yn ystyried fod Dysgu i Wella yn hollol amherthnasol'.

2.6 O fewn Llywodraeth Cymru, credai nifer o'r rhai a gyfwelwyd fod ymgyfraniad rhagweithiol yn yr astudiaeth wedi ei gyfyngu i'r Grŵp Llywio ei hunan ac i'r isadran Llywodraeth Leol o fewn Llywodraeth Cymru, yn hytrach nag ar draws adrannau eraill. Dywedodd un 'rydym wedi ei chael yn anodd cael effaith tu allan i'r Grŵp Llywio' a dywedodd y byddai'n werthfawr cael cynrychiolaeth o ystod ehangach o adrannau

---

<sup>58</sup> Teimlai ymchwilwyr Llywodraeth Cymru a thîm Dysgu i Wella fod perthnasedd yr astudiaeth i Dysgu i Wella yn debygol o gynyddu pan ledaenid canfyddiadau'r astudiaeth achos.

<sup>59</sup> Deallwn yr unionwyd y sefyllfa ers cynnal y gwaith maes.

o fewn Llywodraeth Cymru oedd yn rhyngweithio gyda llywodraeth leol i godi ceisio ymwybyddiaeth a chyswllt gyda'r prosiect.

- 2.7 Dywedodd aelod o'r Grŵp Llywio ei bod yn frwydr barhaus - un nad oedd Dysgu i Wella wedi ei meistroli hyd yma - i gael diddordeb y gymuned bolisi ehangach o fewn Llywodraeth Cymru:

'Mae bob amser yn her. Dwi ddim yn meddwl ei bod yn neilltuol i waith ymchwil serch hynny. Mae bob amser yn her i ennill diddordeb pobl, beth bynnag yw'r pwnc. Mae'n rhaid i chi wneud y peth cywir i gynyddu diddordeb pobl. Mae'n rhaid i chi wneud yr wybodaeth yn berthnasol. Os yw pobl yn mynd i'w defnyddio, mae angen iddi fod yn ddefnyddiol iddyn nhw. Dwi'n credu fod hynny'n her i bawb, i bopeth, nid dim ond y prosiectau ymchwil mewn gwirionedd.'

- 2.8 Credai'r person yma efallai y medrai'r Grŵp Llywio wneud mwy i godi ei broffil ei hun ac felly broffil yr Astudiaeth, drwy ddefnyddio mewnwyd Llywodraeth Cymru er enghraifft, gan ar yr un pryd yn cydnabod fod risg ceisio 'gorwerthu' yr ymchwil ar adeg pan nad oedd yn cynhyrchu canlyniadau newydd:

'Rwy'n credu fod proffil gwaith y Grŵp Llywio yn eithaf isel a dweud y gwir ac rwy'n credu efallai y dylen ni fod wedi gwneud mwy o'r grŵp hwnnw yn nhermau gadael i bobl wybod a) ei fod yn bodoli b) yr hyn mae'n ei wneud, c) ei fod wedi cyfarfod, ch) yr hyn mae wedi ei benderfynu... efallai y medren ni fod wedi gwneud mwy o hynny'.

- 2.9 Gan gadarnhau'r farn fod ymwybyddiaeth ehangach o Dysgu i Wella yn isel, roedd gan nifer o swyddogion Llywodraeth Cymru a gyfwelwyd yn bennaf yng nghyd-destun ein hastudiaeth achos cyfochrog o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru gyfrifoldebau oedd yn cyffwrdd yn uniongyrchol iawn ar lywodraeth leol ond na wyddai fawr neu ddim am Dysgu i Wella.

- 2.10 Felly, er enghraifft, credai pennaeth isadran oedd â chyfrifoldeb uniongyrchol am un o'r partneriaethau statudol a gynullwyd gan bob awdurdod lleol, ei bod yn achos syndod mawr na fu ganddo unrhyw gyswllt mewn unrhyw ffordd yng ngwaith y rhaglen. Dywedodd, serch hynny, fod swyddogion polisi ar ei lefel ef yn derbyn llw o wahoddiadau cyffredinol i ddigwyddiadau gwybodaeth, yn cynnwys am brosiectau ymchwil, ond ei fod yn annhebygol o gymryd rhan os nad oedd yn cael ei dargedu'n benodol.
- 2.11 Roedd rhai o'r sawl a gyfwelwyd yn gobeithio y byddai cyhoeddi'r astudiaethau achos a'r ail adroddiad interim yn galluogi hwb newydd i godi ymwybyddiaeth ac ymrwymiad gyda Dysgu i Wella. Felly, gobeithid y byddai'r astudiaethau achos yn ffocws ar gyfer cysylltu gyda swyddogion uwch mewn llywodraeth leol ar sail thematig (er enghraifft, gyda Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol neu Gyfarwyddwyr Addysg). O fewn Llywodraeth Cymru, dywedodd un o'r sawl a gyfwelwyd fod Gweinidogion ac uwch swyddogion yn aml yn ei chael yn haws i ymwneud gydag astudiaethau achos a thystiolaeth ansoddol yn fwy cyffredinol na gyda data ystadegol. Dywedodd un ymatebydd uwch fod un o'r Gweinidogion allweddol wedi mynegi diddordeb gwirioneddol yn Dysgu i Wella yn ystod cyfarfod diweddar, unwaith eto'n dangos y potensial ar gyfer ymchwil yn y dyfodol wrth i ganfyddiadau o ymchwil pellach ddod i'r amlwg.
- 2.12 Ar yr un pryd, tanlinellodd nifer fechan o'r sawl a gyfwelwyd ei bod yn bwysig deall mai bwriad yr astudiaethau achos oedd bod yn fodd o archwilio'r materion creiddiol yn ymwneud ag effeithiolrwydd gweithio partneriaeth, cysylltu â dinasyddion a chysylltiadau canol-lleol, nid 'mini-werthusiadau'. Roedd un rhanddeiliad yn bryderus y medrent, drwy ledaenu'r astudiaethau achos, fod mewn risg o gael eu gweld am ad-drefnu ysgolion neu Cymunedau yn Gyntaf tra mai holl bwynt yr astudiaethau achos oedd edrych ar y berthynas ac ymddygiad sylfaenol yng nghyd-destun y meysydd thematig hyn. Byddai angen

bod yn ofalus wrth sicrhau na chaiff y neges ei lastwreiddio yn y cyswllt hwn.

## **2.2 Defnyddioldeb a Defnydd y Gwerthusiad**

2.13 Teimlai'r rhan fwyaf o'r sawl a gyfwelwyd (yn arbennig y rhai oedd yn gwybod am y deunydd astudiaethau achos nad oedd wedi'i gyhoeddi hyd yma) fod gwaith y tîm ymchwil o safon uchel ac o werth cynhenid wrth fynd i'r afael ag agweddau ac ymddygiad cymhleth oedd weithiau'n gwrthddweud ei gilydd o fewn Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol ar weithio partneriaeth. Felly, dywedodd un nad oedd ar y Grŵp Llywio fod gwaith tîm Caerdydd yn 'drwyadl ac yn drawiadol ddifrifol' tra bod y gwaith y tîm ymchwil 'wedi gwneud argraff' ar aelod o'r Grŵp Llywio.

2.14 Nid oedd hyn yn wir am bawb, fodd bynnag, gydag un o'r sawl a gyfwelwyd yn awgrymu nad oedd prif ganfyddiad yr adroddiad interim sef bod gwahanol rannau o Lywodraeth Cymru yn defnyddio ymagweddau gwahanol iawn yn eu cysylltiadau gyda llywodraeth leol yn datgelu llawer.

2.15 Roedd y farn yn gymysg, hefyd, am ba mor ddefnyddiol oedd y model cysyniadol a ddatblygwyd fel rhan o'r adroddiad interim cyntaf, a ddynododd wahanol fathau o gysylltiadau canol-lleol: partneriaeth; dwylo ffwrdd; cystadleuol a gorchymyn a rheoli. Credai rhai o'r sawl a gyfwelwyd y bu hyn yn ddefnyddiol (neu y byddai'n ddefnyddiol yn y dyfodol) fel offeryn dadansoddi, tra credai person arall ei fod yn 'academaidd iawn ond eithaf diddorol'. Roedd eraill yn fwy amheus. Yn wir, dadleuodd un nad oedd un o'r astudiaeth canfyddiadau yn berthnasol iawn, oherwydd y gwnaed gormod o ymdrech i ddefnyddio iaith y byddai swyddogion Llywodraeth Cymru yn ei hadnabod ac yn cysylltu â hi.

'Fe wnaeth y tîm ymchwil eu cloi eu hunain braidd yn eu geirfa eu hunain ac fe wnaeth hyn gyfyngu'r drafodaeth ... aeth eu model hwy yn y ffordd.'

2.16 Yn gyffredinol, credai'r sawl a gyfwelwyd mai ychydig o dystiolaeth oedd y defnyddiwyd yr allbynnau ffurfiol o'r gwerthusiad i fod yn sylfaen i bolisi ac ymarfer. Fodd bynnag, dynodwyd nifer o ffyrdd yr oedd yr ymchwil hyd yma – yn cynnwys hynny ar yr astudiaeth achos, eisoes wedi bod o ddefnydd:

- Soniodd un rhanddeiliad am werth y canfyddiadau gwerthuso hyd yma wrth 'ddangos yn ôl i ni [Llywodraeth Cymru] yr hyn yr oeddem wedi'i ddisgwyl yn anecdotaidd.' Ystyrid felly bod y gwerthusiad yn werthfawr wrth gadarnhau cyfeiriad teithio, yn hytrach na bod yn offeryn i ddylanwadu ar newid:

'Nid bwriad Dysgu i Wella yw helpu ar y lefel datrysiadau manwl. Ei fwriad yw trin cysyniadau yn hytrach na manion gweithredu ar lawr gwlad. Felly mae'n fwy am ddilysu cyfeiriad y daith.'
- Roedd yr ymchwil astudiaeth achos ar Cymunedau'n Gyntaf wedi dangos perfformiad amrywiol iawn mewn partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf, hyd yn oed o fewn yr un ardal awdurdod lleol. Ystyriwyd nad oedd unrhyw wahaniaethau amlwg rhwng partneriaethau o'r fath, heblaw gwahanol ddeinameg o fewn gwahanol gymunedau. Ystyrid bod yr ymchwil yn werthfawr wrth fod yn sylfaen i syniadau Llywodraeth Cymru am sut i fynd â'r cynllun ymlaen ar ôl 2012.
- Dangosodd yr ymchwil ddiffyg dealltwriaeth o wir ystyr 'cysylltu â dinasyddion'. Credid fod hyn wedi helpu Llywodraeth Cymru i fod yn gliriach am fanylu ar ei disgwyliadau, nid yn lleiaf drwy'r 'Ddealltwriaeth Nedwydd' a gyhoeddwyd ddiwedd 2009.
- Dywedodd un o'r sawl a gyfwelwyd fod yr ymchwil astudiaeth achos yn rhoi tystiolaeth nad modelau partneriaeth o reidrwydd oedd y ffordd fwyaf effeithiol o ddarparu rhai gwasanaethau, ac y medrai hyn fod wedi bod yn sylfaen i feddwl yng nghyswllt Adolygiad

Simpson<sup>60</sup> . Fodd bynnag, nid oedd y tîm ymchwil wedi cymryd rhan uniongyrchol nac wedi ymgysylltu mewn unrhyw ffordd gyda'r adolygiad hwn o weithredu llywodraeth leol.

- 2.17 Fel y nodwyd eisoes, trefnwyd cyfres o weithdai ganol 2009 i ledaenu canfyddiadau'r adroddiad interim yn gysylltiedig gyda'r Rhwydwaith Arweinyddiaeth o uwch swyddogion. Gwelai ymchwilwyr Llywodraeth Cymru a thîm ymchwil Dysgu i Wella hyn fel cyfle i gael mynediad i'r uwch fforwm gwasanaeth sifil ond yn y diwedd nid oedd hyn wedi digwydd. Nid oedd neb o'r sawl y gwnaethom eu cyfweld wedi cymryd rhan yn y gweithdai hyn (heblaw fel rhan o'r tîm yn arwain y trafodaethau) ond y farn gyffredinol oedd mai 'llwyddiant cymysg' a gawsant. Roedd uwch swyddogion a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaeth wedi cael yr argraff fod gan gyfranogwyr ddiddordeb yn y canfyddiadau oedd yn dod i'r amlwg o'r astudiaeth a'u bod yn fodlon trafod y goblygiadau ar gyfer eu maes gwaith. Fodd bynnag, ymddangosai fod diffyg gweithredu dilynol ac arweinyddiaeth i adeiladu ar y diddordeb dechreuol yma. Canfyddiad y tîm oedd yn gyfrifol am ledaenu'r canfyddiadau ac annog rhannu pwyntiau dysgu oedd nad oedd gan Dysgu i Wella flaenoriaeth digon uchel o fewn y rhaglenni dysgu rheolaeth. Arweiniodd hyn at gyfranogiad cyfyngedig gan uwch swyddogion ac ymateb cymysg gan rai a gymerodd ran yn y gweithdy.
- 2.18 Yn ychwanegol at y sesiynau hyn oedd yn ymwneud yn benodol gyda dysgu ymysg uwch swyddogion Llywodraeth Cymru, cynhaliodd ymchwilwyr Dysgu i Wella a swyddogion arweiniol Llywodraeth Cymru nifer o weithgareddau codi ymwybyddiaeth yn anelu i hysbysu gweinidogion ac uwch swyddogion am yr astudiaeth a'i goblygiadau posibl. Bu Dysgu i Wella ar agenda'r Bwrdd Rheoli o leiaf ddwywaith ac - fel y nodwyd uchod - cynhaliwyd cyfarfod gyda'r Gweinidog

---

<sup>60</sup> Derbyniodd Joe Simpson, o Ganolfan Arweinyddiaeth Llywodraeth Leol, gomisiwn gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i gynnal adolygiad yn dilyn astudiaeth gan Gymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol a'i drafodaethau ei hun gyda gweithwyr rheng-flaen a darparwyr gwsanaeth. Mae'r adroddiad yn gyfraniad gwerthfawr i'r drafodaeth ar gydweithio a chryfhau darpariaeth gwasnaethau cyhoeddus.

Llywodraeth Leol yn Ionawr 2011. Cafodd yr astudiaeth ei thrafod hefyd mewn cyfarfod o Grŵp Busnes Llywodraeth Cymru.

- 2.19 Yn fwy cyffredinol, roedd yn glir mai dim ond llwyddiant cyfyngedig a fu hyd yma mewn datblygu rhaglen ddysgu a lledaenu addas, yn arbennig yng nghyswllt y sector llywodraeth leol. Yn rhannol roedd hyn yn adlewyrchu'r ffaith, o gofio am amseriad yr ymchwil, mai deunydd cyfyngedig fu ar gael i'w lledaenu, yn ogystal â theimlad mai i gynulleidfaoedd Llywodraeth Cymru yr oedd y canfyddiadau cyntaf yn fwyaf perthnasol. Yng nghyd-destun yr adroddiad interim cyntaf, cytunwyd mewn egwyddor y medrai Shared Intelligence ddefnyddio digwyddiadau oedd ar y gweill eisoes (er enghraifft rhai a drefnwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) yn hytrach na chynnull cyfarfodydd ar wahân i drafod canfyddiadau'r gwerthusiad a'u goblygiadau, ond methodd cyfleoedd o'r fath ddigwydd, yn rhannol oherwydd y credai'r rhai a drefnodd ddigwyddiadau penodol nad oedd y deunydd yn ddigon diddorol i haeddu ei gynnwys ar agendâu oedd eisoes yn orlawn.
- 2.20 Serch hynny, bu peth lledaenu cyfyngedig ar ganfyddiadau'r adroddiad interim, yn cynnwys sefydliadau cynrychioladol allweddol llywodraeth leol, SOLACE a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac aelodau uwch o dîm ymchwil Prifysgol Caerdydd. Teimlai'r ymchwil y bu'r rhain yn ymarferion defnyddiol, gyda'r potensial am 'adlewyrchu mwy trylwyr' yn y dyfodol, gan adeiladu ar y sesiynau cymharol gonfensiynol o 'gyflwyniad' 20 munud gyda chwestiynau ac atebion i ddilyn.
- 2.21 Eto, roedd rhai o'r sawl a gyfwelwyd yn optimistaidd y byddai gan yr adroddiadau astudiaeth achos a'r ail adroddiad interim fwy o botensial i ddylanwadu ar ddatblygu polisi ac ymarfer yn y dyfodol a hefyd i ysgogi gweithgareddau dysgu a lledaenu fydd yn berthnasol a defnyddiol i Lywodraeth Cymru a chynulleidfaoedd mewn awdurdodau lleol.

2.22 Roedd yr adroddiadau astudiaeth achos Dysgu i Wella yn y broses o gael eu cwblhau adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, a hyd yma dim ond i Grŵp Llywio'r prosiect y cawsant eu dosbarthu. Fodd bynnag, yr arwyddion yw y gall rhai o'r canfyddiadau fod o ddiddordeb sylweddol, er enghraifft:

- Mae'r adroddiad ar astudiaeth achos Byrddau Gwasanaeth Lleol yn dangos nifer o oblygiadau ar gyfer polisïau Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn troi o amgylch, ymysg pethau eraill, rôl swyddogion arweiniol y Byrddau Gwasanaeth Lleol a'r paratoad a'r gefnogaeth a dderbyniant; pwysigrwydd ymdrechion i gryfhau gallu arweinyddiaeth leol; manteision posibl partneriaethau rhwng Byrddau Gwasanaeth Lleol a'r angen am ymateb 'cydlynol' gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain i gyd yn faterion a all, mewn egwyddor, gael eu datblygu i ysgogi dysgu sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid lleol yn ehangach.
- Yng nghyswllt moderneiddio ysgolion, codir nifer o gwestiynau am arfer gorau yng nghyswllt ymgynghori gyda dinasyddion ar faterion dadleuol megis cau ysgolion. Mae'r argymhellion yn awgrymu fod angen mwy o bŵer lleol o fewn fframwaith o ddisgwyliadau a fanylwyd yn gliriach a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, gan osod y sylfaen ar gyfer trafodaethau gyda hwylusydd a digwyddiadau dysgu a ddylai helpu i wella polisi ac ymarfer mewn maes anodd a dadleuol.
- Mae'r adroddiad astudiaeth achos Cymunedau yn Gyntaf yn yr un modd yn codi nifer o gwestiynau am, er enghraifft, y cysylltiad rhwng adfywio cymdeithasol ac economaidd; y berthynas rhwng strwythur partneriaeth a pherfformiad a chwestiwn os medrir ffurfio partneriaethau effeithiol yn yr ardaloedd mwyaf amddifadus (mae'r ymchwil yn awgrymu y gallant). Eto, ymddengys fod y cwestiynau hyn yn ffurfio'r sail ar gyfer dialog defnyddiol rhwng partneriaid lleol a Llywodraeth Cymru, a ddylai fanteisio o hwyluso gan y tîm ymchwil Dysgu i Wella.



2.23 Felly gall cyhoeddi'r astudiaethau achos arwain at gam newydd lle tybir fod Dysgu i Wella yn fwy defnyddiol i wneuthurwyr polisi ac ymarferwyr nag a fu hyd yma. Mae ein hymchwil yn awgrymu, fodd bynnag, y bydd yn bwysig dysgu gwersi o lwyddiant cyfyngedig y cam lledaenu/dysgu yn dilyn yr adroddiad interim, er mwyn cynyddu i'r eithaf effaith y buddsoddiad sylweddol a wnaeth Llywodraeth Cymru yn y rhaglen ymchwil yma. Yn neilltuol bydd yn bwysig sicrhau fod Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid ehangach yn manteisio o arbenigedd ymchwil sylweddol Shared Intelligence wrth helpu awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill i rannu dysgu rhyngddynt a datblygu datrysiadau effeithol i faterion polisi ac ymarfer anodd.

### **2.3 Effaith ar Bolisi ac Ymarfer: Ffactorau sy'n Hwyluso a Rhwystrau**

2.24 O gofio am y dystiolaeth o'r ymwybyddiaeth gyfyngedig a'r defnydd o Dysgu i Wella hyd yma, nid yw'n syndod nad oes llawer o dystiolaeth y cafodd canfyddiadau'r gwerthusiad effaith amlwg ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid:

'Ni fu unrhyw fath o newid sylweddol'.

'Fedra'i ddim dangos unrhyw newidiadau i'r rheoliadau sy'n cysylltu'n uniongyrchol gyda'r hyn rydyn ni wedi'i wneud'.

2.25 Yn wir, dadleuodd nifer o'r sawl a gyfwelwyd i'r graddau y bu unrhyw newid yn ymagwedd Llywodraeth Cymru at lywodraeth leol dros oes y gwerthusiad, nad oedd hyn yn adlewyrchu gwersi'r adroddiad interim cyntaf, yr ystyriai'r sawl a gyfwelwyd ei fod yn ymagwedd mwy cyson at bartneriaeth. Roedd enghreifftiau yma'n cynnwys y penderfyniad i anfon comisiynwyr Llywodraeth Cymru i redeg Cyngor Ynys Môn a'r hyn y dywedwyd iddo fod yn gyflwyniad 'munud olaf' y pŵer i orfodi uno awdurdodau lleol ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru), heb ymgynghori gyda llywodraeth leol.

- 2.26 I'r graddau cyfyngedig y dynododd y sawl a gyfwelwyd ffactorau oedd wedi hwyluso effaith hyd yma, roedd y rhain yn troi o amgylch:
- Brwdfrydedd ac ymrwymiad y Grŵp Llywio ac yn arbennig y rheolwr ymchwil;
  - Proffesiynoldeb ac enw da'r tîm ymchwil ('maen nhw'n gwneud i chi feddwl, a maen nhw'n gywir a gwrthrychol'); a'r
  - Ffaith y cafwyd adolygiad o ddeunydd print (yn edrych tu hwnt i brofiad Cymru) cyn pob elfen o'r ymchwil a roddodd gyd-destun defnyddiol ar gyfer y canfyddiadau.
- 2.27 Yn nhermau'r rhwystrau sydd, hyd yma o leiaf, wedi atal Dysgu i Wella rhag gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i bolisi ac ymarfer, codwyd ystod eang o faterion (er mai dim ond gan nifer fechan o rai a gyfwelwyd y codwyd pob un).
- 2.28 Y cyntaf ohonynt oedd yn syml y cam yr oedd yr ymchwil wedi'i gyrraedd a natur y canfyddiadau dechreuol. Er y cydnabu llawer o ymatebwyr fod canfyddiadau'r arolwg yn ddiddorol, nid oeddent o reidrwydd yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer dysgu manwl. Fel y gwelsom eisoes, credai llawer o'r rhai a gyfwelwyd y medrai'r gwerthusiad gael llawer mwy o effaith nag a ymddangosai ar hyn o bryd, o gofio am gyhoeddi mwy o ganfyddiadau ymchwil (y medrid dadlau eu bod yn fwy diddorol) yn yr astudiaethau achos. Yn wir, medrid dadlau y medrai cwblhau a lledaenu peth o'r gwaith astudiaeth achos yn gynharach yn y rhaglen ymchwil fod wedi bod yn ddefnyddiol wrth ysgogi diddordeb ac ymrwymiad ar gam cynharach.
- 2.29 Yr ail oedd yr hyn a dybid i fod yn berchnogaeth 'gyda gwreiddiau' o'r astudiaeth. Er eiriolaeth gref y Grŵp Llywio, awgrymodd llawer o'r sawl a gyfwelwyd bod diffyg 'cefnogaeth' ehangach o'r tu allan i'r Isadran Llywodraeth Leol o fewn Llywodraeth Cymru. Gwelsom eisoes bod rhai a gyfwelwyd o lywodraeth leol yn awgrymu y gwelent y gwerthusiad yn bennaf er mwyn rhoi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru, yn hytrach nag

ymddygiad llywodraeth leol. Awgrymodd un o'r sawl a gyfwelwyd pe byddai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi gwneud hyd yn oed gyfraniad ariannol bach at gostau'r astudiaeth, y medrai hyn fod wedi sicrhau mwy o ymrwymiad.

- 2.30 O fewn Llywodraeth Cymru, roedd canfyddiad nad oedd ar hyn o bryd neb yn hyrwyddo'r astudiaeth mewn gwirionedd ar lefel uwch: tybid bod gan yr Ysgrifennydd Parhaol ddiddordeb yn yr adroddiad interim cyntaf ond credid fod y ffaith iddo gael ei 'fownsio' sawl gwaith oddi ar agenda'r Fforwm Arweinyddiaeth yn arwydd nad oedd yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth uchel. Awgrymodd nifer o'r sawl a gyfwelwyd fod gweision sifil yn sensitif i arwyddion o'r fath.
- 2.31 Awgrymodd nifer o'r sawl a gyfwelwyd yr ymddangosai fod rhan o'r rheswm dros ddiffyg perchnogaeth gref ac eang i'w gael yng ngwreiddiau comisiynu'r gwerthusiad. Credid y cafodd hyn ei hybu i raddau helaeth iawn gan un swyddog polisi allweddol oedd wedi comisiynu'r astudiaeth dichonolrwydd ac oedd ei hun ag ymrwymiad cryf yn bersonol i'r ymchwil ond a adawodd y swydd yn fuan ar ôl dechrau'r prosiect. Dywedwyd fod cydweithwyr ymchwil ar y pryd yn llai sicr o werth comisiynu astudiaeth mor fawr, gydag un o'r sawl a gyfwelwyd yn dweud bod yr astudiaeth dichonolrwydd 'yn wan iawn mewn gwirionedd' ac yn holi os oedd wedi rhoi sylfaen digon trwyadl ar gyfer gosod contract ymchwil mawr. Er yr ymddengys fod y swyddogion arweiniol newydd ar yr ochr ymchwil a hefyd yr ochr bolisi â diddordeb mawr ac yn broffesiynol gan wneud ymdrechion sylweddol i ysgogi diddordeb ac ymrwymiad ar draws Llywodraeth Cymru, roedd y ffaith nad oedd symbylydd dechreuol yr ymchwil mwyach yn ymwneud â'i reoli yn debyg o fod wedi effeithio ar ei effaith gyffredinol.
- 2.32 Roedd problem perchnogaeth hefyd yn gysylltiedig gyda natur unigryw mater cysylltiadau llywodraeth leol, yr ystyriwyd ei fod yn torri ar draws ystod fawr iawn o Lywodraeth Cymru. Dadleuodd un o'r sawl a gyfwelwyd fod natur y berthynas rhwng llywodraeth ganolog a

llywodraeth leol mor hollgwmpasog fel na fedrai neb heblaw mae'n debyg yr Ysgrifennydd Parhaol fod yn berchen arni mewn gwirionedd.

- 2.33 Roedd trydedd set o faterion a amlygwyd yn ymwneud â dyluniad cyffredinol yr astudiaeth. Fel y nodwyd eisoes, teimlai un o'r rhai a gyfwelwyd (oedd â gwybodaeth o'r broses gomisiynu) nad oedd yr astudiaeth ddichonolrwydd - oedd yn dadlau o blaid dros astudiaeth gynhwysfawr yn hytrach na dilyniant o ddarnau o waith gyda mwy o ffocws yn gwerthuso rhaglenni penodol neu agweddau o bolisi llywodraeth leol) - yn rhoi sylfaen gadarn ar gyfer yr astudiaeth ac roedd nifer o rai eraill yn amheus os oedd dull o'r fath yn addas ar gyfer gwerthuso agenda diwygio llywodraeth leol.
- 2.34 Ymhellach, serch hynny dywedodd nifer o gefnogwyr yr ymagwedd gyffredinol at Dysgu i Wella fod yr astudiaeth, drwy ganolbwyntio ar y tair thema, yn anochel yn eithaf 'lefel uchel', 'deallusol' neu 'gysyniadol' oedd yn ei gwneud yn dipyn o her i ymarferwyr. Tybiai un oedd yn gryf o blaid y dull gweithredu serch hynny os na fu naifrwydd derbyn yn awtomatig fod gan weinidogion Llywodraeth Cymru ddiddordeb gwirioneddol yn y syniadau lefel uchel a braidd yn haniaethol hyn o hwyluso cydweithio, partneriaeth canol-lleol ac ymgysylltu â'r dinasyddion yn hytrach na chynlluniau mwy penodol. Dywedodd yr un person nad oedd y briff gwreiddiol wedi rhoi set o gwestiynau ymchwil oedd wedi'i diffinio'n neilltuol o glir (er y dywedwyd fod hyn yn isgynnyrch ffodus gorfodi'r tîm ymchwil i ddiffinio cwestiynau perthnasol ar gyfer pob cam o'r ymchwil drwy gynnal adolygiad o ddeunydd print.)
- 2.35 Dadleuodd nifer o'r rhai a gyfwelwyd hefyd fod problem am y berthynas rhwng y broses ymchwil ei hunan a'r rhaglen dysgu a lledaenu. Yn ymarferol, dywedwyd y medrid bod wedi sylweddoli o'r cychwyn cyntaf y dylai'r mewnbynnau ar ddysgu a lledaenu fod wedi eu pwysoli'n gliriach tuag at ddiwedd y prosiect, unwaith fod deunydd sylweddol i'w ddefnyddio. Drwy ganolbwyntio hwb lledaenu sylweddol ar yr adroddiad interim cyntaf - oedd wedi'i adeiladu'n llwyr ar arolwg

dechreuol (nad oedd â chyfradd ymateb neilltuol o uchel), nifer fechan o gyfweiliadau gyda rhanddeiliaid ac ymchwil desg - roedd y prosiect yn peryglu gwastraffu ei gyfalaf gydag uwch wneuthurwyr penderfyniadau yn hytrach nag adeiladu momentwm. Dim ond unwaith yr oedd sylfaen ymchwil sylweddol yn ei le y medrai lleadaenu a datblygu trefniadol ddechrau digwydd mewn gwirionedd a dim ond nawr yr oedd hyn yn dechrau digwydd (gyda chynhyrchu'r astudiaethau achos).

- 2.36 Roedd hyn yn gysylltiedig â mater allweddol arall yn nhermau dyluniad y gwerthusiad - pa mor addas oedd yr amserlen estynedig (pedair blynedd), gyda'r astudiaethau achos cyntaf ond yn ymddangos bron dair blynedd ar ôl comisiynu'r ymchwil. Roedd tua hanner y sawl a gyfwelwyd yn bryderus - er na fu unrhyw ddiwygio sylweddol yn ffurfiol o'r fframwaith polisi ar gyfer lywodraeth leol ers comisiynu Dysgu i Wella - o dan yr wyneb, roedd yr agenda polisi a materion o bwys i Weinidogion a hefyd lywodraeth leol yng Nghymru wedi symud ymlaen yn sylweddol. Roedd un o'r sawl a gyfwelwyd yn credu, er enghraifft, y gallai prif weithredwyr awdurdodau lleol yn 2007 – 'cyfnod o ddigonedd' fforddio pryderu am gwestiynau braidd yn annelwig am sut i wella diwylliant y berthynas gyda Llywodraeth y Cynulliad, ond erbyn 2011, gan wynebu toriadau sylweddol mewn gwariant, eu bod yn poeni mwy am faterion bara a menyn a 'sut ydyn ni'n mynd drwy hyn?'.
- 2.37 Adeisiodd person arall a gyfwelwyd y farn hon, gan ddadlau ei bod yn rhy optimistig i ddisgwyl y byddai'r tirlun polisi yn llonydd yn ddigon hir i'r broses ymchwil roi buddion digonol, ac yn ymarferol fod yr amgylchedd polisi yn nhermau cysylltiadau canolog-lleol yn wahanol iawn yn awr i'r hyn a fu adeg comisiynu'r ymchwil - gyda Gweinidogion yn llawer mwy parod i siarad am newidiadau strwythurol i gyflenwi gwasanaeth (fel y gwelwyd yn Adolygiad Simpson).
- 2.38 Ar drywydd tebyg, credai dau berson arall a gyfwelwyd y byddai'r rhaglen ymchwil yn ddelfrydol wedi bod yn 'llawer byrrach, llymach a mwy cryno. Mae'n rhy faith'.

- 2.39 O gymharu â'r rhwystrau'n deillio o faterion sylfaenol am ddyluniad yr ymchwil, codwyd llawer o faterion am weithrediad y prosiect.
- 2.40 Roedd gwahaniaeth barn am i ba raddau yr oedd Dysgu i Wella yn ddigon hyblyg i addasu i ac amsugno newidiadau yn yr amgylchedd allanol. Dadleuodd rhai o'r sawl a gyfwelwyd y bu cyfle sylweddol am hyblygrwydd dros, er enghraifft, ddethol yr astudiaethau achos, gyda'r tîm ymchwil yn dangos parodrwydd sylweddol i ymateb i ddiddordebau polisi cyfredol. Serch hynny, teimlai nifer o ymatebwyr eraill fod Llywodraeth Cymru wedi'i chloi i broses na fedrid ei haddasu'n ddigonol i'w anghenion presennol.
- 2.41 Yng nghyswllt agweddau dysgu a lledaenu Dysgu i Wella, dadleuodd nifer o'r sawl a gyfwelwyd fod cwmpas am fwy o ddull 'dysgu gweithredu' nag a ddefnyddiwyd hyd yma. Dadleuodd nifer o randdeiliaid bod angen ffocws cliriach mewn digwyddiadau lledaenu ar sut y byddai cyfranogwyr yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r ymchwil. Dadleuodd un fod hyn yn golygu sesiynau gweithdy wedi'u hwyluso'n dda, thematig a seiliedig ar bolisi, gan ofyn y cwestiynau 'beth mae hyn yn ei olygu i chi?' a 'beth sydd angen i Lywodraeth Cymru fod yn ei wneud yn wahanol?' I fod o wir werth, byddai angen i'r sesiynau hyn fod â swyddogion allweddol o lywodraeth leol a Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan - lledaenu mewn ffordd integredig - yn hytrach nag ar wahân fel bod y drafodaeth yn ychwanegu gwerth i'r broses ymchwil. Mae'n bwysig tanlinellu nad bai'r tîm ymchwil o reidrwydd oedd y ffaith na ddigwyddodd hyn, ond am lawer o'r rhesymau a amlinellwyd yn yr adroddiad, bu'n anodd hyd yma i'w roi ar waith. Yn arbennig, roedd y diffyg blaenoriaeth debygol a ddangosodd awdurdodau lleol ac ar draws Llywodraeth Cymru (tu hwnt i'r Isadrn Llywodraeth Leol) wedi cyfyngu ar y graddau y medrid trefnu dysgu rhyngweithiol, gyda ffocws ar ymarfer.

- 2.42 Dadleuodd rhanddeiliad arall am ymagwedd mwy ymyrrol, lle dylai'r Grŵp Llywio a'r tîm ymchwil weithio gyda rhannau o Lywodraeth Cymru oedd yn barod i wneud hynny i helpu llunio eu cysylltiadau gyda llywodraeth leol, gan ddefnyddio'r dystiolaeth yn deillio o'r gwerthusiad:
- 'nid oes unrhyw reswm pam na fedrwn fod yn gweithio gyda Chyfarwyddiaeth Gyffredinol .. a dweud, gadewch i ni ddewis prosiect, polisi mawr rydych ar fin gweithio arno, byddwn yn gweithio gyda chi i'ch helpu i weithredu'r canfyddiadau hyn, oherwydd mae'r ymchwil yma'n rhywbeth parhaus ... Mae hyn yn rhoi cyfle i ni ei ddefnyddio, ei adolygu a mireinio ein gwaith.'
- 2.43 Dywedodd nifer o'r sawl a gyfwelwyd y gallai'r math yma o ymagwedd ryngweithiol fod yn rhwyddach pe bai mwy o integreiddiad rhwng y ddau dîm yn cyflawni'r contract.
- 2.44 Yn olaf, cododd nifer o'r sawl a gyfwelwyd faterion mwy sylfaenol am faint o groeso a roddai gwneuthurwyr polisi o fewn Llywodraeth Cymru i ymchwil yn gyffredinol. Er y dadleuodd nifer o'r sawl a gyfwelwyd yn gryf bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud camau sylweddol ymlaen yn nhermau ei ymrwymiad i bolisi seiliedig ar dystiolaeth, cydnabuwyd hefyd fod penderfyniadau polisi yn cael eu seilio ar ystod eang o ystyriaethau, yn cynnwys gwerthoedd ac egwyddorion gwleidyddol:
- 'Mae'n rhaid i chi fod yn realistig. Pe byddech yn burydd, dylai pob polisi gael ei seilio ar dystiolaeth ond yn y byd go iawn, lle mae gennych wleidyddion, mae polisïau'n digwydd ac yna weithiau mae'r dystiolaeth yn gorfod dal lan'.
- 2.45 Fodd bynnag, dywedodd un fod materion yn nhermau gallu neu ymrwymiad cydweithwyr polisi i ymwneud gyda, a defnyddio, tystiolaeth. Yn sicr ym maes llywodraeth leol, dywedwyd bod y prif gonsyrn yn ymwneud â rheoli problemau dydd i ddydd a mynd i'r afael â phroblemau oedd yn mynd rhagddynt ("gorfod dal ati a gwneud pethau") heb fawr o amser i wneuthurwyr polisi eistedd yn ôl ac ystyried pethau.

2.46 Yn fwy difrifol, dywedodd yr un person fod amharoddrwydd ar ran gweision sifil i herio syniadau derbyniedig o sut y dylid cyflawni nodau polisi. Er ei bod yn hollol ddealladwy fod Gweinidogion yn dymuno gosod nodau polisi clir (y 'beth") yng nghyd-destun Cymru, roedd gan Weinidogion yn aml farn bendant am sut y dylid eu cyflawni. Ychydig os unrhyw le oedd i weision sifil herio os oedd y technegau polisi a ddefnyddiwyd mewn gwirionedd yn addas i gyflawni'r nodau polisi. Felly, ym marn y sawl a gyfwelwyd, y ffocws priodol ar gyfer gwerthusiad sylfaenol o bolisi llywodaeth leol fyddai p'un ai oedd yr agenda 'llais, dim dewis' mewn gwirionedd yn effeithiol wrth sicrhau gwasanaethau lleol safon uwch, ond y collwyd y cyfle.



### 3. Ystyriaethau ar gyfer y Dyfodol

#### 3.1 Cyflwyniad

- 3.1 Mae'n glir o'n gwaith maes - er yn gyfyngedig - bod Dysgu i Wella **hyd yma** wedi methu cael y math o effaith sylweddol ar syniadau am bolisi llywodraeth leol yng Nghymru yn y dyfodol y gobeithid amdano neu y medrid bod wedi'i ddisgwyl o gofio faint o adnoddau a roddwyd i'r darn allweddol yma o ymchwil hirdymor.
- 3.2 Mae'n hollbwysig sylweddoli y gall hyn fod i raddau helaeth yn fater o amseru, gyda'n hymchwil yn cael ei gynnal tuag at ddiwedd cyfnod hir o waith maes a chasglu tystiolaeth yn arwain at gyhoeddi canfyddiadau'r astudiaethau achos. Gall barn rhanddeiliaid allweddol fod yn wahanol iawn mewn chwe mis, unwaith y cyhoeddwyd yr ail adroddiad interim a'i ddefnyddio fel sylfaen ar gyfer digwyddiadau lledaenu a dysgu.
- 3.3 Serch hynny, mae ein gwaith maes yn dangos rhai materion allweddol a all roi gwybodaeth ar gyfer y cynlluniau (yn neilltuol yn nhermau lledaenu) am 12 mis olaf y gwerthusiad Dysgu i Wella a hefyd ddyluniad gwerthusiadau graddfa fawr yn y dyfodol.

#### 3.2 Dysgu i Wella: Symud Ymlaen

- 3.4 **Lledaenu:** Bydd llwyddiant gweithgareddau lledaenu o'r astudiaethau achos dros yr ychydig fisoedd nesaf yn hollbwysig er mwyn cynyddu gwerth Dysgu i Wella i'r eithaf. Ystyrir bod yr astudiaethau achos yn ffynhonnell tystiolaeth fwy sylweddol o'r hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio ac mae ganddynt y potensial i gysylltu'r canfyddiadau ymchwil gyda materion polisi 'byw' cadarn a ddylai fod o gonsyrn a diddordeb i swyddogion Llywodraeth Cymru (ac yn wir, i Weinidogion), swyddogion awdurdod lleol, cynghorwyr a sefydliadau partneriaeth

lleol. O gofio am yr ystod eang o gyfranogwyr posibl a'r pwysau presennol ar amser ac adnoddau, dylai fformat y sesiynau lledaenu fod yn hyblyg, efallai'n cynnwys grwpiau trafod ar-lein<sup>61</sup> yn ogystal â chyfarfodydd gwirioneddol. Mewn egwyddor, dylai sefydliadau fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a SOLACE fod yn gyfryngau posibl i awdurdodau lleol ddynodi cwestiynau polisi allweddol i gael eu trafod, er ein bod yn cytuno gyda rhai o'r sawl a gyfwelwyd y dylai gweithgareddau lledaenu anelu i ddod ynghyd â rhanddeiliaid o lywodraeth leol a Llywodraeth Cymru, os oes modd mewn dull cyfranogol (gweler para. 3.6). Gall Llywodraeth Cymru a'r tîm ymchwil fod â rôl allweddol wrth awgrymu cwestiynau polisi penodol a thrawsbynciol yn deillio o'r astudiaethau achos, ac a ddarlunnir ganddynt, sydd angen eu trafod (e.e. os yw llwyddiant gweithio partneriaeth yn dibynnu mwy ar ymddygiad ac agweddau nag ar strwythurau neu brosesau, sut (os o gwbl) y medrid eu meithrin neu eu hyrwyddo, sut i gynyddu manteision cydweithredu 'gwirfoddol' rhwng awdurdodau, sut i gydbwysu llais y dinesydd gyda hanfodion ariannol).

- 3.5 **Adeiladu ar gryfderau academiaidd yr astudiaeth:** un o'r nodweddion allweddol, a chryfder sylweddol posibl, yr astudiaeth Dysgu i Wella yw'r ffaith y caiff ei chynnal gan un o brif ganolfannau ymchwil Prydain (ac yn wir Ewrop) mewn llywodraeth leol a llywodraethu, dan arweiniad athro prifysgol amlwg gydag enw ardderchog am ei waith. Mae gan y partner lledaenu, Shared Intelligence, hefyd enw ardderchog am ei waith ar draws Prydain a chysylltiadau da gydag ymchwilwyr, ymarferwyr a gwneuthurwyr polisi. Mae gan y math yma o bartneriaeth (yn cynnwys Llywodraeth Cymru fel comisiynwyr ymchwil a phartneriaid) y potensial i fod yn sylfaen i bolisi ac ymarfer yng Nghymru a hefyd ar draws Prydain a thu hwnt. Mae'n amlwg fod tîm Prifysgol Caerdydd yn y broses o baratoi erthyglau ar gyfer cylchgronau blaenllaw, ond posibilrwydd arall yw y

---

<sup>61</sup> Ni awgrymwyd hyn benodol gan y sawl a gyfwelwyd, fodd bynnag credwn ni y byddai sefydlu fforymau ar-lein yn ffordd ddefnyddiol o ledaenu canfyddiadau a thrafod eu goblygiadau, gydag effaith cyfyngedig ar amser a chyllidebau cynyddon brin awdurdodau lleol.

medrent gael eu hannog i gynnull cynhadledd, gyda chynulleidfa darged ar draws Prydain ac efallai tu hwnt, i drafod prif themâu'r ymchwil a'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg. Dylai cynhadledd o'r fath ddod ag ymchwilwyr a gwneuthurwyr polisi ynghyd, a lle'n addas, annog papurau a chyflwyniadau ar y cyd gan ymchwilwyr academiaidd, ymchwilwyr a gwneuthurwyr polisi Llywodraeth Cymru ac arweinwyr llywodraeth leol. Byddai digwyddiad o'r fath yn dathlu ansawdd yr ymchwil a gomisiynir yng Nghymru, y bartneriaeth rhwng llywodraeth ganol, llywodraeth leol ac academia ac ymchwilio'n fanwl oblygiadau'r canfyddiadau ar gyfer Cymru a gwledydd eraill. Isgynnyrch pwysig fyddai y câi proffil yr astudiaeth ei godi'n sylweddol ymysg grwpiau targed ar gyfer y broses lledaenu a dysgu.

- 3.6 **Dysgu gweithredu parhaus:** rhagwelodd y dyluniad ymchwil dechreuol ar gyfer Dysgu i Wella y byddai elfen dysgu gweithredu parhaus yn rhan o'r fethodoleg ymchwil/gwerthuso, yn cynnwys gwaith gyda Llywodraeth Cymru a hefyd randdeiliaid llywodraeth leol. Am nifer o resymau, ni ymddengys i hyn ddigwydd i unrhyw raddau mawr hyd yma. Mae'r pedair astudiaeth achos sydd ar ôl ynghyd â'r arolwg a'r cyfweiliadau dilynol yn rhoi cyfle i ddefnyddio dull mwy cyfranogol at y broses ymchwil, gan ddysgu gwersi wrth i'r gwaith fynd rhagddo, yn hytrach nag aros hyd y camau lledaenu i wneud hyn.
- 3.7 **Ymrwymiad ar lefel uwch o fewn Llywodraeth Cymru:** I ryw raddau, o leiaf, bu diffyg perchnogaeth a hyrwyddo real a pharhaus ar yr astudiaeth ar lefelau uwch o Lywodraeth Cymru, sydd yn rhannol yn adlewyrchu'r canfyddiad y bu'r canlyniadau hyd yma braidd yn denau. Dylai canfyddiadau'r astudiaethau achos a'r gweithgareddau lledaenu cysylltiedig (o gael eu trefnu a'u hyrwyddo'n effeithiol - gweler 3.4 uchod) roi symbyliad sylweddol i sicrhau fod yr astudiaeth yn symud i fyny'r agenda ac yn ysgogi trafodaeth a dadl ddifrifol ar lefelau uwch.
- 3.8 **Cynrychiolaeth ar y Grŵp Llywio:** Er ei bod yn amlwg y bu gan y Grŵp Llywio ymrwymiad cryf ac iddo fod yn gefnogol, mae ein gwaith

maes yn awgrymu y medrai cynrychiolaeth o ystod ehangach o adrannau o fewn Llywodraeth Cymru sydd â chyswllt gyda llywodraeth leol ledaenu ymwybyddiaeth ac ymrwymiad gyda'r prosiect a rhoi mwy o her i'r tîm ymchwil. Byddai hefyd yn ddefnyddiol i gynyddu cynrychiolaeth diddordebau llywodraeth leol ar y Grŵp Llywio, yn arbennig i gryfhau cynrychiolaeth 'ymarferwyr', efallai'n defnyddio profiad awdurdodau lleol a sefydliadau partner a fu'n ymwneud â cham astudiaeth achos yr ymchwil.

### **3.3 Gwersi Cyffredinol**

- 3.9 Yr oedd (a mae) Dysgu i Wella yn rhaglen ymchwil uchelgeisiol, a gynhaliwyd dros gyfnod cymharol hir, yn defnyddio adnoddau sylweddol a gwasanaethau dau dîm ymchwil blaenllaw i drafod ystod o faterion allweddol yn ymwneud â pholisi llywodraeth leol yng Nghymru. Mewn egwyddor, medrid defnyddio ymagwedd o'r fath ar gyfer ystod o feysydd polisi eraill (e.e. dysgu a sgiliau, addysg, iechyd, trafndiaeth, datblygu economaidd) er y medrai cyfyngiadau ar adnoddau effeithio ar unrhyw gomisiynau yn y dyfodol. Serch hynny (a gan gadw mewn cof fod Dysgu i Wella yn dal i fynd rhagddo), medrwn dynnu sylw at nifer o wersi fydd yn helpu i sicrhau fod Llywodraeth Cymru yn cael yr effaith fwyaf posibl o unrhyw gynllun tebyg.
- 3.10 **Enillion cynnar:** Cafodd Dysgu i Wella anhawster yn sicrhau effaith yn ei gamau cynnar (y medrid dadlau iddynt barhau am bron dair blynedd) yn bennaf oherwydd y prinder tystiolaeth gadarn yn dod o'r astudiaeth. Er bod hyn yn broblem gyda'r rhan fwyaf o brosiectau ymchwil, dylai ein hargymhelliad y dylai dyluniad ymchwil gynnwys yr angen i sicrhau bod o leiaf rai o'r canfyddiadau'r potensial i ymrwymo ac ennyn diddordeb cyfranogwyr ymchwil yn debygol o ddod i'r amlwg ar gam cynnar. Yn achos Dysgu i Wella, ein teimlad yw y byddai un neu ddau o astudiaethau achos graddfa fach yn ystod blwyddyn gyntaf yr astudiaeth wedi mynd ymhell i ddarbwylllo rhanddeiliaid perthnasol fod gan y rhaglen ymchwil y potensial i drin materion allweddol sy'n gyfoes ac yn real.

- 3.11 **Dylunio ymchwil hyblyg:** Mae'n amlwg yn her i gomisiynu prosiectau ymchwil hirdymor, oherwydd y gall yr amgylchedd polisi newid mor gyflym. Mae rhywfaint o hyblygrwydd yn rhaglen ymchwil Dysgu i Wella, serch hynny credwn y byddai hyd yn oed fwy o hyblygrwydd yn ddefnyddiol mewn astudiaethau o'r math yma yn y dyfodol. Yn arbennig, credwn y bydd rhaglen dreigl o ymchwil gydag adolygiadau rheolaidd (bob tri mis, dyweder) ar gyfer unrhyw brosiect sy'n parhau am fwy, efallai, na 18 mis yn ddull synhwyrol. Mewn prosiectau ymchwil hirdymor o'r fath, dylai cynrychiolwyr grŵp llywio'r ymchwil roi sylw neilltuol i ffactorau polisi a threfniadol newidiol wrth ystyried sut a pham y dylai'r rhaglen ymchwil newydd trywydd. Dylid hefyd ystyried buddiannau'r contractwyr yn y broses hon a gwneud newidiadau ar sail a gytunwyd o fewn cyd-destun cynllun ymchwil strategol eang.
- 3.12 **Perchnogaeth:** Mae swyddogion polisi o fewn Llywodraeth Cymru wedi arfer newid swyddi ac yn wir Adrannau'n gymharol aml, ac ymddengys mai un broblem gyda Dysgu i Wella yw bod prif hyrwyddwr yr ymchwil wedi symud ymaith o'r maes polisi yn fuan ar ôl comisiynu'r ymchwil. Credwn fod hyn yn dangos pwysigrwydd strwythuro prosesau comisiynu fel eu bod yn sicrhau bod dealltwriaeth a chefnogaeth ehangach ar y cyd i raglenni sylweddol o ymchwil ar ran yr Adran sef y prif gwsmer polisi. Mae hefyd yn bwysig, lle mae gan staff ymchwil bryderon am y fethodoleg a gynigir, y rhoddir ystyriaeth lawn i hynny yn y broses ddylunio.
- 3.13 **Cyswllt â rhanddeiliaid:** nid oes fformiwla gyfrin i sicrhau bod rhanddeiliaid yn cysylltu ac yn dysgu o ymchwil o'r math yma, pa bynnag mor dda y cafodd ei chynllunio a'i gweithredu. Gall cyfarfodydd a gweithdai ac ati fod yn feichus o ran amser ac yn ddrud, yn arbennig mewn cyfnod ariannol anodd. Fodd bynnag, mae'n hanfodol fod cyswllt rhanddeiliaid ar lefelau strategol a gweithredol yn rhan o'r broses ymchwil cyn belled ag sydd modd. Byddai ymgynghoriad ystyrllon gyda'r grwpiau targed arfaethedig ar y cam dylunio a chomisiynu yn

ddefnyddiol, yn yr un modd â system dwy-haen o lywodraethu ymchwil, gyda phrosiect strategol eang (neu gyfwerth) a grŵp llywio gweithredol yn cynnwys sefydliadau sy'n cymryd rhan uniongyrchol yn yr astudiaeth. O safbwynt Llywodraeth Cymru mae'n bwysig bod byrddau prosiect a grwpiau llywio yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Isadran Ymchwil Gymdeithasol yn ogystal â phob isadran/adran polisi perthnasol. I'r graddau mwyaf posibl, mae angen i'r cynrychiolir a ddewisir fod yn frwdfrydig am y prosiect ac yn barod i'w hyrwyddo ar draws y sefydliad.

- 3.14 **Manteisio i'r eithaf ar ryngweithiad academiaidd-polisi:** ni chaiff yr holl ymchwil o'r math yma ei gynnal gan ymchwilwyr academiaidd, ond medrid disgwyl y bydd grwpiau academiaidd yn aml yn cymryd rhan mewn rhyw ffordd. Mae gan gynnwys academyddion y fantais o sicrhau safonau ymchwil uchel, er y gall academyddion fod yn llai agos i bryderon polisi uniongyrchol a gallant fod yn wahanol i wneuthurwyr polisi yng nghyswllt y broses ledaenu (mae ymchwilwyr academiaidd yn tueddu i ganolbwyntio ar gynhyrchu erthyglau ar gyfer gyhoeddiadau a gaiff eu hadolygu gan gymheiriaid, er enghraifft). Mae'n bwysig, felly, fod cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag academyddion i sicrhau eu bod wedi eu gwerthuso'n llawn am gwestiynau polisi ac ymarfer allweddol. Bydd yn hyn yn help i sicrhau y gall ymchwilwyr academiaidd ddefnyddio eu deallusrwydd a'u gwybodaeth ehangach o'r agenda deunydd print ac ymchwil i sicrhau'r budd mwyaf posibl i'r broses gwneud polisi. Mae'r syniad o gynnwys cynadleddau neu seminarau gyda ffocws ar ymchwil-polisi-ymarfer hefyd yn un defnyddiol i helpu ysgogi cyd-ddeallwriaeth a chyfathrebu effeithiol.